



# Gwerthusiad allanol o'r Ucheldir Arfordirol: Prosiect Treftadaeth a Thwristiaeth (CUPHAT)



Adroddiad Gwerthuso  
**TERFYNOL**  
**22 Awst 2023**



Evolved Research and Consulting Ltd  
Heatherlands, Jordan's Lane,  
Sway,  
Lymington SO41 6AR



University College Dublin  
An Coláiste Ollscoile, Baile Átha Cliath



# CRYNODEB GWEITHREDOL

## CUPHAT

Cefnogir y prosiect CUPHAT, sy'n werth £3 miliwn, gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Raglen Gydweithredu Cymru Iwerddon. Ei nod oedd gwireddu'n gynaliadwy botensial treftadaeth naturiol a diwylliannol ar gyfer pedair cymuned ucheldir arfordirol, Mynyddoedd Cambria, Mynydd Preseli yng Nghymru a Mynyddoedd Wicklow a Mynyddoedd Blackstairs yn Iwerddon, gyda'r bwriad o ddenu mathau newydd o dwristiaid i ardaloedd nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol.

Cafodd Evolved Research and Consulting Ltd gcontract i werthuso CUPHAT, gydag amcanion penodol i:

- gynnwys **adolygiad gwerthuso cychwynnol** i sefydlu **data sylfaenol** sy'n dangos yr angen am y prosiect ac y gellir ei ddefnyddio i werthuso cynnydd tuag at amcanion y prosiect.
- cynnwys **gwerthusiad diwedd prosiect** i asesu a deall **effaith** y prosiect.

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn cynnwys adolygiad o'r newidiadau posibl sy'n deillio o brosiect CUPHAT ac mae'n cynnwys myfyrdodau darparwyr llety a busnesau twristiaeth ar y sefyllfa cyn ac ar ôl CUPHAT, yn ogystal ag ystyried yr effaith bosibl y gallai ei chael ar nifer y twristiaid tramor sy'n ymweld â'r ardaloedd.

## METHODOLEG GWERTHUSO

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys tri cham. Yn dilyn cam cwmpasu, dylunio a chynllunio cychwynnol, sefydlwyd llinell sylfaen o weithgarwch twristiaeth cyfredol yn y pedair ardal ucheldir arfordirol gan ddefnyddio data a gasglwyd gan CUPHAT fel rhan o'u gweithgareddau ymgysylltu cychwynnol gyda busnesau a chymunedau yn ogystal ag adolygu'r data eilaidd sydd ar gael. Cynhaliwyd dadansoddiad data rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 a chyflwynwyd yr Adroddiad Adolygiad Interim ym mis Mawrth 2023.

Roedd Cam 3 y gwerthusiad yn cynnwys casglu a dadansoddi data gan gynnwys arolygon a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith gweithgarwch CUPHAT ar niferoedd ymwelwyr. Nid oedd y gwerthusiad yn ystyried effeithiolrwydd systemau a phrosesau rheoli'r prosiect, y dulliau cyflwyno, na phartneriaeth CUPHAT gan fod y rhain y tu allan i gwmpas y contract. Cafodd y data ei gasglu rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2023 ac roedd yn cynnwys y dulliau canlynol:

- Aseswyd gweithgareddau, darpariaeth a chanlyniadau'r prosiect drwy adolygu'r data monitro a gasglwyd gan CUPHAT.
- **Arolygon gydag ymwelwyr.** Cynhaliwyd arolygon wyneb yn wyneb gyda thwristiaid mewn lleoliadau poblogaidd y tu allan i ardaloedd craidd y prosiect i weld a fyddai'r ymwelwyr hyn yn debygol o ymweld ag ardaloedd y prosiect ar ôl cael gwybod am weithgareddau CUPHAT. Yn ogystal, cynhaliwyd arolwg ar-lein gan ddefnyddio SmartSurvey, gyda'r nod o gysylltu ag ymwelwyr tramor blaenorol yn uniongyrchol, gyda'r ddolen yn cael ei rhannu drwy ddarparwyr llety. Yn ogystal, gofynnwyd i 119 o sefydliadau twristiaeth, busnesau lleol, gweithredwyr teithiau a safleoedd treftadaeth roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg ar

eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu yn eu hadeiladau a dosbarthwyd posteri mewn gwahanol leoliadau, safleoedd neu atyniadau y gwyddys bod ymwelwyr yn eu defnyddio'n aml yn y pedair ardal.

- Cynhaliwyd **arolwg ar-lein o ddarparwyr llety** gyda darparwyr o bob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol drwy chwiliad cynhwysfawr ar-lein. Cafodd cyfanswm o 512 o ddarparwyr eu nodi a chysylltwyd â nhw drwy e-bost, a gwnaed ymdrechion hefyd i gysylltu â darparwyr Airbnb drwy grwpiau Facebook. Yn ogystal, cysylltwyd hefyd â nifer o sefydliadau lleol megis Menter Mynyddoedd Cambria, Croeso Ceredigion a Visit Wexford i weld a allent helpu i hyrwyddo'r arolwg.
- Cynigiwyd **cyfweiliadau** i'r darparwyr llety hynny a oedd wedi dangos parodrwydd i gymryd rhan, a'r bwriad oedd i'r sampl adlewyrchu meini prawf penodol. Hefyd, gwahoddwyd sampl o 32 o berchnogion busnesau lleol a gweithredwyr safleoedd treftadaeth i gyfweiliad.
- **Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid** fel rhan o'r gwyliau cymunedol ym mhob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol i ddathlu gwaith CUPHAT. Roedd hyn yn cynnwys stondin ym mhob gŵyl lle anogwyd ymwelwyr i ateb nifer fach o gwestiynau allweddol ar siartiau troi a chynhaliwyd trafodaethau wyneb yn wyneb gyda busnesau a grwpiau cymunedol eraill a ymwelodd â'r gwyliau.
- Cafodd **Themâu Trawsbynciol** sy'n ymwneud â sut roedd prosiect CUPHAT yn cyrraedd targedau dangosyddion Iwerddon Cymru eu hystyried fel rhan o'r gwerthusiad terfynol ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan dîm CUPHAT.

Roedd yr **Adolygiad Interim** yn llinell sylfaen, ac er bod cyfyngiadau'n gysylltiedig â setiau data nad oes modd eu cymharu, ac amrywiadau oherwydd effaith pandemig Covid-19, lle roedd y metrigau'n alinio, cafodd data ei ddadansoddi mewn perthynas â'r wyth gofyniad data allweddol ar gyfer CUPHAT. Roedd hyn yn darparu llinellau sylfaen ar gyfer asesu effaith CUPHAT ar dwristiaeth a threftadaeth yn y pedair ardal ucheldir arfordirol. Lle'r oedd bylchau o hyd, roedd y gwaith casglu data wedi'i anelu at fynd i'r afael â'r rheini i gwblhau'r setiau data.

Roedd gwerthusiad diwedd y prosiect hefyd yn ystyried a gyflawnwyd **allbynnau a chanlyniadau** disgwyliedig CUPHAT yn erbyn y dangosyddion canlyniadau targed gan ddefnyddio asesiad Coch/Oren/Gwyrdd (RAG).

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Er gwaethaf y cyfyngiadau amser a roddwyd ar y prosiect, ar sail mewnbwn gan y tîm, cafodd y rhan fwyaf o brif weithgareddau a thargedau'r prosiect eu cyflawni erbyn mis Awst 2023, gyda'r rheini sy'n dal i gael eu dosbarthu fel rhai Oren (parhaus) i fod i gael eu cwblhau erbyn diwedd cyllid y prosiect.

Cafodd effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn o ran cyflawni amcanion y prosiect ei werthuso ar sail y gwahanol ddulliau casglu data a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2023. Er bod cyfanswm yr ymatebion i'r gwahanol arolygon yn is na'r hyn a ddymunir, er gwaethaf targedu sampl fawr, defnyddio technegau gwahanol, ac anfon negeseuon atgoffa a chymhellion niferus, mae'r canfyddiadau allweddol yn dangos effaith CUPHAT gyda'r canfyddiadau effaith allweddol fel a ganlyn:

### Canlyniadau allweddol yr arolwg ymwelwyr

- **Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol** – Ychydig iawn o bobl oedd yn ymwybodol

o'r ucheldiroedd arfordirol fel llefydd i ymweld â nhw, ond ar ôl gweld deunydd  
marchnata a gynhyrchwyd gan CUPHAT

byddai'r rhan fwyaf, gan gynnwys ymwelwyr tramor, yn 'eithaf neu'n debygol iawn' o ymweld am o leiaf un ymweliad dydd ac eraill am fwy o amser yn dibynnu ar ffactorau fel y llety sydd ar gael, ymysg pethau eraill.

#### Canfyddiadau allweddol yr arolwg llety

- **Ymwybyddiaeth** – Yn gyffredinol roedd 50% o'r darparwyr llety a gwblhaodd yr arolwg yn ymwybodol o brosiect CUPHAT.
- **Marchnata** – Roedd y dull mwyaf poblogaidd o farchnata llety ar-lein, drwy wefan trydydd parti (y mwyafrif drwy Airbnb), ac yna marchnata drwy wefan breifat ac ar lafar. Mae tua chwarter y darparwyr sydd wedi clywed am brosiect CUPHAT wedi newid eu strategaethau marchnata o ganlyniad i weithgareddau a gynhaliwyd o fewn prosiect CUPHAT, ond ni nodwyd sut.
- **Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol** – Roedd y safbwyntiau yn gymysg gyda mwy o ddarparwyr ym Mynyddoedd Cambria yn dweud eu bod yn credu y byddai'r gwaith yr oedd CUPHAT wedi'i wneud yn arwain at fwy o ymwelwyr tramor yn dod i'r ucheldir arfordirol. Roedd rhai yn ansicr efallai oherwydd ei bod yn rhy gynnar i ddweud.
- **Mae CUPHAT wedi helpu darparwyr llety i oresgyn heriau neu rwystrau** – Roedd hanner y darparwyr llety a arolygwyd ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd Wicklow a oedd yn ymwybodol o CUPHAT yn teimlo bod y prosiect wedi helpu neu y bydd yn eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau. Fodd bynnag, ym Mynyddoedd Blackstairs a Mynydd Preseli, nid oedd yr un o'r darparwyr hynny (2 i gyd) a oedd yn ymwybodol o'r prosiect i ddechrau yn teimlo ei fod wedi helpu/y byddai'n eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau.
- **Darparu gwybodaeth am dreftadaeth leol** - mae CUPHAT wedi helpu nifer fach o ddarparwyr llety i ddarparu rhagor o wybodaeth am eu treftadaeth leol i'w gwesteion. Gan nad oedd CUPHAT wedi cynhyrchu unrhyw ddeunydd penodol eu hunain pan gynhaliwyd yr arolwg, tybir bod gweithgarwch CUPHAT wedi galluogi'r darparwyr llety hyn i ddarparu naill ai eu gwybodaeth eu hunain am yr ardaloedd neu i ddod o hyd i wybodaeth a gynhyrchwyd gan eraill.

#### Prif ganfyddiadau'r cyfweiliadau â busnesau twristiaeth

- **Ymwybyddiaeth** – Roedd tua hanner y rhai a gyfwelwyd yn ymwybodol o CUPHAT.
- **Marchnata** – Roedd CUPHAT yn cynnig mwy o gyfleoedd i farchnata'r ardaloedd yn well, yn enwedig ymgyrch broffesiynol gydlynol, wedi'i thargedu, sydd wedi'i hamseru'n dda, a fyddai o fudd mawr i'r busnesau twristiaeth llai a fyddai, gobeithio, yn annog ymwelwyr i aros yn hirach yn yr ucheldiroedd arfordirol. Mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo a chadw'r ardaloedd yn unigryw o ran apêl wledig. Y gobaith oedd y gallai gwell marchnata drwy CUPHAT greu cydbwysedd o ran denu mwy o dwristiaeth adfywiol i'r ardaloedd.
- **Ymgysylltu â threftadaeth** – Gallai'r ardaloedd ddefnyddio'r dreftadaeth a'r diwylliant i annog mwy o bobl i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol ac roedd gwaith CUPHAT ar gasglu gwybodaeth am hanes lleol neu wrthrychau o ddiddordeb yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr.
- **Yr effaith y mae CUPHAT wedi'i chael ar dwristiaeth.** Teimlai rhai busnesau ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fyddai CUPHAT yn gwneud gwahaniaeth gan mai dim ond am gyfnod cymharol fyr yr oedd y prosiect wedi bod yn rhedeg ac roedd yr allbynnau'n dal i gael eu cwblhau a'u lledaenu. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau'n gadarnhaol ynghylch potensial CUPHAT i wella twristiaeth yn y pedair ardal. Y prif effeithiau y mae CUPHAT wedi'u cael

neu y byddai'n eu cael

yn y dyfodol oedd gwell marchnata (h.y. gwella gwelededd yr ardaloedd, gwefan 'siop un stop' i gael gafael ar wybodaeth yn hawdd), rhwydweithio rhwng busnesau (h.y. annog pawb i weithio gyda'i gilydd gyda manteision eang i dwristiaeth yn gyffredinol, er enghraifft creu ymdeimlad o gymuned, datblygu amwynderau a chyfleusterau sylfaenol mewn pentref ac annog twristiaeth adfywiol) a chefnogi busnesau i fwrw ymlaen â'u syniadau.

### **Canfyddiadau allweddol ymgysylltu â rhanddeiliaid**

- **Deall ac ymgysylltu â threftadaeth leol**

Mae CUPHAT wedi cefnogi dealltwriaeth ac ymgysylltiad â threftadaeth leol. Roedd mwy o bobl yn ymwybodol o'r dreftadaeth, a'r gobaith yw y bydd yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu'n well â threftadaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen gwaddol gref i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae CUPHAT hefyd wedi gosod treftadaeth leol yn y cyddestun ehangach, gan greu gwybodaeth gref a theimlad o falchder yn y dreftadaeth. Mae hyn wedi helpu busnesau i ddeall yr adnoddau cadarnhaol sydd ganddynt er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar eu potensial a throsglwyddo hyn i ymwelwyr.

- **Marchnata a hyrwyddo** - mae gan CUPHAT well cyfle i hyrwyddo'r ardaloedd drwy ddatblygu'r wefan, cyfathrebu, a strategaeth farchnata ymarferol. Mae busnesau gwledig bellach yn fwy gweladwy i dwristiaid, a dylai hyn helpu i arwain at dwf.
- **Twristiaeth adfywiol** – Mae CUPHAT wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ac wedi helpu i ddarparu twristiaeth adfywiol yn yr ardaloedd.
  - Bydd ffocws CUPHAT ar helpu, cefnogi a rhoi hyder i fusnesau twristiaeth lleol yn eu helpu i weithio tuag at ddull twristiaeth adfywiol (yn enwedig mewn perthynas â materion amgylcheddol, gwyddoniaeth dinasyddion, materion hinsawdd, cynnyrch a diwylliant lleol). Ystyriwyd bod CUPHAT yn fan cychwyn cadarnhaol ar gyfer cyflawni newid gan ei fod yn annog busnesau i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynaliadwy.
  - Y gobaith yw y bydd CUPHAT yn annog mwy o ymwelwyr yn y dyfodol er bod hyn yn dibynnu ar etifeddiaeth y prosiect. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, mae angen ystyried beth fydd yn digwydd nesaf a sut i ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth.
- **Rhwydweithio** - Rhoddodd CUPHAT gyfle i rwydweithio, gan gysylltu busnesau bach amrywiol lleol â'i gilydd i gydweithio a deall yn well y cyfleoedd i ddatblygu syniadau a chydweithio. Roedd hyn yn cynnwys:
  - Creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn.
  - Dysgu gan eraill, sut maen nhw'n gwneud pethau.
  - Dysgu am bethau eraill sy'n digwydd yn lleol.
  - Creu cyfleoedd newydd.
  - Rhwydwaith cefnogol o fusnesau newydd.
- **Gwersi a ddysgwyd** – Un agwedd allweddol a amlygwyd y gellid bod wedi'i gwneud yn well oedd cyfathrebu'r prosiect, er enghraifft hyrwyddo a hysbysebu'r digwyddiadau, yn ogystal â chyfathrebu o fewn y gymuned ehangach. Mae hyn yn tynnu sylw at yr her i brosiect tymor byr o ran gallu gwreiddio'n llawn yn y gymuned.
- **Gwaddol** – Mae angen parhau i gefnogi'r ardaloedd a'u hyrwyddo ar gyfer twristiaeth ar raddfa ehangach nag a ddigwyddodd o'r blaen, naill ai drwy barhau â'r prosiect, neu drwy gyllid / polisi'r llywodraeth. Mae angen sicrhau cydweithio ac ymgysylltu parhaus.



Ystyriodd y gwerthusiad hefyd y tair **Thema Drawsbynciol** h.y. Cyfle Cyfartal a pheidio â gwahaniaethu, Datblygu Cynaliadwy a Mynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol. Roedd cynllun busnes CUPHAT yn amlinellu polisiau a gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r rhain, ac ysgrifennwyd Cod Eco a Llesiant ar lefel prosiect, gyda staff y prosiect yn cael eu hannog i'w ddilyn. Roedd y Cod yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd, cydraddoldeb, gweithle cydlynol, iaith a diwylliant Cymraeg a Gwyddeleg, gwastraff, trafnidiaeth, amgylchedd swyddfa, prynu, dŵr, ynni, bioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymwybyddiaeth arall. Mewn hyfforddiant a digwyddiadau, roedd CUPHAT hefyd yn ystyried anghenion gwahanol unigolion, trafnidiaeth a rennir lle bynnag y bo modd, ac yn defnyddio arlwy o gaffis a bwytai cymunedol lleol a chynnyrch lleol.

## GWERTHUSIAD

Mae prif effeithiau CUPHAT sy'n deillio o'r gwerthusiad yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- ❖ Mae gan CUPHAT y potensial i **gynyddu nifer yr ymwelwyr tramor** o leiaf 5%, sef y targed, a fyddai hefyd yn arwain at fwy o wariant gan ymwelwyr.
- ❖ Mae CUPHAT wedi **hyrwyddo treftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol** y pedair ardal ucheldir arfordirol. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi darparu ffordd i ymwelwyr ymgysylltu'n hawdd â'r dreftadaeth, naill ai drwy wefan farchnata CUPHAT neu drwy alluogi a chefnogi busnesau lleol i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â threftadaeth.
- ❖ Mae CUPHAT wedi **goresgyn rhai o'r rhwystrau a'r heriau** i bobl sy'n ymweld â'r ardaloedd drwy wella gwelededd yr ardaloedd a'u treftadaeth. Mae pobl bellach yn fwy ymwybodol ohonynt fel llofudd i ymweld â hwy. Tynnwyd sylw at rwystrau eraill, fel y rheini sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, gyda'r llunwyr polisi.
- ❖ Mae CUPHAT wedi darparu hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth i fusnesau a chymunedau lleol i'w helpu i ddatblygu **dull adfywiol o ymdrin â thwristiaeth** yn eu hucheldiroedd arfordirol. Roedd hyn hefyd yn rhoi hyder i fusnesau fwrw ymlaen â'u syniadau.
- ❖ Mae CUPHAT wedi helpu busnesau twristiaeth i ddod yn fwy **ymwybodol o bwysigrwydd treftadaeth** yr ucheldir arfordirol a sut y gellir ei ddefnyddio nid yn unig i hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal yn gyffredinol ond hefyd eu busnesau eu hunain.
- ❖ Mae CUPHAT wedi galluogi busnesau a chymunedau i gymryd rhan mewn **cydweithrediad trawsffiniol** gan arwain at fwy o ymwybyddiaeth, dysgu a chyfleoedd i gydweithio.
- ❖ Mae rhwydwaith twristiaeth CUPHAT **wedi cysylltu pobl leol** sydd bellach yn gallu gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal a hyrwyddo a gwella eu busnesau eu hunain.
- ❖ Mae prosiect CUPHAT wedi cyfrannu at y dangosyddion mewn perthynas â **blaenoriaethau Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon**.



Mae ymgysylltu effeithiol â'r gymuned yn cymryd amser i'w wreiddio ac nid yw CUPHAT ond wedi cael amser byr i ddatblygu, gyda'r prosiect tair blynedd hwn yn cael ei gyflawni o fewn dim ond 18 mis. Mae hyn wedi bod yn her. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi cyflawni ei amcanion, gan gyfrannu at ddangosyddion Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon, a sbarduno cyfres o weithgareddau sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol a pharhaol. Mae yna nifer o straeon am lwyddiant allweddol sy'n adlewyrchu effaith CUPHAT, a chrynhir y rhain fel a ganlyn:

- Mae CUPHAT wedi **codi ymwybyddiaeth o'r ucheldiroedd arfordirol** fel lleoedd i ymweld â nhw a'r rôl y gall treftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol ei chwarae i annog mwy o ymwelwyr, gan gynnwys rhai o dramor. Mae CUPHAT wedi helpu busnesau i ddeall mwy am eu treftadaeth leol ac i ymfalchïo ynddi er mwyn iddynt allu trosglwyddo hyn i ymwelwyr.
- Er ei bod yn rhy gynnar i ddweud a yw CUPHAT wedi cael **effaith gadarnhaol ar dwristiaeth adfywiol** yn yr ardaloedd, mae'n sicr bod llawer o agweddau cadarnhaol ar waith CUPHAT a fydd yn debygol iawn o gyflwyno dull mwy adfywiol o ymdrin â thwristiaeth yn y pedair ardal.
- Mae CUPHAT yn canolbwyntio ar **weithio gyda microfentrau**<sup>1</sup>, gan gynnwys y rhaglen hyfforddi a'r canllawiau a ddarparodd, sydd wedi rhoi hyder i fusnesau twristiaeth lleol ac wedi eu herio i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynaliadwy ac annog mwy o ymwelwyr.
- Bydd gwefan a strategaeth **farchnata** CUPHAT yn rhoi mwy o gyfleoedd i hyrwyddo'r ardaloedd yn well, gan wella gwelededd yr ardaloedd i ymwelwyr a'u helpu i gael gafael ar wybodaeth yn haws. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i fusnesau twristiaeth llai ac yn cefnogi dull adfywiol.
- Mae CUPHAT wedi darparu cyfle ar gyfer **rhwydweithio** busnes i fusnes (b2b) nad yw wedi digwydd o'r blaen. Mae sawl mantais i hyn, gan gynnwys cysylltu busnesau bach amrywiol lleol, cydweithio, creu ymdeimlad o gymuned, datblygu cynlluniau ar y cyd ar gyfer cyfleusterau lleol a datblygu cyfleoedd newydd i annog twristiaeth adfywiol.

Bydd y llwyddiant parhaus ar gyfer twristiaeth adfywiol yn dibynnu ar waddol o gynnal camau gweithredu yn y dyfodol, y tu hwnt i gyfnod cyllido'r prosiect sy'n dod i ben ym mis Awst 2023. Mae camau gweithredu o'r fath yn gofyn am gefnogaeth barhaus i ardaloedd y prosiect i hyrwyddo twristiaeth, naill ai drwy barhad penodol gweithgareddau'r prosiect, neu drwy gefnogaeth ychwanegol gan y llywodraeth, boed hynny drwy ddarparu cyllid ychwanegol neu drwy ddatblygu fframwaith polisi cefnogol.

<sup>1</sup> Ar gyfer prosiect CUPHAT, cafodd microfentrau eu diffinio yn Iwerddon fel rhai â llai na 10 o weithwyr, ac yng Nghymru fel rhai â rhwng 0-9 o weithwyr. Gweithiodd y prosiect gyda'r raddfa hon (yn hytrach na busnesau bach a chanolig fel y cyfryw), gan fod y gwaith cychwynnol o gwmpasu busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth wedi datgelu bod y mwyafrif yn fach iawn, yn unig fasnachwr, a byddai eu targedu felly'n cefnogi economïau a bywoliaethau lleol.

Gellir dosbarthu argymhellion sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r gwerthusiad hwn fel rhai sy'n adlewyrchu naill ai'r broses o gwmpasu'r prosiect a'i waddol uniongyrchol neu'r potensial ar gyfer ei ehangu'n ddaearyddol, ac fe'u hamlinellir fel a ganlyn.

#### **ARGYMHELLION GWADDOL CUPHAT**

**Argymhelliad 1** – Sicrhau bod gwefan a strategaeth farchnata CUPHAT yn cael eu lledaenu a'u hyrwyddo'n effeithiol.

**Argymhelliad 2** – Archwilio cyfleoedd ar gyfer sicrhau gwaddol lwyddiannus a chynaliadwy, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol y gall y gymuned eu rhedeg ar gyfer y gymuned.

**Argymhelliad 3** - Ceisio rhagor o gyllid i barhau ac adeiladu ar y gwaith gyda chymunedau lleol, gan barhau â'r gefnogaeth a datblygu'r dull adfywiol o ymdrin â thwristiaeth. Gallai hyn gynnwys cyllid i ddarparu cefnogaeth barhaus i'r rhwydweithiau twristiaeth lleol sydd wedi'u sefydlu yn y pedair ardal ucheldir arfordirol a chyllid i gefnogi a hyrwyddo'r wefan.

#### **ARGYMHELLION EHANGU**

**Argymhelliad 4** – Ceisio cyllid i ehangu'r gwaith peilot gan CUPHAT i feysydd eraill, er enghraifft cais am gyllid ar hyn o bryd i Cymru Ystwyth i gefnogi rhwydweithiau twristiaeth gymunedol ar hyd arfordir Celtaidd yr Iwerydd.

#### **ARGYMHELLION Y FFRAMWAITH POLISI**

**Argymhelliad 5** – Adolygu'r fframwaith polisi presennol sy'n ymwneud â thwristiaeth adfywiol mewn ardaloedd ucheldir arfordirol gyda'r bwriad o dargedu ymyriadau penodol a datblygu polisi.

**Argymhelliad 6** – Lledaenu canfyddiadau CUPHAT i godi ymwybyddiaeth o'r potensial ar gyfer twristiaeth adfywiol a'r angen am strategaethau a chynlluniau datblygu newydd mewn ardaloedd ucheldir arfordirol gwledig.

# Cynnwys

## CRYNODEB GWEITHREDOL

<b>1.0 CYFLWYNIAD</b>	<b>1</b>
1.1 CUPHAT	1
1.2 Gwerthusiad CUPHAT	1
1.3 Strwythur yr adroddiad	2
<b>2.0 CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO CUPHAT</b>	<b>3</b>
2.1 Cyflwyniad	3
2.2 Model RHESYMEG CUPHAT	3
2.3 Gwerthusiad ffurfiannol mewnol	3
2.4 Gofynion ar gyfer y gwerthusiad	4
<b>3.0 METHODOLEG</b>	<b>6</b>
3.1 Cyflwyniad	6
3.2 Cam 1: Cwmpasu, dylunio a chynllunio	6
3.3 Cam 2: Adolygiad interim	7
3.4 Cam 3: Gwerthuso'r prosiect	7
3.4.1 Adolygu gweithgareddau, darpariaeth a chanlyniadau'r prosiect	8
3.4.2 Arolwg gydag ymwelwyr	9
3.4.2.1 Arolygon wyneb yn wyneb	9
3.4.2.2 Arolygon ar-lein	9
3.4.3 Darparwyr llety	11
3.4.4 Cyfweliadau	15
3.4.4.1 Cyfweliadau gyda darparwyr llety	16
3.4.4.2 Cyfweliadau â busnesau twristiaeth lleol	16
3.4.5 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	17
3.4.6 Themâu Trawsbynciol (CCT)	19
3.4.6.1 Themâu Trawsbynciol – Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd	20
3.4.6.2 Themâu Trawsbynciol – Datblygu cynaliadwy	20
3.4.6 Themâu Trawsbynciol – Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol	21
3.4.7 Dadansoddi data	22
3.4.8 Adrodd	22
<b>4.0 CANFYDDIADAU</b>	<b>23</b>
4.1 Canfyddiadau'r adolygiad interim	23
4.1.1 Gofyniad Dadansoddi Data A – nifer yr ymwelwyr	24
4.1.2 Gofyniad Dadansoddi Data B – amser a dreuliwyd	24
4.1.3 Gofyniad Dadansoddi Data C – gwariant	24
4.1.4 Gofyniad Dadansoddi Data D – ymgysylltu â threftadaeth	25
4.1.5 Gofyniad Dadansoddi Data E - heriau	25
4.1.6 Gofyniad Dadansoddi Data F - budd i fusnesau	25

4.1.7 Gofyniad Dadansoddi Data G - atyniad treftadaeth	26
4.1.8 Gofyniad Dadansoddi Data H - hyrwyddo treftadaeth	26
4.1.9 Dangosyddion sylfaenol	26
4.2 Gweithgaredd CUPHAT	28
4.3 Canfyddiadau'r gwerthusiad	31
4.3.1 Ymatebion i'r arolwg ymwelwyr	34
4.3.1.1 Demograffeg	36
4.3.1.2 Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir i gynllunio ymweliadau	37
4.3.1.3 Rhesymau dros ymweliadau	38
4.3.1.4 Potensial i ymweld ag ucheldiroedd arfordirol	39
4.3.1.5 Rhwystrau	42
4.3.6 Canfyddiadau'r arolwg ymwelwyr ar-lein	44
4.3.2 Canfyddiadau'r arolwg llety	45
4.3.2.1 Demograffeg	47
4.3.2.2 Ymwelwyr a meddiannaeth	50
4.3.2.3 Marchnata	56
4.3.2.4 Rhesymau dros ymweliadau	58
4.3.2.5 Rhwystrau	59
4.3.26 Treftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol leol	62
4.3.3 Canfyddiadau'r cyfweliadau	67
4.3.3.1 Ymwelwyr	70
4.3.3.2 Marchnata	72
4.3.3.3 Rhwystrau sy'n atal denu ymwelwyr tramor	74
4.3.3.4 Ymgysylltu â threftadaeth	77
4.3.3.5 Yr effaith y mae CUPHAT wedi'i chael ar dwristiaeth.	78
4.3.4 Canfyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid	81
4.3.4.1 Canfyddiadau ymarferion siart troi	82
4.3.4.2 Arolwg gyda chanfyddiadau mynychwyr	83
4.3.5 Canfyddiadau Themâu Trawsbynciol (CCT)	86
4.3.5.1 Cyfle Cyfartal a pheidio â gwahaniaethu	86
4.3.5.2 Datblygu cynaliadwy	88
3.4.6 Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol	90
<b>5.0 GWERTHUSO</b>	91
5.1 Cyflwyniad	91
5.2 Effaith CUPHAT	97
5.2.1 Y potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr, yr amser a dreulir a'r gwariant yn yr ardal	97
5.2.2 Ymwelwyr yn gallu ymgysylltu'n well â threftadaeth	98
5.2.3 Rhwystrau a heriau	100
5.2.4 Galluogi twristiaeth adfywiol	101
5.2.5 Gellir defnyddio treftadaeth yr ardal fel atyniad i ymwelwyr gyda gwell hyrwyddo	102
5.2.6 Cymunedau sy'n gallu cyfranogi mewn cydweithrediad trawsffiniol	102
5.2.7 Busnesau twristiaeth yn rhwydweithio'n well gyda'i gilydd	102
5.2.8 Dangosyddion Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Gydweithredu Iwerddon-Cymru	103



5.4 Gwersi a ddysgwyd	106
<b>6.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION</b>	<b>107</b>
6.1 Casgliadau	107
6.2 Argymhellion ar gyfer gwaddol	108

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 CUPHAT

Roedd prosiect Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth (CUPHAT) yn amcanu at wireddu'n gynaliadwy botensial treftadaeth naturiol a diwylliannol ar gyfer pedair cymuned ucheldir arfordirol, Mynyddoedd Cambria, Mynydd Preseli yng Nghymru a Mynyddoedd Wicklow a Mynyddoedd Blackstairs yn Iwerddon, gyda'r bwriad o ddenu mathau newydd o dwristiaid i ardaloedd nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol. Cefnogir y prosiect, sy'n werth £3 miliwn, gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Raglen Gydweithredu Cymru Iwerddon.

Roedd y prosiect yn cynnwys datblygu cydweithredu trawsffiniol drwy weithgareddau cysylltiedig a thrwy farchnata ar y cyd sy'n defnyddio themâu cyffredin.

*“Mae gweithredu CUPHAT yn ceisio cynyddu a gwella twristiaeth yn yr Ucheldir Arfordirol mewn pedwar rhanbarth yn Iwerddon a Chymru drwy ddatblygu amrywiaeth o fentrau sydd wedi'u cynllunio i ysgogi diddordeb yn y pedair ardal ac ychwanegu gwerth at brofiad ymwelwyr.”*

Roedd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth a meithrin ymgysylltiad â thirweddau'r ucheldiroedd arfordirol, gan ganolbwyntio ar gynyddu'r capasiti ar gyfer datblygu cymunedol a thwristiaeth gynaliadwy a helpu i annog twristiaid i ymweld ag ardaloedd newydd, i ffwrdd o'r arfordir sydd eisoes yn brysur. Roedd hefyd yn ceisio meithrin ymweliadau cysylltiedig rhwng y pedwar safle ucheldir arfordirol. Roedd y prosiect yn croesawu technolegau newydd a dulliau newydd o ennyn diddordeb yn yr ucheldiroedd a hefyd yn annog ymwelwyr i gymryd rhan mewn ymchwil weithredol drwy weithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion.

## 1.2 GWERTHUSIAD CUPHAT

Mae Rheoliad Darpariaeth Gyffredin (CPR) Rheoliadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer cyfnod rhaglenni 2014-2020 yn nodi'r gofynion ar gyfer monitro gweithrediadau ac adroddiadau dilynol gan Aelod-Wladwriaethau (1303/2013;1304/2013; 1301/2013).

Mae strategaeth monitro a gwerthuso SRA/WEFO ar gyfer Rhaglenni 2014-2020 yn cynnwys gwerthusiadau lefel Rhaglen a Gweithredu. Mae hefyd yn amod cyllido bod pob buddiolwr yn cytuno ar Gynllun Monitro a Gwerthuso (Cynllun M&E) ac yn comisiynu gwerthusiad(au) allanol.

Roedd CUPHAT wedi cynhyrchu Cynllun Monitro a Gwerthuso fel Atodiad i'w prosiect (Atodiad 9), a gafodd ei ystyried tua diwedd y contract gwerthuso. O'r herwydd, ni chafodd y Cynllun ei ymgorffori yn nyluniad y gwerthusiad, ond mae'r prif bwyntiau wedi cael eu hystyried yn ystod y dadansoddiad a'u cynnwys yn yr adroddiad lle bo hynny'n bosibl.

Cafodd Evolved Research and Consulting Ltd gontract i werthuso CUPHAT, gydag amcanion



penodol i:

- gynnal **adolygiad gwerthuso cychwynnol** i sefydlu **data sylfaenol** sy'n dangos yr angen am y prosiect ac y gellir ei ddefnyddio i werthuso cynnydd tuag at amcanion y prosiect.
- cynnal **gwerthusiad diwedd prosiect** i asesu a deall **effaith** y prosiect.

Mae'r gwerthusiad diwedd prosiect hwn yn darparu asesiad crynodedol o lwyddiant CUPHAT o ran cyflawni blaenoriaethau allweddol Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon. Blaenoriaeth 3: Mae Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol yn ymwneud yn benodol â'r prosiect hwn gan fod ganddo'r amcan penodol o wireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol yn gynaliadwy wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol a'i nod yw cyflawni:

- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol y rhanbarth trawsffiniol drwy ddefnyddio eu hasedau naturiol a diwylliannol yn gynaliadwy.
- Cynnydd yng ngallu cymunedau arfordirol i ddefnyddio eu treftadaeth naturiol a diwylliannol fel sbardun i dwf economaidd.

Mae pedwar dangosydd allbwn penodol sy'n ymwneud â hyn fel y nodir yn Nhabl 1, sy'n hysbysu allbynnau allweddol prosiect CUPHAT yn uniongyrchol.

**Tabl 1: Dangosyddion Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Gydweithredu Iwerddon-Cymru**

Dangosydd	Uned fesur
Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir	Cyfwerth ag amser llawn
Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	Prosiectau peilot wedi'u cwblhau
Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol, naturiol neu asedau treftadaeth	Rhwydweithiau trawsffiniol
Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn cydweithrediad trawsffiniol ynghylch twristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth	Cymunedau

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn cynnwys adolygiad o'r newidiadau posibl sy'n deillio o brosiect CUPHAT ac mae'n cynnwys myfyrdodau darparwyr llety a busnesau twristiaeth ar y sefyllfa cyn ac ar ôl CUPHAT, yn ogystal ag ystyried yr effaith bosibl y gallai ei chael ar nifer y twristiaid tramor sy'n ymweld â'r ardaloedd. Ystyrir twristiaeth adfywiol hefyd drwy archwilio effaith y prosiect i werthuso hirhoedledd arfaethedig eu hetifeddiaeth, yn ogystal â'r effaith ar yr amgylchedd, y gymuned a'r economi leol.

### 1.3 STRWYTHUR YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n bedair adran, fel a ganlyn:

- Adran 1 sy'n ffurfio'r cyflwyniad.
- Adran 2 sy'n nodi gofynion Cynllun Monitro a Gwerthuso CUPHAT.
- Adran 3 sy'n amlinellu'r fethodoleg werthuso.
- Adran 4 sy'n cyflwyno'r canfyddiadau sy'n deillio o arolygon a chyfweliadau ac unrhyw ddata arall sydd ar gael drwy CUPHAT.
- Adran 5 sy'n cyflwyno'r gwerthusiad drwy ddadansoddiad o'r canfyddiadau i ystyried yr effaith y mae CUPHAT wedi'i chael ar dwristiaeth adfywiol.
- Adran 6 sy'n amlinellu'r gwaddol, y casgliadau a'r argymhellion.

## 2.0 CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO CUPHAT

### 2.1 CYFLWYNIAD

Mae'r adran hon yn amlinellu gofynion Cynllun Monitro a Gwerthuso CUPHAT ac yn cynnwys sut mae'r rhain wedi'u hymgorffori naill ai yn yr Adroddiad Gwerthuso Terfynol hwn neu mewn man arall gan dîm CUPHAT.

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso CUPHAT yn datgan bod y sefydliadau partner o fewn Partneriaeth CUPHAT wedi ymrwymo i fonitro a gwerthuso er mwyn dysgu gwersi ac elwa o'r gweithrediad. Mae hefyd yn datgan y gall monitro a gwerthuso hefyd ddarparu cyfleoedd i wella darpariaeth y gweithrediad ac y byddai partneriaid a rhanddeiliaid yn dymuno eu deall o werthusiad o'r gweithrediad:

- Beth sy'n gweithio ac i bwy?
- Sut mae ymyriadau'n gweithio a pham eu bod yn gweithio
- Tynnu sylw at arferion da
- Dangos gwerth am arian
- Bwydo canlyniadau i ddatblygiad polisi, prosiectau a gweithgareddau ymchwil yn y dyfodol
- Nodi canlyniadau anfwriadol

### 2.2 MODEL RHESYMEG CUPHAT

Dyluniodd CUPHAT fodel rhesymeg sy'n mapio'r berthynas rhwng yr her sylfaenol ar gyfer y prosiect, y gweithgareddau i fynd i'r afael â'r her, yr allbynnau, y canlyniadau/cyflawniadau a'r effeithiau. Mae'r model rhesymeg o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i nodi yn Atodiad 1 ac mae'r Adroddiad Gwerthuso hwn yn canolbwyntio ar yr 'Effaith' a ddymunir o'r model h.y.

*'Mae mwy o ymwelwyr a gwariant yn seiliedig ar y dreftadaeth hon, ac mae math gwahanol o ymwelydd yn cael ei ddenu i ucheldiroedd arfordirol. Mae'r cynnydd hwn yn digwydd yn ystod y tymhorau ysgwydd a thu allan i'r cyfnodau brig. Rhesymeg: Bydd manteision twristiaeth i gymunedau a busnesau yn cael eu gwreiddio yn yr ucheldiroedd arfordirol a byddant yn cael eu cefnogi gan y rhwydwaith twristiaeth.'*

### 2.3 GWERTHUSO FFURFIANNOL MEWNOL

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso CUPHAT yn nodi sut y byddai **gwerthusiadau ffurfiannol mewnol** yn cael eu defnyddio i asesu cynnydd tuag at amcanion, allbynnau a chanlyniadau allweddol, yn ogystal â monitro effeithiolrwydd ymgysylltiadau partneriaid â chymunedau sy'n cymryd rhan, cyfranogwyr rhwydweithiau twristiaeth, rhanddeiliaid allweddol, a mentrau a gefnogir. Byddai'r gwerthusiadau ffurfiannol mewnol hyn yn cael eu monitro'n agos gan Reolwr Prosiect Prifysgol Aberystwyth sy'n arwain Pecyn Gwaith 6, Bwrdd Prosiect Prifysgol Aberystwyth, a'r Bwrdd Rhaglen trosfwaol. Byddai'r wybodaeth hon wedyn yn helpu i nodi arferion da a bylchau posibl yn y dull gweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r effaith orau bosibl.

Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn rhestru'r gwaith casglu a monitro data canlynol ar gyfer y gwerthusiad ffurfiannol mewnol:

- Casglu data a gwerthuso nifer y grwpiau gwirfoddol a lleol y mae'r mudiad wedi gweithio gyda nhw, nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau allgymorth, a dadansoddiad ansoddol o effaith y digwyddiadau hyn ar ddealltwriaeth o dreftadaeth yn yr ucheldiroedd arfordirol (e.e. defnyddio holiaduron gydag arweinwyr grwpiau a chyfranogwyr).
- Casglu data a gwerthuso nifer ac amrywiaeth y rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan yn y rhwydwaith twristiaeth, maint a natur eu cyfraniad, dylanwad honedig y rhwydwaith ar eu gallu i hyrwyddo twristiaeth (yn enwedig twristiaeth sy'n gysylltiedig â threftadaeth)
- Casglu data am bob menter a gefnogir yn unol â chanllawiau adrodd ERDF, gan ddefnyddio templed safonol
- Unrhyw ddata ar nifer yr unigolion sy'n defnyddio neu'n ymgysylltu â'r gwahanol allbynnau a gynhyrchir fel rhan o'r gweithrediad (e.e. gwefan, apiau).

Mae gwybodaeth arall a gasglwyd fel rhan o'r broses werthuso fewnol hefyd wedi'i rhestru yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso fel a ganlyn:

- Cyflawni'r gwaith yn unol â'r gyllideb ac o fewn yr amserlen.
- Datblygu a dilyn protocolau Iechyd a Diogelwch.
- Nifer yr ymholiadau gan gymunedau, mudiadau a mentrau.
- Nifer yr ymholiadau sy'n symud ymlaen i'r cam gweithredu (e.e. Grŵp Rhanddeiliaid).
- Rhesymau dros beidio â chymryd rhan gan gymunedau, mudiadau a mentrau.
- Lefel yr ymgysylltu â'r gymuned cyn gweithredu.
- Nifer y mentrau a dderbyniodd gymorth i gynhyrchu technegau a dulliau marchnata newydd.
- Ffurflenni adborth – gan gymunedau, mudiadau a mentrau o bryd i'w gilydd i sefydlu a yw cymorth a lledaenu gwybodaeth yn effeithiol ac yn briodol.
- Data ar nodweddion cymunedol, sefydliadol a menter.
- Gwybodaeth am unrhyw gefnogaeth sy'n cael ei thynnu'n ôl gan gymunedau, sefydliadau neu fentrau.

Ar ddiwedd y prosiect CUPHAT, cwblhaodd bob pecyn gwaith ddogfennau canllaw sy'n edrych ar effaith pob elfen unigol o'r prosiect ac mae hyn yn cynnwys gwersi a ddysgwyd y gellir eu cymhwyso i brosiectau eraill neu gan sefydliadau eraill sy'n ystyried twristiaeth adfywiol mewn ardaloedd ucheldir arfordirol. Bydd y dogfennau canllaw hyn a gynhyrchwyd gan CUPHAT ar gael ar wefan y prosiect ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso hwn.

## 2.4 GOFYNION AR GYFER Y GWERTHUSIAD

Mae **adran 'Gwerthuso' y Cynllun Monitro a Gwerthuso** yn rhestru cwestiynau penodol i'w gofyn gan y gwerthusiad, gan gynnwys rhai meintiol ac ansoddol. Mae'r cwestiynau posibl a restrir wedi'u nodi yn Nhabl 2, sydd hefyd yn nodi a yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Gwerthuso terfynol ai peidio:

**Tabl 2 – Cynllun Monitro a Gwerthuso CUPHAT a'r Gwerthusiad Terfynol**

<b>Cynllun Monitro A Gwerthuso CUPHAT - Cwestiynau ar gyfer y gwerthusiad terfynol</b>	<b>Wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Gwerthuso terfynol hwn</b> Coch – heb eu cynnwys. Oren – wedi'u cynnwys yn rhannol. Gwyrdd – wedi'u cynnwys
A yw'r gweithrediad wedi cyflawni ei allbynnau a'i ganlyniadau	Wedi'i gynnwys yn adran 4.2
A yw wedi'i gyflawni yn unol â'r gyllideb?	Ni chafodd hyn ei gynnwys yn y gwerthusiad hwn ac nid oedd yn rhan o'r brîff.
Pa mor effeithiol fu'r gwaith o reoli'r prosiect?	Ni chafodd hyn ei gynnwys yn y gwerthusiad hwn ac nid oedd yn rhan o'r brîff.
Pa effaith mae'r prosiect wedi'i chael ar y sefydliadau partner?	Ni chafodd hyn ei gynnwys yn y gwerthusiad hwn ac nid oedd yn rhan o'r brîff.
Pa effaith mae'r prosiect wedi'i chael ar gymunedau a mentrau sy'n cymryd rhan?	Wedi'i gynnwys yn adrannau 5.2.6 a 5.2.7
Beth fydd gwaddol y gweithgaredd?	Wedi'i gynnwys yn adran 6
Pa mor llwyddiannus fu'r gwaith o gynnwys y cymunedau a'r mentrau targed? Beth weithiodd yn dda a beth na weithiodd yn dda?	Wedi'i gynnwys yn adran 5.2.7  Wedi'i gynnwys yn rhannol yn adrannau 5.2.7 a 5.4 a 5.5, ond nid oedd hyn yn nod penodol i'r gwerthusiad felly nid yw'n cael sylw llawn.
Sut mae'r gweithrediad wedi perfformio yn erbyn cyflawni nodau, amcanion a dangosyddion Themâu Trawsbynciol, yn ogystal â dangosyddion achos (prosiect) Themâu Trawsbynciol, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda/beth nad oedd yn gweithio, y problemau a nodwyd a sut aethpwyd i'r afael â'r rhain?	Wedi'i gynnwys yn adran 4.3.5
Sut mae'r gwaith wedi cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau cyfatebol yn Iwerddon?	Ni chafodd hyn ei gynnwys yn y gwerthusiad hwn ac nid oedd yn rhan o'r brîff.
Pa gyfraniad y mae'r gwaith wedi'i wneud at ddatblygu cynaliadwy a gwella'r amgylchedd?	Wedi'i gynnwys yn rhannol yn adran 5.2.4, ond nid oedd hwn yn un o nodau penodol y gwerthusiad, felly nid yw wedi'i gynnwys yn llawn.
Sut mae'r gweithrediad wedi nodi dewis iaith e.e. Cymraeg neu Saesneg ar gyfer ei randdeiliaid/mentrau ac wedi darparu cyfleoedd i ateb y galw?	Wedi'i gynnwys yn adran 4.3.5


Yn gryno, mae llawer o'r cwestiynau / materion a nodir yn Nhabl 2 wedi cael eu cynnwys yn y

gwerthusiad terfynol hwn. Nid oedd rhai wedi'u cynnwys yn y contract gwerthuso hwn, ond, lle bo hynny'n bosibl, maent wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Gwerthuso lle bo hynny'n berthnasol a lle'r oedd y wybodaeth yn bodoli. Ar gyfer nifer fach o feysydd, ni fu'n bosibl eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond efallai y byddant yn cael eu cynnwys mewn allbynnau eraill gan dîm CUPHAT e.e. dogfennau canllaw pecynnau gwaith unigol.

## 3.0 METHODOLEG

### 3.1 CYFLWYNIAD

Rhannwyd y fethodoleg yn dri cham penodol, a ddangosir yn Ffigur 1, a arweiniodd at bedair elfen i'w cyflawni. Amlinellir pob un o'r camau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.



**Ffigur 1: Camau'r fethodolegol**

### 3.2 CAM 1: CWMPASU, DYLUNIO A CHYNLLUNIO

Pwrpas y cam hwn oedd datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr a chytunedig o nodau, dull gweithredu a chynllunio'r prosiect. Elfen allweddol oedd cyfarfod cychwynnol rhwng tîm prosiect ERC ac aelodau allweddol CUPHAT, a gytunodd ar gynllun cyflawni methodoleg prosiect diwygiedig.

Roedd y fanyleb wreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i'r adolygiad gwerthuso cychwynnol gynnwys dadansoddiad o ddata a gasglwyd drwy gyfres o arolygon, cyfweiliadau a grwpiau ffocws newydd i sefydlu llinell sylfaen o'r gweithgarwch twristiaeth presennol yn y pedair ardal ucheldir arfordirol. Fodd bynnag, roedd trafodaethau gyda thîm prosiect CUPHAT fel rhan o gam cychwynnol y gwaith, wedi nodi nifer o gyfyngiadau i'r dull hwnnw. Yn hytrach, cytunwyd y byddai'r Adroddiad Adolygiad Interim (D2) yn llunio llinell sylfaen gan ddefnyddio data eilaidd a gwybodaeth bresennol (gan gynnwys data a gasglwyd fel rhan o weithgareddau CUPHAT) a fyddai'n cael ei ddefnyddio i helpu i asesu effaith CUPHAT ar gyfer y gwerthusiad terfynol hwn o'r prosiect.

Cytunwyd ar fethodoleg ddiwygiedig ac fe'i hamlinellwyd yn yr elfen gyntaf i'w chyflawni (D1), yr Adroddiad Cychwynnol a'r Cynllun Prosiect, ym mis Ionawr 2023.



### 3.3 CAM 2: ADOLYGIAD INTERIM

Roedd Cam 2 yn canolbwyntio ar sefydlu gwaelodlin o weithgarwch twristiaeth cyfredol yn y pedair ardal ucheldir arfordirol drwy ddadansoddi data a gasglwyd gan CUPHAT drwy eu gweithgareddau ymgysylltu cychwynnol gyda busnesau a chymunedau yn ogystal ag adolygu data eilaidd arall sydd ar gael.

Cynhaliwyd dadansoddiad data rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 ar sail y data a gasglwyd yn erbyn pob un o'r prif ofynion casglu data (h.y. A-H), fel y dangosir yn Nhabl 3.

**Tabl 3: Dulliau casglu data**

Gofynion casglu data sylfaenol	Adolygu data	Asesiad o'r data a gasglwyd drwy weithgareddau CUPHAT
A. Nifer yr ymwelwyr	*	*
B. Amser	*	*
C. Gwariant	*	*
D. Ymgysylltu â threftadaeth		*
E. Heriau		*
F. Budd i fusnesau.	*	*
G. Atyniad treftadaeth		*
H. Hyrwyddo treftadaeth		*

Arweiniodd hyn at gynhyrchu Adroddiad Adolygiad Interim (D2) a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn manylu ar ganlyniadau'r cam hwn ac yn amlinellu'r canfyddiadau cychwynnol a'r goblygiadau ar gyfer casglu data dilynol a'r gwerthusiad terfynol.

Ceir crynodeb o hyn yn adran 4.1.

### 3.4 CAM 3: GWERTHUSO'R PROSIECT

Roedd Cam 3 yn cynnwys casglu a dadansoddi data gan gynnwys arolygon a chyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol i ystyried effaith neu effaith bosibl gweithgarwch prosiect CUPHAT ar niferoedd ymwelwyr. Cafodd y fethodoleg ar gyfer cam 3 ei mireinio yn dilyn adroddiad yr Adolygiad Interim er mwyn ystyried canfyddiadau Cam 2.

Nid oedd y gwerthusiad yn ystyried effeithiolrwydd systemau a phrosesau rheoli'r prosiect, y dulliau cyflwyno, na phartneriaeth CUPHAT gan fod y rhain y tu allan i gwmpas y contract. Fodd bynnag, roedd y gwerthusiad wedi ystyried pa mor effeithiol oedd y prosiect o ran hyrwyddo cynaliadwyedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda'r agweddau hyn yn cael eu hadolygu yng nghyd-destun twristiaeth adfywiol, gan fod twristiaeth adfywiol yn golygu bod angen estyn allan at amrywiaeth eang o randdeiliaid a darparu cyfle cyfartal i'r rheini sy'n dymuno cymryd rhan.

Cafodd y data ei gasglu rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2023 ac roedd yn cynnwys y gweithgareddau a restrir yn Nhabl 4.

**Tabl 4: Amserlen waith y gwerthusiad terfynol**

Gweithgaredd	Maw 23				Ebrill 23				Mai 23				Meh 23				Gorff 23				Awst 23			
	20	27	3	10	17	24	1	8	15	22	29	5	12	19	26	3	10	17	24	31	7	14	21	28
Adolygu gweithgareddau'r prosiect																								
Arolwg ar-lein o ddarparwyr llety																								
Cyfweliadau â darparwyr llety a busnesau																								
Arolygon ymwelwyr tramor ar-lein																								
Arolygon ymwelwyr tramor wyneb yn wyneb																								
Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn digwyddiadau CUPHAT allweddol																								
Dadansoddi data																								
Adroddiad gwerthuso drafft (D3)																								
Adroddiad gwerthuso terfynol (D4)																								

Roedd pob un o'r dulliau hyn yn casglu data mewn perthynas â phob un o'r prif ofynion casglu data (h.y. A-H) fel y dangosir yn Nhabl 5.

**Tabl 5: Dull o gasglu data ar gyfer y prif ofynion casglu data**

Gofynion casglu data sylfaenol	Arolwg o ddarparwyr llety	Cyfweliadau	Arolygon ymwelwyr tramor	Ymgysylltu â rhanddeiliaid
A. Nifer yr ymwelwyr	*			
B. Amser	*		*	
C. Gwariant (GBP)	*		*	
D. Ymgysylltu â threftadaeth		*	*	*
E. Heriau		*		*
F. Budd i fusnesau.	*	*		*
G. Atyniad treftadaeth	*	*		*

H. Hyrwyddo treftadaeth		*		*
-------------------------	--	---	--	---

#### 3.4.1 Adolygu gweithgareddau, darpariaeth a chanlyniadau prosiect CUPHAT

Roedd yr adroddiad gwerthuso hwn yn asesu'r data monitro a gasglwyd gan CUPHAT er mwyn adolygu a oedd gweithgareddau CUPHAT wedi'u cwblhau. Cafodd prif weithgareddau'r prosiect a'r dangosyddion canlyniadau a'u targedau (lle bo rhai ar gael) eu tablu a'u gwerthuso gan ddefnyddio'r asesiad Coch Oren Gwyrdd (RAG) i amlygu cyflawni llwyddiannus.

Lle bo'n berthnasol, cynhaliwyd asesiad hefyd i bennu sut roeddent yn cyfrannu at effaith y prosiectau ac i ba raddau y byddai hyn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu twristiaeth adfywiol yn y pedair ardal ucheldir arfordirol.

### **3.4.2 Arolygon gydag ymwelwyr**

Er mwyn casglu barn twristiaid tramor yn y pedair ucheldir arfordirol, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gasglu data, targedwyd ymwelwyr tramor gan ddefnyddio arolwg wyneb yn wyneb ac ar-lein.

#### **3.4.2.1 Arolygon wyneb yn wyneb**

Cynhaliwyd arolygon wyneb yn wyneb gyda thwristiaid mewn lleoliadau poblogaidd y tu allan i ardaloedd craidd y prosiect i weld a fyddai'r ymwelwyr hyn yn debygol o ymweld ag ardaloedd y prosiect a oedd yn ffocws i brosiect CUPHAT. Roedd y lleoliadau a'r dyddiadau fel a ganlyn.

- Mynyddoedd Cambria: 20 Mehefin ar Bier Aberystwyth
- Mynydd Preseli: 21 Mehefin yng Nhrefdraeth a Thyddewi
- Mynyddoedd Blackstairs: 27 Mehefin yn Enniscorthy, Gorey a Wexford
- Mynyddoedd Wicklow: 28 Mehefin yn Glendalough

Roedd y cwestiynau'n seiliedig ar y rhai yn yr arolwg ar-lein er mwyn gallu cymharu wrth ddadansoddi'r canlyniadau. Fodd bynnag, cafodd rhai cwestiynau ychwanegol eu cynnwys i bennu'r effaith y gallai CUPHAT ei chael ar nifer yr ymwelwyr. Un o ganlyniadau terfynol y prosiect yw cael cynnydd o 5% mewn ymwelwyr tramor a gwariant yn yr ardaloedd ucheldirol hyn, felly nod y cwestiynau oedd ceisio penderfynu a fyddai hynny'n digwydd. Cyflawnwyd hyn yn ystod yr arolygon wyneb yn wyneb drwy ddangos lluniau ymwelwyr o'r ucheldir i weld pa mor debygol y byddent o ymweld â hwy.


Gan nad oedd bob amser yn bosibl gwahaniaethu rhwng ymwelwyr o'r DU/Iwerddon ac ymwelwyr tramor, roedd yr arolwg wedi'i anelu at unrhyw ymwelwyr a chafodd ymatebion penodol gan yr ymwelwyr tramor eu dadgyfuno yn ystod y cam dadansoddi yn seiliedig ar yr ateb i gwestiwn am ble maen nhw'n byw.

#### **3.4.2.2 Arolwg ar-lein**

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein gan ddefnyddio SmartSurvey a'i nod oedd casglu data ar faint o amser a dreuliwyd ac arian a wariwyd gan unigolion yn yr ucheldiroedd arfordirol (B ac C), yn ogystal â lefel yr ymgysylltu â threftadaeth naturiol a diwylliannol (D). Roedd cwestiynau ehangach hefyd yn gofyn beth oedd eu barn am ymweld â'r ucheldiroedd hyn, beth yw'r rhwystrau rhag ymweld ac unrhyw beth a allai eu hannog i ymweld yn y dyfodol. Fel cymhelliant, rhoddwyd cyfle i ymwelwyr oedd yn cwblhau'r arolwg gymryd rhan mewn raffl i ennill detholiad o nwyddau CUPHAT.

Gan nad oedd modd cysylltu'n uniongyrchol ag ymwelwyr tramor, rhannwyd y ddolen i'r arolwg yn y ffyrdd canlynol:

- Gofynnwyd i ddarparwyr llety anfon dolen yr arolwg ymwelwyr ymlaen at eu gwesteion tramor blaenorol a chyfredol. Gofynnwyd am hyn yn yr arolwg ar-lein a anfonwyd at dros 400 o ddarparwyr llety yn yr ardaloedd, ond nid yw'n hysbys a oedd unrhyw un o'r rhain wedi anfon y ddolen ymlaen.
- Roedd un darparwr llety a gafodd ei gyfweld wedi anfon gwybodaeth ymlaen at gynwesteion ac roedd un arall wedi arddangos poster am yr arolwg ymwelwyr yn eu llety.
- Cafodd 119 o sefydliadau twristiaeth, busnesau lleol, gweithredwyr teithiau a safleoedd treftadaeth yn yr ardaloedd eu canfod drwy'r rhynggrwyd a chysylltwyd â nhw i ofyn iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r ddolen i'r arolwg ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu yn eu hadeiladau. Digwyddodd hyn o Basg 2023 ymlaen, ond nid yw'n hysbys a oedd unrhyw un o'r rhain wedi hysbysebu'r arolwg.
- Cynlluniwyd dau boster (cynhyrchwyd poster Cymru yn Gymraeg hefyd) (gweler Ffigurau 2 a 3) i hysbysebu'r ddolen i'r arolwg ymwelwyr. Dosbarthwyd y rhain gan staff lleol CUPHAT i wahanol leoliadau, safleoedd neu atyniadau y gwyddys bod ymwelwyr yn eu mynychu yn y 4 ardal.



Ffigur 2 – Poster i ymwelwyr ag ardaloedd CUPHAT Cymru



**Ffigur 3 – Poster i ymwelwyr ag ardaloedd CUPHAT Iwerddon**

### **3.4.3 Darparwyr llety**

Cynhaliwyd arolwg ar-lein o ddarparwyr llety ym mhob ardal gan ddefnyddio SmartSurvey gyda'r nod o sefydlu llinell sylfaen cyn CUPHAT ar gyfer niferoedd twristiaeth (gofyniad data A) gan alluogi amcangyfrif o'r cynnydd posibl o ganlyniad i weithgareddau CUPHAT.

Gofynnodd yr arolwg hefyd am gost pob arhosiad, ystadegau cyflogaeth ac i ba raddau y mae darparwyr llety yn hyrwyddo'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol i'w gwsteion (gofynion data C, F a H). Roedd hefyd yn edrych ar yr effaith y mae gweithgareddau CUPHAT wedi'i chael ar eu busnesau llety ac a ydynt yn gweld eu hunain yn gallu hyrwyddo eu hardaloedd yn fwy effeithiol o ganlyniad. Ar ben hynny, roedd yn ystyried a fyddai ymwelwyr tramor posibl yn fwy tebygol o ymweld â'r ardaloedd oherwydd gwaith CUPHAT.


Roedd yr arolwg ar gael yn ddwyieithog i ddarparwyr Cymraeg, gyda'r Gymraeg yn ddewis cyntaf, er mwyn i berchnogion allu cymryd rhan yn eu dewis iaith.





Cynhyrchwyd cronfa ddata o ddarparwyr llety a'u manylion cyswllt yn MS Excel ar gyfer pob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol. Yn hytrach na chyfyngu'r maes i'r darparwyr hynny sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl o fewn y tair cymuned darged ym mhob un o'r 4 ucheldir arfordirol, cafwyd darparwyr llety o bob rhan o'r ardaloedd. Fodd bynnag, gofynnwyd i bob darparwr llety ddarparu ei god post, a oedd yn golygu bod modd dadansoddi data'n ofodol.

Y targed gwreiddiol oedd anfon yr arolwg at o leiaf 100 o ddarparwyr llety ym mhob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol h.y. cyfanswm o 400. Gan dybio cyfradd ymateb o 25%, byddai hyn yn golygu bod modd casglu data gan oddeutu 25 o ddarparwyr ym mhob ardal.

Cynhaliwyd ymchwil cynhwysfawr i ganfod y darparwyr llety yn y 4 ardal ucheldir arfordirol ac i ddod o hyd i gyfeiriadau e-bost y gellid anfon dolen yr arolwg ar-lein atynt. Daeth y sampl o fewn ffiniau'r prosiect, yn seiliedig ar y mapiau a ddarparwyd gan dîm CUPHAT (gweler Ffigur 4).



Ardal CUPHAT Mynyddoedd Cambria Ardal CUPHAT Mynydd Preseli



Ardal CUPHAT Mynyddoedd Wicklow Ardal CUPHAT Mynyddoedd Blackstairs

**Ffigur 4 – Ffin pob un o'r pedair ardal CUPHAT.**



Chwiliwyd y gwefannau ar-lein canlynol am ddarparwyr llety:

<b>Cymru</b>	<b>Iwerddon</b>	<b>Cyffredinol</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Croeso Sir Benfro</li> <li>• Pembrokeshire holiday company</li> <li>• PLANED</li> <li>• Prosiect Dyfodol Cambria</li> <li>• Menter Mynyddoedd Cambria</li> <li>• Pentir Pumlumon</li> <li>• West Wales Holiday Cottages</li> <li>• Wales cottages</li> <li>• Croeso Canolbarth Cymru</li> <li>• FBM Holidays</li> <li>• Y Gorau o Gymru</li> <li>• Powells Cottage Holidays</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wicklow County Tourism</li> <li>• Fáilte Ireland</li> <li>• Discover Ireland</li> <li>• B&amp;B Ireland</li> <li>• Visit Wicklow</li> <li>• Visit Wexford</li> <li>• Stay in Wicklow</li> <li>• Irelands blue book</li> <li>• Wicklow way</li> <li>• Tinahely.ie</li> <li>• Hogan Irish Cottage</li> <li>• Rural retreats</li> <li>• Shamrock cottages</li> <li>• Imagine Ireland</li> <li>• Ancient East</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• AirBnB</li> <li>• Booking.com</li> <li>• Sawdays</li> <li>• Google</li> <li>• Campsites.co.uk</li> <li>• Vrbo</li> <li>• Holiday lettings</li> <li>• Landmark Trust</li> <li>• National trust</li> <li>• English heritage</li> <li>• Cottages.com</li> <li>• Sykes cottages</li> <li>• Google</li> <li>• Simply owners</li> </ul>

Roedd chwiliad ar-lein yn nodi llety wedi'i wasanaethu (gwestai, tai llety, tafarndai a gwely a brecwast), llety hunan-arlwy (bythynnod gwyliau a llety math Airbnb), hostelau a thai bync, safleoedd gwersylla, carafannau a glampio (gan gynnwys cabannau, cytiau bugeiliaid ac ati). Yn ogystal, darparodd Croeso Ceredigion gysylltiadau ar gyfer nifer o ddarparwyr llety yn ardaloedd Cymru.

Mae Tabl 6 yn dangos bod 414 o ddarparwyr wedi'u nodi ar draws amrywiaeth o fathau o lety yn y 4 ardal.

Mae Ffigur 5 yn dangos bod y mwyafrif naill ai'n fythynnod gwyliau (111 eiddo) neu'n ddarparwyr sy'n hysbysebu drwy wefan trydydd parti fel Sykes Cottage, West Wales Holiday Cottages ac ati, (148 eiddo).


Lle'r oedd yn bosibl dod o hyd i gyfeiriad e-bost, cysylltwyd yn uniongyrchol â'r holl ddarparwyr llety hyn drwy e-bost. Fodd bynnag, fe wnaeth nifer fach fownsio'n ôl neu fethu ag anfon. Mewn rhai achosion, roedd y gwefannau trydydd parti yn caniatáu cyswllt uniongyrchol drwy'r wefan gyda'r darparwr, felly cysylltwyd â'r darparwyr llety hyn drwy ffurflen gyswllt ar y we.

Lle nad oedd gwefan trydydd parti yn caniatáu cyswllt uniongyrchol â'r darparwr, anfonwyd e-bost at y darparwr trydydd parti yn gofyn iddynt anfon yr arolwg at y darparwyr llety roeddent yn eu cynrychioli, a darparwyd rhestr o'r eiddo perthnasol. Atebodd rhai o'r trydydd partïon drwy ddweud eu bod wedi anfon yr arolwg ymlaen yn unol â'r cais, ond o ran y rhai nad oeddent wedi ateb, nid yw'n hysbys a oedd yr arolwg wedi cael ei anfon ymlaen ai peidio.

**Tabl 6 – Nifer y darparwyr llety a gafwyd**

Math o Lety	Nifer y darparwyr llety a gafwyd				
	Mynyddoedd Cambria	Mynydd Preseli	Mynyddoedd Blackstairs	Mynyddoedd Wicklow	Cyfanswm
Wedi'i wasanaethu	28	11	11	37	<b>87</b>
Bythynnod gwyliau	57	35	5	14	<b>111</b>
Gwersylla, carafannau a glampio	25	18	2	15	<b>71</b>
Hostel	7	0	0	1	<b>8</b>
Hunan-arlwyio drwy wefannau trydydd parti e.e., West Wales cottages *	99	37	3	9	<b>148</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>216</b>	<b>101</b>	<b>21</b>	<b>76</b>	<b>414</b>

•Nid yw'n hysbys bob amser a yw'r trydydd parti wedi anfon ymlaen i'w bythynnod gwyliau yn ôl y gofyn



**Ffigur 5 – Mathau o lety a gafwyd ar draws pedair ardal CUPHAT**

Cafwyd 98 o ddarparwyr ychwanegol drwy Airbnb. Ceisiwyd cysylltu â'r darparwyr hyn yn uniongyrchol drwy wefan Airbnb fel ymholiad i'r 'gwesteion'. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- 31 ym Mynyddoedd Cambria
- 19 ym Mynydd Preseli
- 20 ym Mynyddoedd Blackstairs
- 28 ym Mynyddoedd Wicklow

Fodd bynnag, er bod hyn yn bosibl gyda nifer fach o ddarparwyr Airbnb (tua 10 ym Mynyddoedd Cambria a 10 ym Mynyddoedd Blackstairs), nid oedd modd cysylltu â'r mwyafrif. Lle bo'n bosibl ac os rhoddwyd enw'r bwthyn gwyliau ar safle Airbnb, chwiliwyd am y bwthyn gwyliau drwy Google i weld a oedd modd cysylltu â nhw

drwy unrhyw ddull arall. Fodd bynnag, nid oedd gan lawer bresenoldeb ar-lein ac eithrio ar Airbnb a lle'r oeddent yn gwneud hynny, roedd yn aml yn arwain at wefan trydydd parti arall fel Cottage.com, Sykes, booking.com ac ati, nad oedd modd cysylltu â hi'n uniongyrchol neu nad oedd wedi ymateb. Yn ogystal, ceisiwyd ymuno a thudalennau Facebook gwesteion Airbnb lleol er mwyn postio neges yn hysbysebu'r arolwg. Roedd hyn yn cynnwys y grwpiau canlynol:

- Grŵp Facebook gwesteion Airbnb Iwerddon— cafodd neges ei phostio'n llwyddiannus.
- Grŵp Facebook gwesteion Airbnb Sir Benfro— does dim ymateb wedi dod i law i ymuno â'r grŵp.
- Grŵp Facebook gwesteion Airbnb Canolbarth Cymru— does dim ymateb wedi dod i law i ymuno â'r grŵp.

Fel y dangosir yn Nhabl 6 dim ond 21 o ddarparwyr a ganfuwyd yn ardal Mynyddoedd Blackstairs drwy chwilio ar y rhyngwrwyd, sy'n dangos y diffyg llety sydd ar gael yn yr ardal honno. Roedd hyn yn cynnwys nifer fach ar ochr Carlow o Fynyddoedd Blackstairs er mwyn cynnwys sampl digon mawr.

Anfonwyd y ddolen i'r arolwg at y darparwyr llety ar 22 Mawrth 2023 gyda negeseuon e-bost eglurhaol yn egluro pwrpas yr arolwg. Fel cymhelliant, cafodd darparwyr llety sy'n cwblhau'r arolwg gyfle hefyd i gymryd rhan mewn raffl i ennill detholiad o nwyddau CUPHAT. Cafodd hyn ei gynnwys mewn e-bost atgoffa a anfonwyd ar ôl gwyliau'r Pasg (19 Ebrill 2023) i'r busnesau hynny nad oeddent wedi ymateb i'r arolwg ac yr oedd gennym gyswllt e-bost uniongyrchol ar eu cyfer. Cysylltwyd â busnesau a oedd wedi dechrau'r arolwg ond heb ei gwblhau hefyd i'w hannog i'w gwblhau.

Mewn ymgais i gael mwy o ymatebion cysylltwyd â nifer o sefydliadau lleol i weld a allent helpu i hyrwyddo'r arolwg darparwyr llety. Cysylltwyd â'r canlynol a rhoddwyd testun iddynt y gellid ei ddefnyddio naill ai i e-bostio unrhyw gysylltiadau sydd ganddynt neu ei ddefnyddio mewn cylchlythyrau neu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Menter Mynyddoedd Cambria
- Pentir Pumlumon
- Croeso Ceredigion
- PLANED
- Cynghrair Twristiaeth Gogledd Sir Benfro
- Croeso Sir Benfro
- Visit Wexford
- Visit Wicklow
- Visit Carlow

Roedd rhai o'r rhain yn gallu ychwanegu erthygl yn eu cylchlythyrau neu eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal â'r e-bost gwreiddiol at y darparwyr llety, anfonwyd 2 nodyn atgoffa hefyd i annog pobl i gymryd rhan yn yr arolwg.

### **3.4.4 Cyfweliadau**

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda darparwyr llety a busnesau twristiaeth lleol eraill yn y pedair ardal ucheldir arfordirol i asesu sut y gallent elwa (gofyniad data F) o CUPHAT, h.y. a oeddent yn elwa mwy o dwristiaeth ers i CUPHAT ddechrau neu a ydynt

yn rhagweld manteision yn y dyfodol? Hefyd, a allent weld eu hunain yn gallu hyrwyddo eu hardaloedd yn fwy effeithiol o ganlyniad?

Ar ben hynny, roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar a oedd lefel yr ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol wedi cynyddu drwy gydol y prosiect, ac a yw'r heriau sy'n cyfyngu ar amser aros, gwariant ac ymgysylltiad â threftadaeth ym mhob ardal wedi newid a/neu wedi lleihau (gofynion data D, E a H). Roedd y cyfweliadau hefyd yn pennu nifer yr ymwelwyr presennol a gofnodwyd gan y busnesau unigol i weld a oedd y rhain wedi cynyddu, neu a oedd ganddynt y potensial i gynyddu, o ganlyniad i weithgareddau CUPHAT.

#### **3.4.4.1 Cyfweliadau â darparwyr llety**

Cynigiwyd cyfweliadau i'r darparwyr llety hynny a oedd wedi dangos parodrwydd i gymryd rhan drwy eu hymateb i'r arolwg darparwyr llety ar-lein. Y bwriad oedd y byddai'r sampl a ddewiswyd i'w gwahodd am gyfweliad yn ystyried nifer o feini prawf i sicrhau y cysylltwyd ag amrywiaeth (e.e. math o ddarparwr, maint, lleoliad ac ati), ond dim ond ychydig oedd yn fodlon cyfranogi mwy, felly gwahoddwyd pawb.

Cynhaliwyd cyfweliadau drwy MS Teams neu dros y ffôn a chysylltwyd â chyfranogwyr drwy e-bost a'u gwahodd i gymryd rhan yn y broses, gyda phôl doodle yn cael ei ddefnyddio i drefnu amseroedd y cyfweliad. Pan oedd y lleoliad yn un o'r ddwy ardal ucheldir arfordirol yng Nghymru, rhoddwyd yr opsiwn i'r rhai a gyfwelwyd ofyn am i'r cyfweliad gael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.

#### **3.4.4.2 Cyfweliadau â busnesau twristiaeth lleol**

Gwahoddwyd sampl o o leiaf 8 perchennog busnes lleol a gweithredwyr safleoedd treftadaeth ym mhob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol hefyd am gyfweliad, gyda'r disgwyliad y byddai 3 yn cael eu cyfweld (h.y. cyfanswm o 12 cyfweliad).

Daeth y sampl o fusnesau a oedd wedi ymuno â rhwydwaith CUPHAT ynghyd â busnesau lleol hysbys eraill. Roedd y sampl a ddewiswyd i'w gwahodd am gyfweliad yn ystyried y meini prawf canlynol i sicrhau y cysylltwyd ag amrywiaeth:

- Math o fusnes (caffi, tafarn, bwyty, gweithredwr treftadaeth, canolfan ymwelwyr, cwmni teithio).
- Maint y busnes.
- Lleoliad (gwledig neu mewn pentref / o fewn 3 chymuned darged CUPHAT ym mhob ardal ucheldir neu y tu allan).
- Lefel yr ymgysylltiad â phrosiect CUPHAT.

Yn yr un modd â'r darparwyr llety, cynhaliwyd cyfweliadau drwy MS Teams neu dros y ffôn gyda'r un trefniant yn ei le ar gyfer cynnal y cyfweliadau yn Gymraeg neu yn Saesneg yng Nghymru.

Yn ogystal â'r e-bost gwreiddiol i'r busnesau lleol, anfonwyd 2 nodyn atgoffa ychwanegol hefyd i annog cyfranogiad.

### 3.4.5 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Amcan yr ymgysylltu â rhanddeiliaid oedd bodloni gofynion data D-H yn benodol er mwyn:

- Ceisio barn ynghylch i ba raddau y mae lefelau ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol pob ardal ymysg grwpiau cymunedol a mentrau lleol wedi newid o ganlyniad i'r prosiect.
- Trafod y manteision y mae'r prosiect wedi'u cynnig o ran twristiaeth.
- Penderfynu a yw wedi mynd i'r afael ag unrhyw heriau sydd, yn hanesyddol, wedi cyfyngu ar ymgysylltu.

Cynhaliodd CUPHAT wyliau cymunedol ym mhob un o'r pedair ardal ucheldirol i ddathlu gwaith CUPHAT ac i ddiolch i'r gymuned am eu cyfraniad. Roedd y rhain yn y lleoliadau canlynol:

- Mynyddoedd Cambria: 20 Mehefin (hanner dydd tan 8pm) yn neuadd gymunedol Pontrhydfendigaid.
- Mynydd Preseli: 21 Mehefin (hanner dydd tan 8pm) yn neuadd Maenclochog.
- Mynyddoedd Blackstairs: 27 Mehefin (hanner dydd tan 8pm) yn neuadd gymunedol Killeale.
- Mynyddoedd Wicklow: 28 Mehefin (hanner dydd tan 8pm) yn neuadd gymunedol Avoca.

Roedd y gwyliau'n ddigwyddiadau galw heibio gyda rhaglen o weithgareddau yn cynnwys sgysiaau, ffilmiau, perfformiadau cerddoriaeth a gweithgareddau plant ochr yn ochr â nifer o stondinau a oedd yn dangos gwaith y 4 rhaglen waith. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal grwpiau ffocws ym mhob gŵyl, ond roedd natur galw heibio y digwyddiadau'n golygu nad oedd hyn yn debygol o weithio gan y gallai pobl fyddai'n dod i'r digwyddiadau fod eisiau bod yno ar wahanol adegau i weld gwahanol weithgareddau, felly byddai'n annhebygol y byddai digon o bobl ar unrhyw adeg i gynnal grŵp ffocws. Felly, addaswyd y cwestiynau allweddol ar gyfer y grwpiau ffocws fel y gallai pobl sy'n galw i mewn barhau i roi adborth ar gyfer y gwerthusiad.

Sefydlodd tîm ERC standin ym mhob gŵyl a chynhaliodd y gweithgareddau canlynol:

- Trafodaethau gyda busnesau a grwpiau cymunedol eraill oedd wedi ymweld â'r gwyliau. Pan oedd gan bobl amser, aeth aelod o dîm ERC drwy rai cwestiynau penodol a chymryd nodiadau ar eu hymatebion. Yna, cafodd y rhain eu hychwanegu'n ddiweddarach at ffurflen SmartSurvey i'w dadansoddi.
- Anogwyd ymwelwyr â'r gwyliau i ateb rhai cwestiynau allweddol ar siartiau troi gan ddefnyddio dotiau gludiog a post-its.

Dangosir y cwestiynau ar gyfer y ddau ddull hyn yn Nhabl 7 ac mae Ffigur 6 yn dangos y standin yn neuadd gymunedol Pontrhydfendigaid. Ar gyfer y gwyliau yng Nghymru roedd siaradwr Cymraeg yn bresennol er mwyn i ymwelwyr â'r ŵyl allu ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Tabl 7 – Cwestiynau a ofynnwyd i ymwelwyr â gwyliu CUPHAT**

<b>Cwestiynau arolwg wyneb yn wyneb</b>	<b>Cwestiynau siart troi</b>
Enw (dewisol)	Amh
Math o fusnes	Amh
Ydych chi wedi clywed am CUPHAT (Os nad ydynt, gofynnwch a fydden nhw'n gallu dychwelyd i ateb rhai cwestiynau ar ôl iddynt dreulio amser yn yr ŵyl yn darganfod mwy am CUPHAT).	Amh
A all amcanion CUPHAT helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal hon?	Amh
Enwch un peth cadarnhaol y mae CUPHAT wedi wneud?	Amh
Enwch un peth y gallai CUPHAT fod wedi'i wneud yn well?	Amh
Beth gawsoch chi o'ch cyfranogiad â CUPHAT?	Amh
Pa wahaniaeth y mae CUPHAT / a fydd CUPHAT yn ei wneud i dwristiaeth yn yr ardal?	Cwestiwn Siart Troi - Pa wahaniaeth mae CUPHAT wedi'i wneud i dwristiaeth yn yr ardal?  (Cwestiwn wedi'i ysgrifennu ar siart troi a phobl wedi'u gwahodd i ychwanegu eu meddyliau ar nodiadau post-it)
A yw CUPHAT wedi cefnogi eich dealltwriaeth a'ch ymgysylltiad â threftadaeth leol?	Cwestiwn Siart Troi - A yw CUPHAT wedi cefnogi eich dealltwriaeth a'ch ymgysylltiad â threftadaeth leol?  (Llinell ar siart troi gydag ystod 'Gwell lefelau' i 'Lefelau Tebyg', ychwanegodd pobl ddot.)
A yw / fydd CUPHAT yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal?	Cwestiwn Siart Troi – A fydd gwaith CUPHAT yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu'n well â threftadaeth leol yr ardal?  (Llinell ar siart troi gydag ystod o uchel i isel, ac ychwanegodd pobl ddot.)
Beth arall sydd angen ei wneud i gefnogi twristiaeth gynaliadwy / adfywiol yn yr ardal?	



**Ffigur 6 – Y stodin werthuso yn neuadd gymunedol Pontrhydfendigaid ym Mynyddoedd Cambria**

### 3.4.6 Themâu Trawsbynciol

Mae Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon 2014-2020 yn cyfrannu at strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer twf clyfar, cynaliadwy a chynhwysol ac at gyflawni cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol. Nod y rhaglen yw darparu fframwaith i sefydliadau yn yr ardal drawsffiniol i gydweithredu'n weithredol i fynd i'r afael â heriau a rhannu blaenoriaethau o ddiddordeb cyffredin ar ddwy ochr Môr Iwerddon, gan gyfrannu ac ychwanegu gwerth at flaenoriaethau datblygu economaidd a chynaliadwy Iwerddon a Chymru.

Felly, rhan o Egwyddorion Arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau o dan raglen Gydweithredu Cymru Iwerddon yw y dylai'r ymyriadau geisio integreiddio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn unol ag egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a chyfrannu at ganlyniadau'r themâu trawsbynciol (CCTs).

Nod y Themâu Trawsbynciol yw gwella ansawdd a gwaddol pob gweithrediad a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol ac ychwanegu gwerth at y rhaglenni yn eu cyfanrwydd, a'u gwreiddio yn y gwaith o ddylunio a chyflawni holl weithrediadau CUPHAT.

Amlinellir tair Thema Drawsbynciol isod ac mae CUPHAT yn monitro ei weithgareddau'n barhaus i sicrhau bod y meini prawf monitro a gwerthuso yn cydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol.

Ystyriodd y gwerthusiad terfynol sut mae gweithrediad CUPHAT wedi bodloni'r Themâu Trawsbynciol yn seiliedig ar asesiad o wybodaeth a ddarparwyd gan dîm CUPHAT.



### 3.4.6.1 Themâu Trawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd

Nod hyn yw hyrwyddo mynediad cyfartal i bawb at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac atal unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, anabledd, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gred, oedran, tueddfryd rhywiol ac rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog llawer o gymunedau Cymru. Mae'n ofynnol ystyried anghenion gwahanol grwpiau targed sydd mewn perygl o gael eu gwahaniaethu, yn enwedig pobl anabl a'r rhai sy'n dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Buddiolwyr Cymru), Deddf Cydraddoldeb Cyflogaeth 2004 a Deddfau Statws Cyfartal 2000 i 2004 (Buddiolwyr Iwerddon) fel rhai sydd â 'nodweddion gwarchodedig', ac yng Nghymru hybu'r Gymraeg a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg. Mae hyn nid yn unig am resymau cyfreithiol, ond hefyd oherwydd bod goresgyn anghydraddoldebau rhwng gwahanol rannau cymdeithasol a demograffig o gymdeithas yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y gweithgarwch a gyflawnir gan y rhaglenni. Amcanion allweddol rhaglen ERDF ar gyfer cyflawni Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd yw:

- Cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd sy'n cefnogi gweithleoedd cynhwysol ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff, gan gynnwys cysoni gwaith a bywyd preifat
- Sicrhau bod mynediad at dechnoleg ar gael ac yn hygyrch i bawb, yn enwedig i bobl mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn, pobl anabl ac eraill y mae'r 'rhaniad digidol' yn effeithio arnynt
- Cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau cymdeithasol, fel cefnogi heneiddio'n egnïol, creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i unigolion a chefnogi byw'n annibynnol
- Annog mentrau entrepreneuriaeth a dechrau busnes i annog mwy o bobl ifanc, menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl LGBT i fanteisio arnynt
- Cefnogi mynediad i bobl anabl a'r rheini o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth, gan gynnwys drwy atebion trafndiaeth gynaliadwy
- Canfod a chefnogi cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, defnyddi dwyieithrwydd, annog y defnydd o'r ddwy iaith, cyfleoedd ar gyfer gwersi.

Y dangosyddion penodol ar lefel achosion dan Gyfle Cyfartal, Prif-ffrydio Rhywedd ar gyfer prosiect CUPHAT, fel y nodir yn Atodiad 9 y cais yw:

- Mesurau gweithredu cadarnhaol – menywod
- Gweithgaredd yn cefnogi cyfranogiad menywod mewn STEM
- Gweithgaredd yn cefnogi siaradwyr Cymraeg/Gwyddeleg

Yn ogystal, Themâu trawsbynciol cyffredinol eraill ar gyfer CUPHAT oedd datblygu ac ymgysylltu â hyrwyddwyr CTT.

### 3.4.6.2 Thema Drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy

Y nod yw sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddatblygu'n gynaliadwy, drwy hyrwyddo arferion diogelu a gwella'r amgylchedd, effeithlonrwydd adnoddau, lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, gwrthsefyll trychinebau ac atal a rheoli risg. Datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol. Mae cynnwys datblygu cynaliadwy fel thema drawsbynciol yn elfen hanfodol i sicrhau bod rhaglenni a gweithrediadau'n cwrdd ag amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar yr un pryd.

Amcanion allweddol rhaglen ERDF ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yw:

- Hyrwyddo ymchwil ac arloesedd ym maes Her Fawr carbon isel, ynni a'r amgylchedd, gan adeiladu ar y buddsoddiadau sylweddol a wnaed yn y maes hwn o dan raglenni 2007- 2013;
- Datblygu'r sector carbon isel, ynni a'r amgylchedd drwy gyngor a chymorth busnes a chyllid busnes o dan Gystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig
- Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, drwy ymyriadau o dan Gystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig
- Cynyddu'r potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy gefnogi ymchwil a datblygu, a galluogi buddsoddiadau mewn seilwaith yn y diwydiant ynni morol yng Nghymru;
- Cynyddu nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ac ar raddfa fach;
- Gwella effeithlonrwydd ynni Cartrefi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi ac amddifadedd tanwydd (fel y'i mesurir gan MALIC);
- Hyrwyddo cynlluniau ynni carbon isel ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig a;
- Chefnogi atebion trafndiaeth carbon isel a chynaliadwy, gan gynnwys drwy gysylltu unigolion di-waith ac economaidd anweithgar â gwaith a hyfforddiant.

Y dangosyddion penodol ar lefel achosion dan ddatblygu cynaliadwy ar gyfer prosiect CUPHAT, fel y nodir yn Atodiad 9 y cais yw:

- Datblygu Cynllun Teithio sefydliadol, Eco-gynllun a chynlluniau trafndiaeth cynaliadwy.
- Mesurau effeithlonrwydd adnoddau.

### **3.4.6.3 Thema Drawsbynciol Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

Y ffocws yw ysgogi twf economaidd a chreu swyddi cynaliadwy ar draws y rhaglenni, gan wella'r cysylltedd rhwng meysydd twf economaidd ac anghenion unigolion difreintiedig. Mae rhaglen ERDF yn ceisio cysylltu pobl, sgiliau a swyddi, cynyddu eu symudedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth gynaliadwy a fyddai'n cefnogi taith unigolyn tuag at fywyd heb dlodi. Mae rhaglenni ERDF hefyd yn ceisio cynyddu cystadleurwydd busnesau bach a chanolig eu maint ac, o ganlyniad, cynyddu eu gallu i greu a thyfu swyddi.

Y thema drawsbynciol "Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol" yw ymrwymiad gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu i greu cyfleoedd cyflogaeth a dilyniant ac i helpu pobl i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

Mae prif amcanion rhaglen ERDF ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol yn cynnwys:

- Ffocws ar greu swyddi a thwf gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sy'n ddi-waith. Er enghraifft, drwy gynyddu cystadleurwydd busnesau bach a chanolig;
- Mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth. Er enghraifft, mynd i'r afael â sgiliau gwael a diffyg gofal plant drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ynghyd â mynd i'r afael â rhwystrau trafndiaeth i gael gwaith drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a;
- Chanolbwyntio ar dwf. Er enghraifft, drwy gefnogi sectorau allweddol sy'n seiliedig ar wybodaeth drwy'r ERDF, sy'n cyd-fynd ag ymyriadau datblygu sgiliau sy'n galluogi'r rheini

sy'n profi tlodi mewn gwaith i gael mynediad at swyddi mwy sgiliedig sy'n talu'n well drwy'r ESF.

Nid oes dangosyddion penodol ar lefel achosion o dan y thema hon ar gyfer prosiect CUPHAT, fel y nodir yn Atodiad 9 y cais.

### 3.4.7 Dadansoddi data

Roedd yr arolygon darparwyr llety, cyfweliadau, arolygon ymwelwyr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffynhonnell ddata gyfoethog sydd wedi cael ei dadansoddi er mwyn ystyried y cwestiynau allweddol/gofynion data (A-H) ac i werthuso effaith y prosiect ar dwristiaeth ac ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn y pedair ardal ucheldir arfordirol. Amlinellir y dull o ddadansoddi data yn Nhabl 8.

**Tabl 8 - Gwerthusiad terfynol - dulliau dadansoddi data**

Dull	Dulliau dadansoddi data
Adolygu gweithgareddau'r prosiect	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dogfennau'r prosiect wedi'u coladu a'u tablu yn MS Excel</li> <li>Dadansoddiad testunol o ddogfennau'r prosiect</li> </ul>
Arolygon darparwyr llety	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd data rhifiadol yn cael ei goladu a'i gyflwyno ar ffurf tabl er mwyn galluogi dadansoddi meintiol ar draws tablau yn unol â newidynnau gwahanol.</li> <li>Dadansoddi cynnwys data ansoddol.</li> </ul>
Cyfweliadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trawsgrifio gan ddefnyddio Otter a dadansoddi cynnwys y trawsgrifiadau. Defnyddio dyfyniadau fel tystiolaeth i gefnogi canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.</li> </ul>
Arolygon ymwelwyr tramor	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd data rhifiadol yn cael ei goladu a'i gyflwyno ar ffurf tabl er mwyn galluogi dadansoddi meintiol ar draws tablau yn unol â newidynnau gwahanol.</li> <li>Dadansoddiad ansoddol: crynhoi; adroddiadau naratif pob un ymweliad; dadansoddiad thematig; codio a chategoreiddio.</li> </ul>
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd data rhifiadol yn cael ei goladu a'i gyflwyno ar ffurf tabl er mwyn galluogi dadansoddi meintiol ar draws tablau yn unol â newidynnau gwahanol.</li> <li>Dadansoddiad ansoddol: crynhoi; adroddiadau naratif pob un ymweliad; dadansoddiad thematig; codio a chategoreiddio.</li> </ul>

### 3.4.8 Adrodd

Mae'r adroddiad gwerthuso drafft hwn ar ddiwedd y prosiect (D3) yn rhoi manylion canlyniadau'r gwaith, yn ogystal â chynnwys adborth manwl gan rhanddeiliaid/cyfranogwyr ac argymhellion ar y ffordd orau o sicrhau effaith hirdymor y prosiect.

## 4.0 CANFYDDIADAU

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r gwahanol dechnegau arolygu.

### 4.1 ADOLYGIAD INTERIM

Roedd yr adolygiad o ddata eilaidd a gwybodaeth a gasglwyd drwy CUPHAT yn dangos bod gwahaniaethau yn y setiau data sydd ar gael yng Nghymru ac Iwerddon, gyda'r arolygon yn aml yn seiliedig ar fetrigau gwahanol. Roedd hyn yn golygu nad oedd bob amser yn bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol o un flwyddyn i'r llall. Roedd y setiau data hefyd yn destun amrywiol o ganlyniad i bandemig Covid-19, gyda gwahaniaethau'n digwydd cyn, yn ystod ac ers y pandemig. Roedd hyn yn effeithio ar ba flwyddyn y gellid ei hystyried yn waelodlin wrth ddadansoddi unrhyw newidiadau yn sgil gweithgarwch CUPHAT.

Cafodd pandemig Covid-19 effaith ddinistriol ar y sector twristiaeth ledled Cymru ac Iwerddon. Roedd mesurau cyfyngiadau symud a chyfyngiadau teithio, y bu'n rhaid i Lywodraethau eu gorfodi i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd, yn golygu bod yn rhaid i'r mwyafrif helaeth o fusnesau lleu aros ar gau am gyfnodau hir yn 2020 a dechrau 2021.

Fodd bynnag, roedd yr ansicrwydd a'r cymhlethdodau ynghylch teithio dramor yn annog mwy o bobl i fynd ar wyliau yn eu gwlad eu hunain yn ystod haf 2021 ac felly rhoddodd hwb i'r sector twristiaeth o ran ymwelwyr domestig yn ystod hanner olaf 2021. Mae hyn wedi golygu bod yna rai cyfyngiadau o ran edrych ar fetrigau WEFO, fel ymwelwyr tramor, sydd wedi cael eu hystumio oherwydd effaith cyfyngiadau COVID-19 yn ystod y pandemig ac ar ôl hynny.

Mae'r data wedi dangos bod effaith sylweddol wedi parhau ar dwristiaeth ddomestig a rhyngwladol yn y pedair ardal CUPHAT. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod y niferoedd yn dechrau dychwelyd i lefelau cyn Covid ac mewn rhai achosion yn uwch na'r lefelau cyn Covid.

Mae'n bosibl y bydd mwy o bobl yn symud yn ôl i wyliau dramor yn 2023. Gall hyn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr o dramor i ardaloedd CUPHAT. Fodd bynnag, gallai hefyd arwain at niferoedd is o ymwelwyr domestig i ardaloedd CUPHAT, a oedd naill ai wedi'u cyfyngu neu'n amharod i deithio ymhellach i ffwrdd, ac sydd bellach yn dewis teithio dramor. Felly, ystyrir hyn wrth werthuso nifer yr ymweliadau ar ddiwedd y prosiect a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau a welwyd. Bydd angen arsylwi ar y newidiadau hyn dros gyfnod hwy pan fydd patrymau teithio 'normal' newydd yn dod i'r amlwg.

Lle roedd y metrigau'n cyd-fynd, cafodd y data ei gymharu a'i ddadansoddi mewn perthynas â'r wyth gofyniad data allweddol. Cyflwynir yr holl ganfyddiadau a'r dadansoddiad yn yr adroddiad llawn sydd ar gael ar wahân gan dîm CUPHAT, a thynnir sylw at y penawdau dadansoddol o ran y dangosyddion allweddol yn yr adrannau canlynol ynghyd â chanlyniadau'r dadansoddiad o'r bylchau a'r gwaelodlinau terfynol.

#### **4.1.1 Gofyniad Dadansoddi Data A – Nifer yr ymwelwyr**

Mae'r data sydd ar gael ar gyfer ymwelwyr yn rhoi rhywfaint o arwydd o niferoedd ymwelwyr ledled Cymru ac Iwerddon ac, yn Iwerddon, mae data ar gael hefyd ar gyfer Wicklow a Wexford ond nid oes data sy'n benodol i ardaloedd prosiect CUPHAT. Roedd rhywfaint o ddata ar gael hefyd ar ymwelwyr tramor ar gyfer y ddwy wlad (data o 2019 ar gyfer Cymru yn unig).

Mae'r data'n dangos sut roedd Covid-19 wedi achosi anawsterau ar draws pob sector yn y diwydiant twristiaeth yn y ddwy wlad; yn enwedig ar gyfer hosteli a thai llety, sydd wedi cael mwy o drafferth bownsio'n ôl. Mae hefyd yn dangos bod yr effaith yn dal yn amlwg, yn enwedig yn Wicklow, Iwerddon. Ar gyfer mathau eraill o lety, ac yn y tair ardal CUPHAT arall, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos arwyddion cadarnhaol o adferiad mewn niferoedd ymwelwyr.

I grynhoi, nid yw dadansoddiad o'r data eilaidd wedi darparu llinell sylfaen gywir o nifer yr ymwelwyr â phob ardal ucheldir arfordirol yn ystod cyfnod penodol yn 2021-22 na'r gyfran sy'n dod o dramor. Fodd bynnag, mae'n dangos bod nifer sylweddol o ymwelwyr (gan gynnwys ymwelwyr tramor) i'r ddwy wlad.

Mae'r data hefyd yn dangos y potensial ar gyfer twristiaeth fwy adfywiol, er enghraifft roedd gan Arolwg Ymwelwyr Tramor Cymru ganran uchel o ymwelwyr a oedd yn cael eu hystyried yn 'anturwyr' ac yn 'archwilwyr' ac a oedd hefyd eisiau ymweliad a oedd yn arbennig o Gymreig. Gallai marchnata yn y dyfodol drwy CUPHAT fanteisio ymhellach ar y farchnad hon yn y dyfodol.

#### **4.1.2 Gofyniad Dadansoddi Data B – Amser a Dreuliwyd**

Mae dadansoddiad o'r data eilaidd yn dangos ystod o gyfnodau aros yn y ddwy wlad. Mae ffigurau o wahanol arolygon yng Nghymru yn amrywio o 3.7 i 4.11 noson ac mae'r ffigurau yn Iwerddon yn amrywio o 2.3 i 5.6 noson. Er nad yw hyn yn darparu llinell sylfaen gywir o'r amser a dreulir gan ymwelwyr ym mhob un o'r pedair ardal, mae'r ffigurau o 3.8 noson i Gymru a 3.2 noson i Iwerddon yn cael eu cynnig fel man cychwyn.

#### **4.1.3 Gofyniad Dadansoddi Data C – Gwariant**

Ni ellir cymharu'r setiau data gwariant sydd ar gael ar gyfer Cymru ac Iwerddon yn uniongyrchol gan eu bod yn defnyddio metrigau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r ddau yn dangos bod Covid-19 wedi cael effaith ar wariant.

Mae'r gwariant o arolygon yng Nghymru yn dangos gwariant o £27 am daith hamdden 3+ awr a £36 am daith undydd yn 2021 gyda'r gwariant cyfartalog dros nos yn amrywio o £159 yn 2020 i £198 yn 2021.

Mae'r gwariant o arolygon yn Iwerddon yn dangos cyfartaledd y gwariant ar wyliau o tua €365 y pen yn 2019. Mae data hefyd yn dangos cynnydd diweddar yn y gwariant yn siroedd Wexford a Wicklow gan yr holl ymwelwyr o'i gymharu â'r lefelau cyn Covid.

I grynhoi, er nad yw'r data sydd ar gael yn darparu llinell sylfaen gywir o'r gwariant ym mhob un o'r pedair ardal, mae'r ffigurau o £178 ar gyfer ymweliad dros nos a £36 ar gyfer ymweliadau undydd yng Nghymru a €365 y pen ar gyfer Iwerddon yn cael eu cynnig fel llinell sylfaen

gychwynnol.

#### **4.1.4 Gofyniad Dadansoddi Data D – Ymgysylltu â Threftadaeth**

Mae'r data'n dangos bod ymwelwyr â Chymru ac Iwerddon, gan gynnwys y pedair ardal ucheldir arfordirol, yn ymgysylltu â'r dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol. Mae'r mathau o ymgysylltu â threftadaeth yn cynnwys ymweld ag atyniadau a safleoedd hanesyddol, gwyllo bywyd gwyllt, cerdded ac ymweld â pharc gwledig / coedwig ac ymweld â safleoedd crefyddol. Gwelir y rhain yn gryfderau penodol yn yr ardaloedd ac yn rhywbeth sy'n eu gosod ar wahân fel cyrchfan gwyliau. Yn benodol, mae elfennau pwysig o'r dreftadaeth leol yng Nghymru yn cynnwys achau Cymreig a Chymreictod, a cherddoriaeth ac achyddiaeth Gwyddelig yn Iwerddon.

Mae nifer o sefydliadau lleol penodol yn yr ardaloedd sy'n ceisio ymgysylltu ymwelwyr â threftadaeth leol yr ardal drwy wahanol fathau o brofiadau. Mae rhywfaint o ddata ar gael ar niferoedd; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn gynhwysfawr.

Mae'r data'n dangos bod treftadaeth y pedair ardal yn gryfder allweddol ac y gellid ei defnyddio i ddenu a darparu rhagor o gyfleoedd i ymwelwyr yn holl ardaloedd y prosiect lle gwyddys bod awydd am brofiadau diwylliannol neu dreftadaeth. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu mathau mwy adfywiol o dwristiaeth, gan arwain at fwy o werthfawrogiad o'r ardaloedd a mwy o barch at yr amgylchedd lleol.

#### **4.1.5 Gofyniad Dadansoddi Data E - Heriau**

Mae holl ardaloedd CUPHAT wedi wynebu heriau oherwydd effaith pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud oedd yn cyfyngu ar deithio. Gan fod cyfyngiadau wedi cael eu codi a bod mwy o gyfleoedd i deithio, mae heriau a rhwystrau eraill wedi cael effaith ar yr holl ardaloedd. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chostau byw a phrisiau ynni, anawsterau recriwtio, natur anghysbell yr ardaloedd a materion trafnidiaeth cysylltiedig a diffyg hyrwyddo a diffyg cyfleusterau. Gall yr heriau hyn olygu nad yw twristiaid yn treulio digon o amser neu'n gwario digon o arian yn yr ardaloedd felly maent yn allweddol i ddatgloi potensial twristiaeth.

Er bod rhai o'r materion hyn, fel costau byw cynyddol, y tu hwnt i allu CUPHAT i'w datrys, bydd llawer o weithgareddau CUPHAT yn helpu i oresgyn yr heriau hyn, er enghraifft drwy hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol, naturiol a threftadaeth yn well, datblygu strategaeth farchnata thematig, gwella profiad twristiaid mewn safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol presennol, nodi a chreu safleoedd, profiadau neu fusnesau newydd. Felly, gellir mesur llwyddiant CUPHAT drwy benderfynu a yw wedi goresgyn rhai o'r heriau allweddol hyn.

#### **4.1.6 Gofyniad Dadansoddi Data F - Budd i fusnesau**

Mae'r data sydd ar gael yn rhoi rhyw syniad o'r bobl sy'n cael eu cyflogi yn ardaloedd CUPHAT, ond nid yw'n gynhwysfawr. I grynhoi, nid yw dadansoddiad o'r data eilaidd wedi darparu llinell sylfaen gywir o'r manteision i fusnesau, ond mae'n dangos bod niferoedd sylweddol o swyddi sy'n dibynnu ar sector y diwydiant twristiaeth ym mhob un o'r pedair ardal. Mae hyn yn cynnwys darparwyr llety, tafarndai a bwytai, gweithredwyr safleoedd treftadaeth, atyniadau i ymwelwyr, gweithredwyr teithiau, cynhyrchwyr lleol a sefydliadau cymorth amrywiol.

#### **4.1.7 Gofyniad Dadansoddi Data G - Atyniad treftadaeth**

Mae'r data'n dangos bod treftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol yn ysgogwyr allweddol i bobl sy'n ymweld â phedwar maes prosiect CUPHAT. Mae'r data sydd ar gael yn rhoi syniad o'r hyn sydd gan yr ardaloedd i'w gynnig, gan gynnwys tirwedd naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig, achau a hynodrwydd lleol.

Mae CUPHAT wedi gweithio gyda chymunedau lleol i ystyried y cyfleoedd ar gyfer twristiaeth yn y pedair ardal ucheldir arfordirol. Drwy'r gwaith hwn, mae gwell dealltwriaeth o'r hyn yr hoffai aelodau'r gymuned ddysgu mwy amdano a pha gymorth y gallai fod ei angen arnynt i'w helpu i wella neu sefydlu eu busnesau twristiaeth gan ddefnyddio treftadaeth fel y prif atyniad. Mae'r cyfleoedd allweddol yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar y dreftadaeth sydd gan yr ardaloedd i'w chynnig drwy hyrwyddo a marchnata'n well, canolbwyntio mwy ar ymwelwyr treftadaeth, manteisio ymhellach ar gyfleoedd i greu twristiaeth effaith isel / twristiaeth araf ac integreiddio twristiaeth i'r cymunedau lleol.

Mae hyn yn rhoi arwydd y gellid gwneud mwy o'r agweddau hyn i annog mwy o bobl i ymweld a threulio amser yn yr ardaloedd, gan fanteisio i'r eithaf ar y potensial y mae'r ardaloedd yn ei gynnig ar gyfer mathau adfywiol o dwristiaeth a fyddai'n cael llai o effaith ar y dreftadaeth naturiol a diwylliannol. Mae angen taro cydbwysedd rhwng annog mwy o bobl i ymweld ar yr un pryd â gwarchod rhinweddau arbennig yr ardaloedd, fel llonyddwch a natur anghysbell, sy'n creu profiad cadarnhaol i ymwelwyr.

#### **4.1.8 Gofyniad Dadansoddi Data H - Hyrwyddo treftadaeth**

Mae'r data'n dangos bod ffrindiau a theulu a'r rhynggrwyd yn ffynonellau gwybodaeth allweddol i bobl sy'n dewis ac yn cynllunio eu hymweliadau. Mae'r data a gasglwyd gan CUPHAT hefyd yn rhoi rhai arwyddion da o sut mae grwpiau cymunedol a mentrau lleol yn ymgysylltu ar hyn o bryd â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardaloedd a sut maent yn hyrwyddo'r agweddau hyn i ymwelwyr drwy amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau.

Mae llawer o grwpiau lleol mewn sefyllfa dda i allu defnyddio eu gwybodaeth a'u rhwydweithiau lleol i gefnogi a hyrwyddo'r dreftadaeth ymhellach yn y dyfodol. Bydd gweithgareddau CUPHAT yn gallu adeiladu ar hyn drwy ddatblygu rhwydwaith twristiaeth a mwy o farchnata yn yr ardal, sydd â'r dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol wrth ei chalon.

Mae ymdeimlad hefyd bod angen cydbwysedd rhwng annog ymwelwyr a gor-hyrwyddo a allai ynddo'i hun arwain at broblemau. Unwaith eto, mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd annog mathau mwy adfywiol o dwristiaeth.

#### **4.1.9 Dangosyddion llinell sylfaen**

Mae Tabl 9 yn nodi'r llinellau sylfaen posibl a all ddarparu man cychwyn ar gyfer asesu effaith CUPHAT ar dwristiaeth a threftadaeth yn y pedair ardal ucheldir arfordirol. Nodwyd y prif fylchau yn y gofynion casglu data A-H ar gyfer CUPHAT hefyd, gyda'r nod y byddai arolygon gwerthuso CUPHAT fel rhan o'r gwerthusiad ar ddiwedd y prosiect yn casglu data sylfaenol ychwanegol i lenwi'r bylchau hynny er mwyn creu llinell sylfaen gryfach neu lle bo angen



mwyr o wybodaeth neu p'un a yw y tu allan i gwmpas yr astudiaeth gyfredol a'r amserlen.  
Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn adran 4.

**Tabl 9 – Dangosyddion gwaelodlin posibl ar gyfer y gofynion data allweddol**

Gofynion Data Allweddol	Gwaelodlinau	
	Ardaloedd CUPHAT Cymru	Ardaloedd CUPHAT Iwerddon
<b>A. Nifer yr ymwelwyr</b>	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>B. Amser a dreuliwyd</b>	3.8 noson	3.2 noson
<b>C. Gwariant</b>	Ymweliad dros nos £178 Ymweliad Dydd £36	€365 y pen
<b>D. Ymgysylltu â threftadaeth</b>	Mae'r dreftadaeth naturiol a hanesyddol yn ysgogwyr allweddol i ymwelwyr, gan gynnwys achau Cymreig, atyniad i fywyd gwyllt, gwyllo bywyd gwyllt, cerdded, ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol arall, ymweld â thraeth, ymweld â pharc gwledig / coedwig. Mae cyfleoedd i ddefnyddio treftadaeth i ymgysylltu a denu mwyr o ymwelwyr.	Mae'r dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol yn ysgogwyr allweddol i ymwelwyr, gan gynnwys heicio ac ymweld â safleoedd treftadaeth fel cestyll neu amgueddfeydd. Mae cyfleoedd i ddefnyddio treftadaeth i ymgysylltu a denu mwyr o ymwelwyr.
<b>E. Heriau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Natur anghysbell.</li> <li>Diffyg cysylltedd digidol.</li> <li>Diffyg cyfleusterau (toiledau/caffis), gweithgareddau yn ystod tywydd gwael a hyrwyddo.</li> <li>Materion trafndiaeth.</li> <li>Argyfwng recriwtio.</li> <li>Cynnydd mewn costau byw a rhedeg o ddydd i ddydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Natur anghysbell.</li> <li>Diffyg hyrwyddo.</li> <li>Diffyg cyfleusterau (mae rhai ohonynt ar gau ar ddiwrnodau penodol).</li> <li>Materion trafndiaeth.</li> <li>Cynnydd mewn costau byw a rhedeg o ddydd i ddydd.</li> </ul>
<b>F. Manteision</b>	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>G. Faint mae treftadaeth yn annog ymwelwyr</b>	Mae'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn ysgogwyr allweddol i ymwelwyr â Chymru ac i'r 2 ardal prosiect, felly gellid defnyddio hyn i ddenu mwyr o ymwelwyr parchus a helpu i ddylanwadu ar ymddygiad.	Gellid defnyddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardaloedd i annog mwyr o bobl i ymweld a threulio amser yn yr ardaloedd.
<b>H. Grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â hyrwyddo</b>	Mae'r rhyngrwyd yn ffynhonnell wybodaeth allweddol i ymwelwyr.	Mae'r rhyngrwyd a ffrindiau a theulu yn ffynonellau gwybodaeth allweddol i ymwelwyr.

## 4.2 GWEITHGAREDD CUPHAT

Ystyriodd y gwerthusiad a gyflawnwyd yr allbynnau a'r canlyniadau disgwyliedig yn ogystal ag a oedd unrhyw ganlyniadau annisgwyl. Mae tîm prosiect CUPHAT wedi cynnal gwaith monitro parhaus i hysbysu'r rhan hon o'r gwerthusiad. Mae Tabl 10 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y dangosyddion canlyniadau targed. Mae'r tabl yn dangos bod y rhan fwyaf o'r targedau wedi'u cyflawni, bod y rhai sy'n aros yn oren yn cynnwys naratif i egluro naill ai pam na chyrrhaeddwyd y targed neu pryd y bydd yn cael ei gyflawni.

**Tabl 10: Asesu dangosyddion a thargedau CUPHAT**

Dangosyddion canlyniadau (allbynnau / canlyniadau)		Asesiad RAG
Cymunedau arfordirol ar ucheldir yn cymryd rhan mewn cydweithrediad trawsffiniol ynghylch twristiaeth diwylliant, natur a threftadaeth (cyfanswm o 12 h.y. 3 ym mhob ardal ucheldir arfordirol).		
Rhwydwaith twristiaeth newydd wedi'i greu, a fydd yn hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol, naturiol a threftadaeth o fewn a rhwng y 12 cymuned a 4 ardal ucheldir arfordirol.		
Cynnydd o 5% mewn: <ul style="list-style-type: none"> <li>– niferoedd twristiaeth</li> <li>– gwariant</li> </ul> yn y 4 ardal ucheldir arfordirol. Gwybodaeth data am ddefnydd cyfryngau cymdeithasol (ac arolygon wyneb yn wyneb o bosibl) i olrhain, mesur a sbarduno defnydd.		
Model twristiaeth gynaliadwy yn cael ei dreialu yn y 4 ardal ucheldir arfordirol, y gallir eu defnyddio mewn ucheldiroedd arfordirol llai datblygedig eraill.		
4 FTE mewn mentrau a gefnogir (un ym mhob ardal ucheldir arfordirol).		Ar hyn o bryd mae 2 ar waith a 2 arall yn cael eu cynllunio / ar y gweill.
<b>Pecyn Gwaith 1 – Marchnata a hyrwyddo ucheldiroedd arfordirol</b>		
1.1	Rhwydwaith Twristiaeth yn cysylltu'r ucheldiroedd arfordirol.	
1.2	Strategaeth Farchnata ar y Cyd ar gyfer yr ucheldiroedd arfordirol.	
1.3	5 thema gyffredin a nodwyd i farchnata'r ucheldiroedd arfordirol.	
1.4	Gwahanol fathau o dwristiaid wedi'u nodi a'u targedu drwy wahanol fathau o farchnata/hyrwyddo.	

1.5	Strategaeth a themâu marchnata cyffredin yn cael eu llwytho i fyny i wefan y prosiect a deunydd marchnata/hyrwyddo arall.	
<b>Pecyn Gwaith 2 – Ymgysylltu â chymunedau lleol</b>		
2.1	80 Hanes llafar (dethol deunydd a lanlwythwyd ar wefan/ap y prosiect).	Adeg ysgrifennu hwn, roedd 75 wedi'u cwblhau a'r 5 olaf i fod i gael eu cwblhau erbyn diwedd y prosiect.

<b>Dangosyddion canlyniadau (allbynnau / canlyniadau)</b>		<b>Asesiad RAG</b>
2.2	20 o Ddelweddau'n ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol wedi'u lanlwytho i wefan/ap y prosiect.	Rhagorwyd ar hynny gyda chyfanswm posibl o 20 ym mhob ardal erbyn diwedd y prosiect.
2.3	12 Digwyddiad cymunedol wedi'u trefnu (un ym mhob ardal).	Wedi rhagori ar hynny gyda chyfanswm posibl o 16.
2.4	Digwyddiadau wedi'u trefnu mewn 19 o ysgolion i hyrwyddo CUPHAT.	Digwyddiadau wedi'u trefnu gyda 19 dosbarth gwahanol ar draws nifer o ysgolion, ond nid 19 o wahanol ysgolion.
2.5	Cynrychioliadau artistig o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ucheldiroedd arfordirol, gyda detholiad yn cael eu defnyddio ar wefannau/arddangosfeydd ac ati.	
2.6	12 o brofiadau twristiaid wedi'u datblygu, yn seiliedig ar weithgareddau cymunedol (e.e. ymarferion côr, codi gwrychoedd, sesiynau cerddoriaeth ac ati)	
2.7	Digwyddiadau rhithiol i hyrwyddo deialog rhwng cymunedau yn yr ucheldiroedd arfordirol gwahanol.	
<b>Pecyn Gwaith 3 - Gwyddoniaeth dinasyddion</b>		
3.1	19 o ysgolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwyddoniaeth i ddinasyddion.	19 dosbarth gwahanol ar draws nifer ysgolion, ond nid 19 o ysgolion gwahanol.
3.2	Gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion wedi'u targedu at dwristiaid (cyfanswm o 8 yn ddelfrydol h.y. dau ym mhob ardal).	
3.3	Data synhwyro o bell sydd eisoes yn bodoli wedi'i nodi a'i fwydo i'r hyn sydd i'w gyflawni 3.1 a 3.2.	

3.4	Gwybodaeth a gynhyrchir o wyddoniaeth dinasyddion wedi'i llwytho i fyny i wefan y prosiect.	
3.5	Arweiniad/model sy'n amlinellu sut y gall gwyddoniaeth dinasyddion barhau i gael ei defnyddio i gynyddu twristiaeth.	
<b>Pecyn Gwaith 4 – Bywoliaeth gynaliadwy /Gweithgareddau entrepreneuriaidd</b>		
4.1	Arolwg o weithgarwch entrepreneuriaidd cyfredol yn yr ucheldiroedd arfordirol.	
4.2	8 busnes ychwanegol (dau ym mhob ardal yn ddelfrydol).	Cefnogwyd 8+ o fusnesau ychwanegol drwy raglen gymorth microfenter a grwpiau cymunedol CUPHAT ac roeddent wedi cyrraedd y cam cynllunio gweithredu. Mae'n rhy gynnar i ddweud bod hyn wedi arwain at sefydlu busnesau ychwanegol.
4.3	8 o fusnesau sydd eisoes yn bodoli, wedi'u gwella (yn ddelfrydol dau ym mhob ardal).	Wedi mynd y tu hwnt i hynny gan fod 8+ busnes yn elwa o'r CUPHAT

<b>Dangosyddion canlyniadau (allbynnau / canlyniadau)</b>		<b>Asesiad RAG</b>
		microfentrau a grwpiau cymunedol yn cefnogi'r rhaglen
4.4	8 prosiect datblygu cymunedol ar waith (yn ddelfrydol dau ym mhob ardal).	Rhagorwyd ar hynny, 8+ o fentrau micro a grwpiau cymunedol CUPHAT yn cefnogi'r rhaglen.
4.5	Arweiniad/model i barhau i gynyddu twristiaeth (ôl-ymyriad).	
<b>Pecyn Gwaith 5 - Technolegau digidol</b>		
5.1	20 o safleoedd/tirluniau wedi'u hailadeiladu'n ddigidol a wedi'u llwytho i fyny i wefan/ap y prosiect.	
5.2	20 o arteffactau wedi'u dychwelyd yn ddigidol a'u lanlwytho i wefan/ap y prosiect.	
5.3	Sylwadau sy'n bodoli eisoes yn cael eu casglu a'u llwytho i fyny i wefan/ap y prosiect.	

5.4	Cafodd y wefan a'r ap eu treialu a'u diweddarau, gan gynnwys cynrychioliadau gweledol hygyrch o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol.	Mae'r wefan wedi cael ei dylunio a gwybodaeth wedi cael ei llwytho i fyny, ond nid oedd wedi cael ei threialu erbyn diwedd y prosiect. Doedd yr Ap ddim yn gyflawn.
5.5	Arweiniad/model yn amlinellu sut y gellid parhau i ddefnyddio technolegau digidol i gynyddu twristiaeth (ôl-ymyriad).	
<b>Pecyn Gwaith 6 – Rheoli a llywodraethu prosiectau</b>		
6.1	Cytundeb cydweithio.	
6.2	Cofnodion pob cyfarfod.	
6.3	Cofnod o gyflawni yn erbyn dangosyddion allbwn.	
6.4	Adroddiadau cynnydd bob chwe mis.	
6.5	Adroddiadau ar ymchwil.	
6.6	Adroddiadau ariannol ar gyfer pob sefydliad yn gyfnodol yn ôl yr angen.	
6.7	Hawliadau i'w cyflwyno'n brydlon a'u rheoli bob chwe mis.	
6.8	Comisiynu gwerthusiadau allanol o weithgareddau'r prosiect (ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod gweithredu).	
<b>Pecyn Gwaith 7 – Cyfathrebu a lledaenu</b>		
7.1	Hunaniaeth gyhoeddus gref a chadarnhaol ar gyfer CUPHAT.	
7.2	Ymgysylltu â'r cyhoedd, cymunedau arfordirol a rhanddeiliaid drwy bresenoldeb CUPHAT ar sianeli cyfryngau cymdeithasol.	
7.3	Gwefan y prosiect a gwe-fforymau'r Rhwydwaith Twristiaeth a fydd yn cynnwys newyddion am ddigwyddiadau a galwadau CUPHAT, hwyluso deialog a chyfnewid diwylliannol yn ymwneud â'r pecynnau gwaith, a chynnwys pob prosiect a chofnodion.	

<b>Dangosyddion canlyniadau (allbynnau / canlyniadau)</b>		<b>Asesiad RAG</b>
7.4	Arddangosfeydd ar y safle a thaflenni cysylltiedig yn hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a naturiol.	

7.5	Ap sy'n cyfleu gwybodaeth am dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol.	Doedd yr Ap ddim yn gyflawn.
7.6	Darparu deunyddiau wedi'u cyfieithu yn ôl yr angen.	
7.7	Deunydd brand yn hyrwyddo CUPHAT.	

### 4.3 CANFYDDIADAU'R GWERTHUSIAD

Fel y nodir yn adran 3, roedd gwerthusiad diwedd y prosiect yn cynnwys gwahanol fathau o arolygon gyda gwahanol gynulleidfaoedd dros gyfnod o sawl mis rhwng mis Mawrth a mis Awst 2023. Y pwrpas oedd gwerthuso effaith CUPHAT a hefyd parhau i adeiladu gwaelodlin data ar weithgarwch twristiaeth yn y pedair ardal ucheldir arfordirol.

Mae Tabl 11 yn dangos nifer yr ymatebion i'r gwahanol arolygon a gynhaliwyd. Roedd cyfanswm yr ymatebion i'r gwahanol arolygon yn is na'r disgwyl er ein bod wedi cysylltu â sampl gychwynnol fawr, gan ddefnyddio gwahanol dechnegau, anfon nodiadau atgoffa a defnyddio cymhellion.

**Tabl 11 – Nifer yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd**

Math o Arolwg	Cysylltwyd			Ymatebion		
	Targed	Gwir	%	Targed	Gwir	%
<b>Arolwg ymwelwyr (wyneb yn wyneb)</b>						
Cymru	Ddim ar gael	Anhysbys	Ddim ar gael	Ddim ar gael	20	Ddim ar gael
Iwerddon	Ddim ar gael	Anhysbys	Ddim ar gael	Ddim ar gael	23	Ddim ar gael
<b>Cyfanswm</b>	<b>Ddim ar gael</b>	<b>Anhysbys</b>	<b>Ddim ar gael</b>	<b>Ddim ar gael</b>	<b>43</b>	<b>Ddim ar gael</b>
<b>Arolwg ymwelwyr (ar-lein)</b>						
Cymru	Ddim ar gael	Anhysbys	Ddim ar gael	Ddim ar gael	1	Ddim ar gael
Iwerddon	Ddim ar gael	Anhysbys	Ddim ar gael	Ddim ar gael	1	Ddim ar gael
<b>Cyfanswm</b>	<b>Ddim ar gael</b>	<b>Anhysbys</b>	<b>Ddim ar gael</b>	<b>Ddim ar gael</b>	<b>2</b>	<b>Ddim ar gael</b>
<b>Arolygon darparwyr llety ar-lein</b>						
Mynyddoedd Cambria	100	216	216%	25	8	32%
Mynydd Preseli	100	101	101%	25	4	16%
Mynyddoedd Wicklow	100	21	21%	25	13	52%
Mynyddoedd Blackstairs	100	76	76%	25	2	8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>400</b>	<b>414</b>	<b>104%</b>	<b>100</b>	<b>27</b>	<b>27%</b>
<b>Cyfweliadau darparwyr llety</b>						
Mynyddoedd Cambria	6	4	67%	3	2	67%
Mynydd Preseli	6	2	33%	3	1	33%
Mynyddoedd Wicklow	6	8	133%	3	4	133%
Mynyddoedd Blackstairs	6	1	17%	3	1	33%

Math o Arolwg	Cysylltwyd			Ymatebion		
	Targed	Gwir	%	Targed	Gwir	%
<b>Cyfanswm</b>	<b>24</b>	<b>15</b>	<b>63%</b>	<b>12</b>	<b>8</b>	<b>67%</b>
<b>Cyfweliadau busnes</b>						
Mynyddoedd Cambria	6	9	150%	3	2	67%
Mynydd Preseli	6	8	133%	3	2	67%
Mynyddoedd Wicklow	6	10	167%	3	1	33%
Mynyddoedd Blackstairs	6	8	133%	3	1	33%
<b>Cyfanswm</b>	<b>24</b>	<b>35</b>	<b>146%</b>	<b>12</b>	<b>6</b>	<b>50%</b>
<b>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid mewn Gwyliau (Arolygon wedi'u cwblhau)</b>						
Mynyddoedd Cambria	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	6	Ddim ar gael
Mynydd Preseli	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	7	Ddim ar gael
Mynyddoedd Wicklow	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	3	Ddim ar gael
Mynyddoedd Blackstairs	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	3	Ddim ar gael
<b>Cyfanswm</b>					<b>19</b>	

Mae'r canfyddiadau'n dangos effaith CUPHAT gyda chanfyddiadau'r effeithiau allweddol fel a ganlyn ar gyfer pob un o'r arolygon (mae'r rhain yn cael eu trafod yn fanylach mewn adrannau diweddarach):

#### Canlyniadau allweddol yr arolwg ymwelwyr

- **Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol** – Ychydig iawn o bobl oedd yn ymwybodol o'r ucheldiroedd arfordirol fel llefydd i ymweld â nhw. Fodd bynnag, o weld deunydd marchnata a gynhyrchir gan CUPHAT, byddai'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys ymwelwyr tramor, yn 'eithaf neu'n debygol iawn' o ymweld am o leiaf diwrnod ac ychydig yn hwy gan ddibynnu ar ffactorau fel y llefydd sydd ar gael, ymysg pethau eraill.

#### Canfyddiadau allweddol yr arolwg llefydd

- **Ymwybyddiaeth** – Yn gyffredinol roedd 50% o'r darparwyr llefydd a gwblhaodd yr arolwg yn ymwybodol o brosiect CUPHAT.
- **Marchnata** – Roedd y dull mwyaf poblogaidd o farchnata llefydd ar-lein, drwy wefan trydydd parti (y mwyafrif drwy Airbnb), ac yna marchnata drwy wefan breifat ac ar lafar. Mae tua chwarter y darparwyr sydd wedi clywed am brosiect CUPHAT wedi newid eu strategaethau marchnata o ganlyniad i weithgareddau a gynhaliwyd o fewn prosiect CUPHAT, ond ni nodwyd sut.
- **Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol** – Roedd y safbwyntiau yn gymysg gyda mwy o ddarparwyr ym Mynyddoedd Cambria yn dweud eu bod yn credu y byddai'r gwaith yr oedd CUPHAT wedi'i wneud yn arwain at fwy o ymwelwyr tramor yn dod i'r ucheldir arfordirol. Roedd rhai yn ansicr efallai oherwydd ei bod yn rhy gynnar i ddweud.
- **Mae CUPHAT wedi helpu darparwyr llefydd i oresgyn heriau neu rwystrau** – Roedd hanner y darparwyr llefydd a arolygwyd ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd Wicklow a oedd yn

ymwybodol o CUPHAT yn teimlo bod y prosiect wedi helpu neu y bydd yn eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau. Fodd bynnag, ym Mynyddoedd Blackstairs a Mynydd Preseli, nid oedd yr un o'r darparwyr hynny (2 i gyd) a oedd yn ymwybodol o'r prosiect i ddechrau yn teimlo ei fod wedi helpu/y byddai'n eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau.



- **Darparu gwybodaeth am dreftadaeth leol** - mae CUPHAT wedi helpu nifer fach o ddarparwyr llety i ddarparu rhagor o wybodaeth am eu treftadaeth leol i'w gwesteion. Gan nad oedd CUPHAT wedi cynhyrchu unrhyw ddeunydd penodol eu hunain pan gynhaliwyd yr arolwg, tybir bod gweithgarwch CUPHAT wedi galluogi'r darparwyr llety hyn i ddarparu naill ai eu gwybodaeth eu hunain am yr ardaloedd neu i ddod o hyd i wybodaeth a gynhyrchwyd gan eraill.

#### **Prif ganfyddiadau'r cyfweiliadau â busnesau twristiaeth**

- **Ymwybyddiaeth** – Roedd tua hanner y rhai a gyfwelwyd yn ymwybodol o CUPHAT.
- **Marchnata** – Roedd CUPHAT yn cynnig mwy o gyfleoedd i farchnata'r ardaloedd yn well, yn enwedig ymgyrch broffesiynol gydlynol, wedi'i thargedu, sydd wedi'i hamseru'n dda, a fyddai o fudd mawr i'r busnesau twristiaeth llai a fyddai, gobeithio, yn annog ymwelwyr i aros yn hirach yn yr ucheldiroedd arfordirol. Mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo a chadw'r ardaloedd yn unigryw o ran apêl wledig. Y gobaith oedd y gallai gwell marchnata drwy CUPHAT greu cydbwysedd o ran denu mwy o dwristiaeth adfywiol i'r ardaloedd.
- **Ymgysylltu â threftadaeth** – Gallai'r ardaloedd ddefnyddio'r dreftadaeth a'r diwylliant i annog mwy o bobl i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol ac roedd gwaith CUPHAT ar gasglu gwybodaeth am hanes lleol neu wrthrychau o ddiddordeb yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr.
- **Yr effaith y mae CUPHAT wedi'i chael ar dwristiaeth.** Teimlai rhai busnesau ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fyddai CUPHAT yn gwneud gwahaniaeth gan mai dim ond am gyfnod cymharol fyr yr oedd y prosiect wedi bod yn rhedeg ac roedd yr allbynnau'n dal i gael eu cwblhau a'u lledaenu. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau'n gadarnhaol ynghylch potensial CUPHAT i wella twristiaeth yn y pedair ardal. Y prif effeithiau yr oedd CUPHAT wedi'u cael neu y byddai'n eu cael yn y dyfodol oedd gwell marchnata (h.y. gwella gwelededd yr ardaloedd, gwefan 'siop un stop' i gael gafael ar wybodaeth yn hawdd), rhwydweithio rhwng busnesau (h.y. annog pawb i weithio gyda'i gilydd gyda manteision eang i dwristiaeth yn gyffredinol, er enghraifft creu ymdeimlad o gymuned, datblygu amwynderau a chyfleusterau sylfaenol mewn pentref ac annog twristiaeth adfywiol) a chefnogi busnesau i frwr ymlaen â'u syniadau.

#### **Canfyddiadau allweddol ymgysylltu â rhanddeiliaid**

- **Deall ac ymgysylltu â threftadaeth leol**  
Mae CUPHAT wedi cefnogi dealltwriaeth ac ymgysylltiad â threftadaeth leol. Roedd mwy o bobl yn ymwybodol o'r dreftadaeth, a'r gobaith yw y bydd yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu'n well â threftadaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen gwaddol gref i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae CUPHAT hefyd wedi gosod treftadaeth leol yn y cyddestun ehangach, gan greu gwybodaeth gref a theimlad o falchder yn y dreftadaeth. Mae hyn wedi helpu busnesau i ddeall yr adnoddau cadarnhaol sydd ganddynt er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar eu potensial a throsglwyddo hyn i ymwelwyr.
- **Marchnata a hyrwyddo** - mae gan CUPHAT well cyfle i hyrwyddo'r ardaloedd drwy ddatblygu'r wefan, cyfathrebu, a strategaeth farchnata ymarferol. Mae busnesau gwledig bellach yn fwy gweladwy i dwristiaid, a dylai hyn helpu i arwain at dwf.
- **Twristiaeth adfywiol** – Mae CUPHAT wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ac wedi helpu i ddarparu twristiaeth adfywiol yn yr ardaloedd.

- Bydd ffocws CUPHAT ar helpu, cefnogi a rhoi hyder i fusnesau twristiaeth lleol yn eu helpu i weithio tuag at ddull twristiaeth adfywiol (yn enwedig mewn perthynas â materion amgylcheddol, gwyddoniaeth dinasyddion, materion hinsawdd, cynnyrch a diwylliant lleol). Ystyriwyd bod CUPHAT yn fan cychwyn cadarnhaol ar gyfer cyflawni newid gan ei fod yn annog busnesau i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynaliadwy.
- Y gobaith yw y bydd CUPHAT yn annog mwy o ymwelwyr yn y dyfodol er bod hyn yn dibynnu ar etifeddiaeth y prosiect.
- Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, mae angen ystyried beth fydd yn digwydd nesaf a sut i ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth.
- **Rhwydweithio** - Rhoddodd CUPHAT gyfle i rwydweithio, gan gysylltu busnesau bach amrywiol lleol â'i gilydd i gydweithio a deall yn well y cyfleoedd i ddatblygu syniadau a chydweithio. Roedd hyn yn cynnwys:
  - Creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn.
  - Dysgu gan eraill, sut maen nhw'n gwneud pethau.
  - Dysgu am bethau eraill sy'n digwydd yn lleol.
  - Creu cyfleoedd newydd.
  - Rhwydwaith cefnogol o fusnesau newydd.
- **Gwersi a ddysgwyd** – Un agwedd allweddol a amlygwyd y gellid bod wedi'i gwneud yn well oedd cyfathrebu'r prosiect, er enghraifft hyrwyddo a hysbysebu'r digwyddiadau, yn ogystal â chyfathrebu o fewn y gymuned ehangach. Mae hyn yn tynnu sylw at yr her i brosiect tymor byr o ran gallu gwreiddio'n llawn yn y gymuned.
- **Etifeddiaeth** – Mae angen parhau i gefnogi'r ardaloedd a'u hyrwyddo ar gyfer twristiaeth ar raddfa ehangach nag a ddigwyddodd o'r blaen, naill ai drwy barhau â'r prosiect, neu drwy gyllid / polisi'r llywodraeth. Mae angen sicrhau cydweithio ac ymgysylltu parhaus.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi canfyddiadau pob un o'r gwahanol arolygon yn fanylach, gan gynnwys crynodeb o sut mae'r data a gasglwyd wedi ychwanegu at y waelodlin ar dwristiaeth. Mae pob adran yn dechrau gyda chrynodeb o brif ganfyddiadau'r arolwg penodol hwnnw. Yna, mae'n edrych yn fanylach ar y canfyddiadau gan gynnwys graffiau a thablau o'r ymatebion a'r dyfyniadau lle bo hynny'n berthnasol i gyfleu'r canfyddiadau.

#### 4.3.1 Ymatebion i'r arolwg ymwelwyr

Cwblhawyd cyfanswm o 43 arolwg ymwelwyr yn y lleoliadau amrywiol yng Nghymru ac Iwerddon a restrir o dan adran 3.4.2.2. Cynhaliwyd yr arolygon hyn mewn mannau poblogaidd i dwristiaid y tu allan i ardaloedd prosiect craidd CUPHAT ac roeddent yn canolbwyntio ar ganfod a fyddai ymwelwyr yn debygol o ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol yn y dyfodol. Roedd yr arolygon yn casglu barn 102 o bobl (52 yn Iwerddon a 49 yng Nghymru).

Dyma brif ganfyddiadau'r arolygon ymwelwyr sydd naill ai'n cyfrannu at y llinell sylfaen neu'n dangos effaith CUPHAT:

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – AROLYGON YMWELWYR

### Canfyddiadau sy'n dangos yr effaith:

**Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol.** Ychydig iawn o bobl oedd yn ymwybodol o'r ucheldiroedd arfordirol fel llefydd i ymweld â nhw. Fodd bynnag, o weld deunydd marchnata a gynhyrchir gan CUPHAT, byddai'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys ymwelwyr tramor, yn 'eithaf neu'n debygol iawn' o ymweld am o leiaf diwrnod ac ychydig yn hwy gan ddibynnu ar ffactorau fel y llety sydd ar gael, ymysg pethau eraill.

### Canfyddiadau sy'n cyfrannu at y waelodlin:

**Demograffeg yr ymwelwyr a arolygwyd.** Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn teithio o'r tu mewn i'r DU, ond gyda chyfran sylweddol o weddill Ewrop (21%) ac o fannau eraill yn y byd (23%). Cafodd cyfran uwch o ymwelwyr tramor eu cyfweld yn Iwerddon. Cafodd ystod o oedran, rhyw a math o barti ymweld eu samplu, ond oherwydd yr amser o'r flwyddyn (y tu allan i wyliau'r ysgol), roedd mwy o gyplau na theuluoedd â phlant a mwy o bobl o'r grwpiau oedran hŷn.

**Ffynonellau gwybodaeth.** Chwiliadau Google a siarad â ffrindiau a theulu oedd y ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin roedd pobl yn eu defnyddio i helpu i gynllunio eu hymweliad. Roedd pobl hefyd yn defnyddio taflenni, llyfrynau, cyfryngau cymdeithasol, safleoedd i dwristiaid, llyfrau tywys, safleoedd adolygu a safleoedd archebu llety i gynllunio ymweliadau a hefyd yn ystod eu hymweliad ond i raddau llai o lawer. Mae ffynonellau gwybodaeth eraill yn dod yn bwysicach yn ystod yr ymweliad, fel mapiau ac arwyddion ar y ffyrdd sy'n dangos lleoliad safleoedd twristiaeth, siarad â lletywyr, gweithredwyr teithiau a gyrwyr tacsis neu deithwyr eraill.

**Rhesymau dros ymweliadau.** Mae'r dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol neu hanesyddol yn dylanwadu ar benderfyniad pobl i ymweld ag ardal benodol. Y prif resymau dros ymweld oedd 'mwynhau'r dirwedd, cefn gwlad neu draeth', 'cymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored' ac 'ymweld â theulu a ffrindiau'. Wrth ymweld, bu pobl yn gwneud amrywiaeth ehangach o

weithgareddau ac yn ymweld ag amrywiaeth o lefydd yn ystod eu hymweliad, gyda'r canrannau uchaf yn ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol arall.

**Rhwystrau.** Y prif rwystrau a fyddai'n atal ymwelwyr rhag archwilio treftadaeth ardal oedd trafnidiaeth (gan gynnwys diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, parcio, hyder i yrru), diffyg gwybodaeth, mynediad / symudedd, amser ac argaeledd cyfleusterau / llety.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau ar sail yr ymatebion a amlinellir yn llawn yn Atodiad 2 a 3.


#### 4.3.1.1 Demograffeg

Mae Tabl 12 yn dangos y lleoedd yr oedd pobl wedi teithio ohonynt. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf wedi dod o'r DU, ond gyda chyfran sylweddol o weddill Ewrop (21%) a mannau eraill yn y byd (23%) a oedd yn cynnwys UDA, Seland Newydd, Awstralia a De Affrica. Roedd cyfran uwch o ymwelwyr tramor eu cyfweld yn Iwerddon, o bosibl oherwydd lleoliad yr arolwg a oedd mewn man arbennig o boblogaidd ar gyfer teithiau. Roedd ymwelwyr yng Nghymru yn dod o'r DU yn bennaf (80%).

**Tabl 12 – Cartref parhaol ymwelwyr**

	Cartref Parhaol	Nifer y grwpiau a arolygwyd (%)
<b>Iwerddon</b>	Iwerddon	1 (4%)
	Cymru	0 (0%)
	Gweddill y DU	6 (26%)
	Gweddill Ewrop	7 (30%)
	Gweddill y Byd	9 (39%)
	<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>
<b>Cymru</b>	Iwerddon	1 (5%)
	Cymru	3 (15%)
	Gweddill y DU	13 (65%)
	Gweddill Ewrop	2 (10%)
	Gweddill y Byd	1 (5%)
	<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>
<b>Cyfanswm</b>	Iwerddon	2 (5%)
	Cymru	3 (7%)
	Gweddill y DU	19 (44%)
	Gweddill Ewrop	9 (21%)
	Gweddill y Byd	10 (23%)
	<b>Cyfanswm</b>	<b>43</b>

Mae'r map coeden yn Ffigur 7 yn dangos bod ystod o oedran, rhyw a math o barti ymweld eu samplu, ond oherwydd yr amser o'r flwyddyn (y tu allan i wyliau'r ysgol), roedd mwy o gyplau na theuluoedd â phlant a mwy o bobl o'r grwpiau oedran hŷn.



**Ffigur 7 – Map coeden o ddemograffeg ymwelwyr (Arolygon wyneb yn wyneb Cymru ac Iwerddon)**

#### 4.3.1.2 Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i gynllunio ymweliadau

Gofynnwyd i'r ymwelwyr pa wybodaeth roedden nhw wedi'i defnyddio i gynllunio eu hymweliad a beth roedden nhw wedi'i ddefnyddio yn ystod eu hymweliad. Chwiliadau Google a siarad â ffrindiau a theulu oedd y ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin roedd pobl yn eu defnyddio i helpu i gynllunio eu hymweliad.

- Roedd 70% o'r ymwelwyr a holwyd yng Nghymru a 78% o'r ymwelwyr a holwyd yn Iwerddon yn defnyddio Google cyn eu taith;
- Roedd 40% o'r ymwelwyr a holwyd yng Nghymru a 65% o'r ymwelwyr a holwyd yn Iwerddon wedi siarad â theulu a ffrindiau cyn eu taith;
- Roedd pobl hefyd yn defnyddio taflenni, llyfrynau, cyfryngau cymdeithasol, safleoedd i dwristiaid, llyfrau tywys, safleoedd adolygu a safleoedd archebu llety, ond i raddau llai o lawer.

Er bod Google yn dal i fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth yn ystod y daith, roedd yn amlwg o'r arolwg bod ffynonellau gwybodaeth eraill yn dod yn fwy pwysig yn ystod yr ymweliad:

- Roedd 30% o'r ymwelwyr a holwyd yng Nghymru a 35% o'r ymwelwyr a holwyd yn

Iwerddon yn defnyddio Google yn ystod eu hymweliad.




- Roedd 40% o'r ymwelwyr a holwyd yng Nghymru a 39% o'r ymwelwyr a holwyd yn Iwerddon yn defnyddio taflenni neu lyfrynau yn ystod eu hymweliad.
- Soniwyd am nifer o ffynonellau eraill gan gynnwys defnyddio mapiau ac arwyddion ar y ffyrdd sy'n dangos lleoliad safleoedd twristiaeth, siarad â lletywyr, gweithredwyr teithiau a gyrrwr tacsï neu deithwyr eraill.

#### 4.3.1.3 Rhesymau dros ymweliadau

Roedd y prif resymau a roddwyd dros ymweld â'r ardaloedd yn amrywio rhwng yr ymwelwyr a holwyd yng Nghymru ac Iwerddon. Yng Nghymru, y rhesymau mwyaf poblogaidd dros ymweliadau oedd i fwynhau'r dirwedd, cefn gwlad neu draeth (35%) ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored (35%) ac yn Iwerddon, cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored anffurfiol (30%) ac ymweld â theulu a ffrindiau (26%).

Fodd bynnag, yr oedd yr ystod o weithgareddau yr oedd pobl yn ymgymryd â hwy a'r lleoedd yr oedd pobl yn ymweld â hwy yn cwmpasu ystod llawer ehangach. Mae Ffigur 8 yn dangos bod gweithgareddau tebyg yn cael eu gwneud gan ymwelwyr â Chymru ac Iwerddon, gyda chanrannau uchel yn ymweld â safleoedd hanesyddol / safleoedd diwylliannol / safleoedd crefyddol (65%), mwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / traeth (63%), cymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored (56%) ac ymweld ag atyniadau penodol (49%). Roedd mwy o ymwelwyr a holwyd yng Nghymru yn ymweld â chefn gwlad a thraethau ac roedd mwy o ymwelwyr ag Iwerddon yn ymweld â theulu a ffrindiau.



**Ffigur 8 – Gweithgareddau yr oedd ymwelwyr a holwyd yng Nghymru ac Iwerddon yn ymgymryd â hwy ar eu hymweliad.**

Mae Ffigur 9 yn dangos bod ymwelwyr â Chymru ac Iwerddon yn ymweld â llefydd tebyg, gyda chanrannau uchel yn ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol arall e.e. eglwys, eglwys

gadeiriol, mynachlog (77%).




**Ffigur 9 – Y llefydd yr ymwelodd ymwelwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yng Nghymru ac Iwerddon â nhw ar eu hymweliad.**

Mewn cwestiwn ar wahân, dangosodd yr arolwg fod llawer o ymwelwyr yn debygol o benderfynu ar leoliad i ymweld ag ef ar sail treftadaeth naturiol, ddiwylliannol neu hanesyddol ardal. Yng Nghymru roedd 60% ac 83% yn Iwerddon naill ai'n debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ystyried treftadaeth wrth benderfynu ble i ymweld.


#### 4.3.1.4 Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol

Gofynnwyd i'r ymwelwyr a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebu, marchnata neu gyhoeddusrwydd am dreftadaeth naturiol, hanesyddol neu ddiwylliannol yr ardaloedd o fewn prosiect CUPHAT. Roedd hyn yn cynnwys a oeddent yn ymwybodol o'r ucheldiroedd arfordirol neu'n gwybod unrhyw beth am deithiau cerdded posibl a phethau i'w gwneud neu i ymweld â nhw neu lefydd i aros yn yr ardaloedd hyn. Mae Ffigur 10 yn dangos mai ychydig iawn oedd yn ymwybodol o'r ardaloedd hyn fel lle i ymweld, gyda lefelau tebyg o ymwybyddiaeth ymysg ymwelwyr yng Nghymru ac Iwerddon.




**Ffigur 10 – Ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r ucheldiroedd arfordirol**

Dangoswyd rhai delweddau o ardaloedd y prosiect a gynhyrchwyd drwy CUPHAT i'r ymwelwyr a gyfwelwyd, a oedd yn dangos rhai agweddau ar y dirwedd a'r dreftadaeth hanesyddol. Gofynnwyd iddynt wedyn a fyddai gweld hysbysebion fel hyn neu wybod am dreftadaeth naturiol a diwylliannol yr ucheldir arfordirol yn eu hannog i ymweld, aros neu archwilio'r ardal honno. Mae Ffigur 11 yn dangos y byddai'r mwyafrif yn 'eithaf neu'n debygol iawn' o ymweld ac, yn bwysig iawn, ni ddywedodd neb yn yr arolwg 'annhebygol iawn'. Dywedodd rhai o'r rhai a ymatebodd 'eithaf annhebygol' neu 'ddim yn debygol nac yn annhebygol' mai'r rheswm am hyn oedd eu bod yn ymweld â'r teulu, felly dyma oedd y flaenoriaeth ar gyfer ymweld ag ardaloedd penodol, felly nid oedd ganddynt lawer o amser i fynd ar dripiâu eraill. Yn gyffredinol, roedd 43% yn 'debygol iawn' o ymweld â'r ardaloedd hynny.




**Ffigur 11 – Y tebygolrwydd y bydd twristiaid yn ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol**

Gellir dadansoddi'r data ymhellach i ystyried ymateb ymwelwyr tramor yn unig. Mae Ffigurau 12 a 13 yn dangos y byddai 46% o'r ymwelwyr tramor a holwyd a oedd yn ymweld ag Iwerddon a 75% o'r ymwelwyr tramor a oedd yn ymweld â Chymru yn 'debygol iawn' o ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol.



**Ffigur 12 – Y tebygolrwydd y bydd twristiaid o dramor sy'n ymweld ag Iwerddon yn ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol**



**Ffigur 13 – Y tebygolrwydd y bydd twristiaid o dramor sy’n ymweld â Chymru yn ymweld â’r ucheldiroedd arfordirol**

Gofynnwyd i ymwelwyr hefyd am ba hyd y byddent yn aros yn yr ucheldiroedd arfordirol. Yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd ymweliad undydd, nodwyd hyn gan 60% yng Nghymru a 39% yn Iwerddon. Dywedodd 20% yng Nghymru a 39% yn Iwerddon y byddent yn ymweld am ychydig ddyddiau gydag arhosiad dros nos, ond dim ond 10% yng Nghymru a 4% yn Iwerddon oedd yn meddwl y byddent yn aros am wythnos. Fodd bynnag, mewn trafodaeth dywedodd llawer ei fod yn dibynnu ar nifer o ffactorau anhysbys fel y llety sydd ar gael yn yr ardal, beth sydd i’w wneud ac ati, ac os oedd y ffactorau hyn yn ffafriol, yna gallai hyn ymestyn hyd eu harhosiad.

Yr amser mwyaf poblogaidd ar gyfer ymweliadau oedd y gwanwyn a’r haf a’r cyfnod lleiaf poblogaidd oedd y gaeaf. Dywedodd llawer o’r rhai a holwyd ei bod yn well ganddynt ymweld y tu allan i wyliau’r ysgol, ond mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad gwrygam gan fod yr arolwg wedi cael ei gynnal y tu allan i wyliau’r ysgol, felly roedd yn wastad yn debygol o gynnwys mwy o bobl sydd eisoes yn teithio y tu allan i brif wyliau’r ysgol.

#### **4.3.1.5 Rhwystrau**

Gofynnodd yr arolwg i ymwelwyr pa rwystrau fyddai’n eu hatal rhag archwilio treftadaeth ardal. Dangosir y prif rwystrau a godwyd yn Nhabl 13.

**Tabl 13 – Y prif rwystrau a fyddai'n atal ymwelwyr rhag archwilio treftadaeth ardal**

Rhwystrau	Nifer y bobl a holwyd a nododd y rhwystr	
	Cymru	Iwerddon
Trafnidiaeth	8	9
Diffyg gwybodaeth	6	4
Mynediad / symudedd	5	7
Amser	3	4
Cyfleusterau / llety	3	3

- **Trafnidiaeth**

Roedd y prif rwystr a godwyd yn ymwneud â thrafnidiaeth, yn enwedig y diffyg trafndiaeth gyhoeddus, y ffaith nad yw'r ardaloedd hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o daith, materion yn ymwneud â pharcio (cost, diogelwch, argaeledd a gwybod ble i barcio), a'r anhawster a'r diffyg hyder wrth yrru ar ffyrdd gwledig bach.

*"Mae ffyrdd bach yn anodd gyrru arnynt mewn faniau gwersylla" (Ymwelydd tramor â Chymru)*

- **Gwybodaeth**

Roedd gwybod am fodolaeth yr ardaloedd hefyd yn cael ei weld fel rhwystr mawr. Os nad yw ymwelwyr yn ymwybodol o ardal, ni fyddant yn gallu ymweld neu efallai nad ydynt yn hyderus yn mynd i ardaloedd anhysbys lle nad oes llawer yn hysbys am yr hyn sydd i'w wneud ac a oes unrhyw gyfleusterau, parcio ayb. Mae rhai o'r materion sy'n ymwneud â gwybodaeth a diffyg gwybodaeth yn cael eu crynhoi gan y sylwadau canlynol a wnaed yn yr arolygon.

*"Yn gyffredinol, ymweld â beth sy'n hawdd cael gwybod amdano." (Ymwelydd tramor â Chymru)*

*"Anodd dod o hyd i wybodaeth am lawer o leoedd gan fod gwybodaeth mewn llawer o wahanol leoedd / gwefan - nid mewn un lle - felly mae'n cymryd amser i ymchwilio." (Ymwelydd tramor ag Iwerddon)*

*"Mynd i'r llefydd rydw i wedi bod yn barod pan oeddwn yn tyfu i fyny, felly rydw i eisoes yn eu hadnabod neu lle mae fy nheulu'n eu hadnabod." (Ymwelydd tramor ag Iwerddon)*

- **Mynediad / symudedd**

Roedd mynediad a symudedd yn rhwystr i lawer o bobl a oedd yn golygu nad oeddent yn gallu ymweld ag ucheldiroedd mwy gwledig, yn enwedig ar gyfer cerdded, oherwydd eu problemau iechyd eu hunain a oedd yn effeithio ar eu gallu i gerdded. Wrth ymweld ag ardaloedd, roedd hi'n bwysig gallu darganfod pa mor hygyrch yw llefydd cyn ymweld.

- **Amser**

Mae amser yn cael ei ystyried yn ffactor cyfyngol, dim ond hyn a hyn o lefydd y gellir ymweld â nhw ar daith ac roedd pobl yn teimlo bod yn rhaid iddynt flaenoriaethu, a gall



hyn yn aml olygu gweld y prif atyniadau heb amser ar gyfer ymweliadau mwy anghysbell a allai fod mewn mannau llai prysur. Nid oedd pobl eisiau colli allan ar rai o'r tirnodau enwocaf.

- **Cyfleusterau / llety**

Mae ymwelwyr yn teimlo y byddai diffyg amwynderau a chyfleusterau fel llefydd i fwyta, aros a phethau i'w gwneud yn rhwystr. Yn benodol, dod o hyd i lety am 1-2 ddiwrnod yn hytrach nag wythnos gyfan a safleoedd a fyddai'n derbyn faniau gweryslla. Byddai'r rheini sydd â phlant ifanc hefyd yn annhebygol o ymweld ag ardaloedd lle nad oedd llawer i'w wneud â'r plant.

“Anodd dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer fan wersylla yn unrhyw le yn Iwerddon” (Ymwelydd tramor ag Iwerddon)

- **Eraill**

Crybwyllwyd nifer o rwystrau eraill gan un neu ddau berson, gan gynnwys y canlynol:

- Iaith h.y. dylai arwyddion Cymraeg fod mewn ffont gwahanol fel yn Iwerddon, felly maent yn sefyll allan ac yn haws eu darllen.
- Tyrfaoedd
- Y Tywydd
- Cost
- Pellter

#### 4.3.1.6 Canfyddiadau'r arolwg ymwelwyr ar-lein

Dim ond dau arolwg ymwelwyr a gwblhawyd, un yng Nghymru ac un yn Iwerddon. Cyflwynir y canfyddiadau o'r rhain yn Atodiad 3 ac fe'u crynhoir yma.

- **Demograffeg**

Roedd yr ymwelydd â Chymru yn ymweld â Thregaron ac roedd yn deulu heb blant o Gymru yn yr ystod oedran 60-64, ac roedd yr ymwelydd ag Iwerddon yn ymweld â Sir Wicklow ac yn deulu gyda phlant hŷn yn ymweld o dramor yn yr ystod oedran 40-44.

- **Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i gynllunio ymweliadau**

Roedd y ddau ymwelydd wedi defnyddio ffynonellau ar-lein i ymchwilio i'w hymweliad ymlaen llaw ac roedd yr ymwelydd â Chymru hefyd wedi defnyddio taflenni, a phapurau newydd a chylchgronau. Yn ystod eu hymweliad, defnyddiwyd ffynonellau tebyg a chafodd yr ymwelydd ag Iwerddon gyngor gan eu darparwr llety hefyd.

- **Rhesymau dros ymweliadau**

Y rheswm dros yr ymweliad â Chymru oedd ymweld â safleoedd hanesyddol, diwylliannol a chrefyddol. Roeddent hefyd yn mwynhau'r dirwedd, cefn gwlad a thraethau a gweld golygfeydd. Y rheswm dros yr ymweliad ag Iwerddon oedd cymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored. Buont hefyd yn ymweld â safleoedd hanesyddol, diwylliannol, crefyddol a mwynhau golygfeydd.

- **Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol**

Roedd yr arolwg ar-lein wedi'i anelu at ymwelwyr a oedd yn ardaloedd craidd CUPHAT a gofynnwyd a fyddent yn debygol o ymweld â'r ardaloedd hyn eto yn y dyfodol. Dywedodd y ddau na fyddent yn debygol nac yn annhebygol o ymweld eto ond roeddent yn debygol iawn o argymhell yr ardaloedd i ffrind neu berthynas.

- **Rhwystrau**

Gofynnodd yr arolwg i ymwelwyr pa rwystrau fyddai'n eu hatal rhag archwilio treftadaeth yr ardaloedd. Ni chafodd unrhyw rwystrau eu codi gan yr ymwelydd â Chymru a chafodd y gost ei chodi fel rhwystr gan yr ymwelydd ag Iwerddon.

#### **4.3.2 Canfyddiadau'r arolwg llety**

Cafodd cyfanswm o 27 arolwg eu cwblhau gan y darparwyr llety, ac roedd hyn yn cynnwys 12 o'r ardaloedd yng Nghymru a 15 o'r ardaloedd yn Iwerddon. Er bod hyn yn is na'r targed o 50 o ymatebion, mae'n dal i ddarparu amrywiaeth o safbwyntiau sy'n cael eu dadansoddi o dan nifer o benawdau isod.

Mae'r canfyddiadau allweddol sydd naill ai'n cyfrannu at y llinell sylfaen neu'n dangos effaith CUPHAT fel a ganlyn ar gyfer pob un o'r arolygon.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – AROLYGON DARPARWYR LLETY

### Canfyddiadau allweddol sy'n dangos effaith CUPHAT

**Ymwybyddiaeth** Yn gyffredinol roedd 50% o'r darparwyr llety a gwblhaodd yr arolwg yn ymwybodol o brosiect CUPHAT.

**Marchnata.** Roedd y dull mwyaf poblogaidd o farchnata llety ar-lein, drwy wefan trydydd parti (y mwyafrif drwy Airbnb), ac yna marchnata drwy wefan breifat ac ar lafar.

Mae tua chwarter y darparwyr sydd wedi clywed am brosiect CUPHAT wedi newid eu strategaethau marchnata o ganlyniad i weithgareddau a gynhaliwyd o fewn prosiect CUPHAT, ond ni nodwyd sut.

**Potensial i ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol** – Roedd y safbwyntiau yn gymysg gyda mwy o ddarparwyr ym Mynyddoedd Cambria yn dweud eu bod yn credu y byddai'r gwaith yr oedd CUPHAT wedi'i wneud yn arwain at fwy o ymwelwyr tramor yn dod i'r ucheldir arfordirol. Roedd rhai yn ansicr efallai oherwydd ei bod yn rhy gynnar i ddweud.

**Mae CUPHAT wedi helpu darparwyr llety i oresgyn heriau neu rwystrau.**

### Canfyddiadau allweddol sy'n cyfrannu at y waelodlin

#### Ymwelwyr a meddiannaeth

- Roedd y meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog uchaf yn 2022 ym Mynyddoedd Wicklow ac roedd yr isaf ym Mynyddoedd Cambria.
- Nid oedd cysondeb o ran newidiadau mewn meddiannaeth o gyn Covid i 2022 ar draws y pedair ardal: Mynyddoedd Wicklow oedd â'r ganran uchaf o ymatebwyr yn adrodd am gynnydd, ac yna Mynyddoedd Cambria a Mynydd Preseli; nid oedd gan Fynyddoedd Blackstairs unrhyw ymatebwyr yn adrodd am gynnydd.
- Hefyd, nid oedd cysondeb o ran y newidiadau a ragwelir ar gyfer 2023 o'i gymharu â 2022: Mynyddoedd Cambria oedd â'r ganran uchaf o ymatebwyr a oedd yn rhagweld cynnydd, ac yna Mynyddoedd Wicklow a Mynydd Preseli; nid oedd gan Fynyddoedd Blackstairs unrhyw ymatebwyr a oedd yn rhagweld cynnydd.
- Roedd gan bawb heblaw Wicklow (a oedd yn sylweddol uwch) gyfran isel o ymwelwyr tramor o ran ymwelwyr domestig oedd yn aros; roedd y rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd yn nifer yr ymwelwyr tramor ar gyfer 2023 yn uchel ar gyfer Mynyddoedd Wicklow, Cambria a Blackstairs.

Roedd hanner y darparwyr llety a arolygwyd ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd Wicklow a oedd yn ymwybodol o CUPHAT yn teimlo bod y prosiect wedi helpu neu y bydd yn eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau. Fodd bynnag, ym Mynyddoedd Blackstairs a Mynydd Preseli, nid oedd yr un o'r darparwyr hynny (2 i gyd) a oedd yn ymwybodol o'r prosiect i ddechrau yn teimlo ei fod wedi helpu/y byddai'n eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau.

#### **Darparu gwybodaeth am dreftadaeth leol.**

Mae CUPHAT wedi helpu nifer fach o ddarparwyr llety i ddarparu rhagor o wybodaeth am eu treftadaeth leol i'w gwesteion. Gan nad oedd CUPHAT wedi cynhyrchu unrhyw ddeunydd penodol eu hunain pan gynhaliwyd yr arolwg, tybir bod gweithgarwch CUPHAT wedi galluogi'r darparwyr llety hyn i ddarparu naill ai eu gwybodaeth eu hunain am yr ardaloedd neu i ddod o hyd i wybodaeth a gynhyrchwyd gan eraill.

- Yn 2022, arhosodd ymwelwyr yn yr ucheldiroedd arfordirol am 3.4 noson ar gyfartaledd, gyda'r arosiadau hiraf ym Mynydd Preseli a'r arosiadau byrraf ym Mynyddoedd Blackstairs.
- Roedd safleoedd llety ym mhob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol ar agor am o leiaf 9 mis yn 2022, gyda safleoedd yn agor hiraf ym Mynydd Preseli.

**Rhesymau dros ymweliadau.** Mae'r gwesteion yn ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol yn bennaf i fwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traethau, i gymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored, ac i ymweld â safleoedd hanesyddol, diwylliannol neu grefyddol.

**Rhwystrau rhag denu gwesteion.** Y rhwystrau mwyaf oedd cyfyngiadau marchnata neu hysbysebu, cysylltiadau trafnidiaeth gwael, natur anghysbell, a'r ffaith nad yw'r ucheldiroedd arfordirol yn fwy adnabyddus.

**Rhwystrau i hyd arhosiad.** Y rhwystrau mwyaf oedd diffyg amwynderau neu wasanaethau (sy'n cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus), diffyg atyniadau mawr i dwristiaid, a diffyg gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael/yn cael ei gynnig yn yr ardal. Nodwyd hefyd bod ymweliadau byr yn gyffredin ymysg cerddwyr/beicwyr, ac y byddant yn parhau i fod felly.

#### **Treftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol leol**

- Y nodweddion naturiol allweddol yn y pedair ardal ucheldir arfordirol sy'n denu pobl yw mynyddoedd, coedwigoedd, afonydd, harddwch naturiol heb ei ddifetha, a thawelwch. O ran treftadaeth hanesyddol/diwylliannol mae mwy o wahaniaethau, mae'r iaith Gymraeg, siarad Cymraeg, mwynloddio a

chrefftau yn nodweddion allweddol  
yn  
yr ardaloedd Cymraeg, ac mae hanes


treftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol a chysylltiad â Chanada yn agwedd allweddol yn Iwerddon.

- Mae gan ymwelwyr ym mhob ardal well lefel o ymwybyddiaeth o dreftadaeth naturiol yr ardal o'i chymharu â'r dreftadaeth ddiwylliannol neu hanesyddol leol.
- Mae gan rhwng 20-50% o'r darparwyr llety gysylltiadau â darparwyr safleoedd treftadaeth yn eu hardal ac mae'r rhan fwyaf yn rhoi gwybodaeth i'w gwesteion am dreftadaeth eu hardal leol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau ar sail yr ymatebion a amlinellir yn llawn yn Atodiad 4 (Cymru) ac Atodiad 5 (Iwerddon).


#### 4.3.2.1 Demograffeg

Dangosir cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg o bob ardal yn Ffigur 14. Yng Nghymru, roedd y rhan fwyaf o lety'r ymatebwyr wedi'u lleoli ym Mynyddoedd Cambria, ac yn Iwerddon ym Mynyddoedd Wicklow. Un o brif gyfyngiadau'r set ddata yw bod y sampl o ddarparwyr llety o Fynyddoedd Mynydd Preseli a Blackstairs yn fach (4 a 2 yn y drefn honno) sy'n adlewyrchu'r nifer llai o ddarparwyr a gafodd eu nodi ac y cysylltwyd â nhw i gwblhau'r arolwg.



**Ffigur 14. Cyfran yr ymatebwyr yn ôl ardal ucheldir arfordirol**


Roedd darparwyr llety wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o gymunedau ym mhob un o'r ucheldiroedd arfordirol, fel y dangosir yn Ffigur 15. Fodd bynnag, ym Mynyddoedd Cambria, roedd 50% o'r ymatebwyr wedi'u lleoli yn Nhregaron, ac ym Mynyddoedd Wicklow roedd 30% wedi'u lleoli yn Shillelagh. Yn Blackstairs roedd yr ymatebwyr yn dod o ochr Carlow y mynyddoedd ac nid o ochr Wexford, sef y prif faes astudio.



Ffigur 15. Y cymunedau y lleolir darparwyr llety ynddynt.




Fel y gwelir yn Ffigur 16, y math o lety mwyafrifol oedd hunanarlwyo ym mhob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol, er bod rhaniad cyfartal rhwng llety hunan-arlwyo a llety wedi'i wasanaethu ym Mynyddoedd Blackstairs.



**Ffigur 16. Y prif fath o lety a ddarperir gan ymatebwyr yr arolwg.**


Mae Ffigur 17 yn dangos a oedd y darparwyr llety yn ymwybodol o CUPHAT cyn derbyn y gwahoddiad i gwblhau'r arolwg. Mae'n dangos bod ymwybyddiaeth gyffredinol yn 50/50, gydag oddeutu 62% o ddarparwyr ym Mynyddoedd Wicklow a 50% o'r rhai sydd wedi'u lleoli ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd Blackstairs yn ymwybodol o brosiect CUPHAT, o'i gymharu â dim ond 25% ym Mynydd Preseli. Fodd bynnag, gellir tybio hefyd bod y broses o gynnal yr arolwg wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o brosiect CUPHAT, o leiaf ymysg y rhai a gwblhaodd yr arolwg.



**Ffigur 17. Cyfran yr ymatebwyr sy'n ymwybodol o brosiect CUPHAT**

#### 4.3.2.2 Ymwelwyr a meddiannaeth

Mae Ffigur 18 yn dangos meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog yn 2022 ar sail y data a ddarparwyd gan y darparwyr llety. Roedd y meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog uchaf ym Mynyddoedd Wicklow, sef 64%, sef dwbl y meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog ym Mynyddoedd Cambria (32%), sef yr isaf o'r pedair ardal ucheldir arfordirol.



**Ffigur 18. Meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog yn 2022**

Mae Ffigur 19 yn dangos sut roedd lefelau meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog yn 2022 yn amrywio o lefelau deiliadaeth yn 2019, cyn pandemig Covid-19.


Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, nid yw lefelau meddiannaeth ym Mynyddoedd Blackstairs wedi cynyddu fel yn yr ucheldiroedd arfordirol eraill; fodd bynnag, mae'n bwysig cyfeirio at y ffaith mai dim ond dau ddarparwr llety o Fynyddoedd Blackstairs a ymatebodd i'r arolwg.

Fodd bynnag, dywedodd 39% o ddarparwyr llety ym Mynyddoedd Wicklow fod lefelau meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog yn 2022 wedi cynyddu hyd at 25% ers 2019, gyda 30% ychwanegol yn dweud eu bod wedi aros ar lefel debyg iawn. Mae'n ymddangos bod hyn yn gyson â'r lefelau meddiannaeth cyfartalog uchel o 64% ym Mynyddoedd Wicklow yn 2022.

Fodd bynnag, er mai Mynyddoedd Cambria oedd â'r lefelau meddiannaeth isaf o'r pedair ardal ucheldir arfordirol, gyda 32% yn 2022, mae Ffigur 19 yn dangos bod 29% o ddarparwyr llety wedi dweud bod lefelau meddiannaeth wedi cynyddu 11-25% ers 2019, gyda 29% ychwanegol yn dweud eu bod wedi aros ar lefel debyg iawn.


Ym Mynydd Preseli, dywedodd 25% o ddarparwyr llety fod lefelau meddiannaeth ar gyfer 2022 wedi cynyddu 51% neu fwy o'i gymharu â 2019. Fodd bynnag, dywedodd 75% fod y rhain wedi

gostwng rhwng 6 a 25%. Fodd bynnag, mae pa mor gynrychioliadol yw'r ffigurau hyn wedi'i gyfyngu gan ddiffyg ymatebion gan ddarparwyr llety ym Mynydd Preseli (4 i gyd).




**Ffigur 19. Meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog yn 2022, o'i gymharu â 2019**

Mae Ffigur 20 yn dangos sut mae ymatebwyr yn rhagweld sut gallai lefelau meddiannaeth cyfartalog ystafelloedd yn 2023 newid o'i gymharu â 2022. Roedd y darparwyr llety ym Mynyddoedd Cambria yn gadarnhaol iawn, gyda 75% yn rhagweld cynnydd a 38% yn rhagweld cynnyddu o rhwng 6 a 25%. Ar y llaw arall, ym Mynydd Preseli, dim ond 25% oedd yn rhagweld cynnydd bach o 1-5%. Yn lwerddon, ym Mynyddoedd Wicklow, roedd 46% o ddarparwyr llety yn rhagweld cynnydd yn lefelau meddiannaeth o rhwng 6 a 25%, o'i gymharu â'r rheini ym Mynyddoedd Blackstairs, gyda 50% o ddarparwyr llety yn rhagweld y bydd lefelau meddiannaeth yn aros ar lefel debyg iawn a neb yn rhagweld cynnydd o'i gymharu â 2022.




Ffigur 20. Rhagfynegiad o lefelau meddiannaeth ystafelloedd cyfartalog yn 2023, o'i gymharu â 2022

Mae Ffigur 21 yn dangos cyfran yr ymwelwyr tramor mewn perthynas ag ymwelwyr domestig sy'n aros gyda'r darparwyr llety. Ym Mynyddoedd Cambria, Mynydd Preseli a Mynyddoedd Blackstairs roedd hyn yn 10% neu lai; fodd bynnag, ym Mynyddoedd Wicklow roedd cyfran yr ymwelwyr tramor a gofnodwyd yn 73%, felly yn sylweddol uwch.




**Ffigur 21. Cyfran yr ymwelwyr tramor o'i gymharu ag ymwelwyr domestig yn 2022**

Amcangyfrifodd darparwyr llety sut bydd y lefelau meddiannaeth cyfartalog ar gyfer ymwelwyr tramor yn 2023 yn cymharu â lefelau 2022. Mae Ffigur 22 yn dangos bod y rhan fwyaf o ddarparwyr llety ym Mynyddoedd Cambria yn rhagweld y bydd lefelau meddiannaeth ymwelwyr tramor yn cynyddu, gyda 25% yn dweud y byddant yn cynyddu rhwng 6 a 10%. Fodd bynnag, ym Mynydd Preseli, nid oedd unrhyw ragolygon o gynnydd yn y lefelau meddiannaeth gyfartalog ar gyfer ymwelwyr tramor, gyda 50% yn dweud y byddent yn aros ar lefel debyg iawn a 50% yn disgwyl gostyngiad. Ym Mynyddoedd Wicklow, roedd 46% o ddarparwyr llety yn rhagweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr tramor yn 2023, gyda 38% yn disgwyl cynnydd o rhwng 6 a 50%. Ym Mynyddoedd Blackstairs, roedd 50% yn rhagweld cynnydd bach o 1-5%, ac roedd y 50% arall yn teimlo y byddai lefelau meddiannaeth gyfartalog ymwelwyr tramor yn aros ar lefel debyg iawn. Yr unig ddarparwyr llety a oedd yn disgwyl gostyngiad yn y lefelau meddiannaeth gyfartalog gan ymwelwyr tramor oedd Mynydd Preseli (50%) a Mynyddoedd Wicklow (31%).




Ffigur 22. Rhagfynegiad o lefelau meddiannaeth gyfartalog ar gyfer ymwelwyr tramor yn 2023, o'i gymharu â 2022

Mae Ffigur 23 yn dangos bod ymwelwyr wedi aros yn yr ucheldiroedd arfordirol am 3.4 noson ar gyfartaledd yn 2022, gyda'r arosiadau hiraf yn digwydd ym Mynydd Preseli (4.3 noson) a'r arosiadau byrraf ym Mynyddoedd Blackstairs (2 noson).




**Ffigur 23. Hyd arhosiad ymwelwyr ar gyfartaledd (mewn nosweithiau) yn 2022**

Mae Ffigur 24 yn dangos, ar gyfartaledd, bod safleoedd llety ym mhob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol ar agor am o leiaf 9 mis yn 2022, gyda safleoedd ar agor hiraf ym Mynydd Preseli (tua 10.5 mis).



**Ffigur 24. Nifer cyfartalog y misoedd pan oedd safleoedd llety ar agor yn 2022**

Mae Ffigur 25 yn dangos nifer y gweithwyr amser llawn a rhan-amser a oedd yn cael eu cyflogi gan y darparwyr llety. Ym Mynyddoedd Cambria a Mynydd Preseli, roedd darparwyr llety, ar gyfartaledd, yn cyflogi 1 aelod o staff rhan amser. Ym Mynyddoedd Cambria, ar gyfartaledd, nid oedd unrhyw aelodau staff amser llawn yn cael eu cyflogi, o'i gymharu â 0.25 ym Mynydd Preseli. Ym Mynyddoedd Blackstairs, roedd darparwyr llety ar gyfartaledd yn cyflogi un aelod o staff amser llawn ac un aelod rhan-amser; fodd bynnag, mae'r data hwn yn llawer llai cynrychioliadol o'r rhanbarth, o ystyried bod hyn yn seiliedig ar ymatebion dau ddarparwr llety yn unig. Ym Mynyddoedd Wicklow, roedd y darparwyr llety ar gyfartaledd yn cyflogi 3.8 aelod o staff amser llawn a 4.9 aelod o staff rhan amser. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn cynrychioli'r sampl, a oedd yn cynnwys dau ddarparwr llety mawr wedi'u gwasanaethu, a oedd yn cyfrif am 78% o gyfanswm y staff amser llawn ac 84% o staff rhan-amser pob darparwr yn yr ardal.




**Ffigur 25. Nifer cyfartalog y gweithwyr fesul darparwr llety**

#### 4.3.2.3 Marchnata

Mae Ffigur 26 yn dangos mai'r dull mwyaf poblogaidd o farchnata llety oedd ar-lein, drwy wefan trydydd parti, er bod marchnata drwy wefan breifat yn dilyn hyn yn agos. Y trydydd dull mwyaf poblogaidd oedd ar lafar.






**Ffigur 26. Y 3 dull mwyaf poblogaidd o farchnata llety**

Ar gyfer darparwyr llety a oedd yn marchnata eu safle drwy wefan trydydd parti, y safle a oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf oedd Airbnb, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan 33% o ddarparwyr. Y ddau safle mwyaf poblogaidd arall a ddefnyddiwyd oedd Booking.com (8%) a Sykes Holiday Cottages (8%).

Gofynnwyd i ddarparwyr llety hefyd a ydynt wedi newid eu strategaeth farchnata oherwydd unrhyw weithgareddau yn y prosiect CUPHAT y maent wedi ymgysylltu â nhw. Mae Ffigur 27 yn dangos bod 21% o'r darparwyr sydd wedi clywed am brosiect CUPHAT wedi newid eu strategaethau marchnata o ganlyniad i weithgareddau a gynhaliwyd o fewn prosiect CUPHAT, ond ni nodwyd sut.




**Ffigur 27. Darparwyr llety sy'n ymwybodol o CUPHAT ac sydd wedi newid eu strategaeth farchnata o ganlyniad i weithgareddau CUPHAT**

Mae Ffigur 28 yn dangos bod y mwyafrif helaeth o ddarparwyr llety ym mhob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol yn credu bod gwesteion yn ymweld i fwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traethau (100% o ddarparwyr ym Mynyddoedd Cambria, Wicklow a Blackstairs). Credir mai'r ail reswm mwyaf cyffredin dros ymweld yw cymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored (o leiaf 75% o ddarparwyr Mynyddoedd Cambria, Mynydd Preseli a Mynyddoedd Wicklow). Yn ogystal, dywedodd 100% o ddarparwyr llety ym Mynydd Preseli mai'r rheswm bod eu gwesteion yn ymweld oedd er mwyn ymweld â safleoedd hanesyddol, diwylliannol neu grefyddol, o'i gymharu â rhwng 35 a 55% o ddarparwyr yn y tair ardal ucheldir arfordirol arall.




#### 4.3.2.5 Rhwystrau

Mae'r pum prif her a nodwyd gan ddarparwyr llety o ran denu gwesteion i aros yn eu llety wedi'u nodi yn Ffigur 29. Yr her a nodwyd amlaf oedd cyfyngiadau marchnata neu hysbysebu, a nodwyd gan 30% o'r holl ddarparwyr llety, ac yna cysylltiadau trafnidiaeth gwael (19%), natur anghysbell (15%) a'r ffaith nad yw ardaloedd ucheldir arfordirol yn fwy adnabyddus (15%).



**Ffigur 29. Y 5 prif her a nodwyd gan ddarparwyr llety o ran denu gwesteion**


Mae Ffigur 30 yn amlinellu'r prif rwystrau y mae darparwyr llety yn teimlo sy'n atal gwesteion rhag aros yn hirach gyda nhw yn yr ucheldiroedd arfordirol. Y rhwystr a grybwyllwyd amlaf oedd diffyg amwynderau neu wasanaethau (sy'n cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus), y cyfeiriwyd ato gan 41% o'r holl ddarparwyr llety. Mae rhwystrau eraill yn cynnwys diffyg atyniadau mawr i dwristiaid (11%) a'r ffaith bod arosiadau byr yn gyffredin ymysg cerddwyr/beicwyr (11%), yn enwedig ym Mynyddoedd Wicklow gyda gwesteion yn teithio ar Ffordd Wicklow, yn ogystal â diffyg gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael/yn cael ei gynnig yn yr ardal (7%).



**Ffigur 30. Y prif rwystrau a nodwyd gan ddarparwyr llety sy'n atal gwesteion rhag aros yn hirach yn yr ardal**


Gofynnwyd i ddarparwyr llety hefyd a oeddent yn teimlo y byddai darpar ymwelwyr tramor yn fwy tebygol o ymweld â'r ardal nawr ac a oedd hyn oherwydd gwaith CUPHAT. Roedd y safbwyntiau'n gymysg gyda mwy o ddarparwyr ym Mynyddoedd Cambria yn dweud eu bod yn meddwl y byddai'n arwain at fwy o ymwelwyr tramor yn dod i'r ucheldiroedd arfordirol o ganlyniad i weithgarwch CUPHAT. Mae Ffigur 31 yn dangos:

- Ym Mynyddoedd Cambria, roedd hanner y darparwyr llety a oedd yn ymwybodol o CUPHAT (25% o'r holl ymatebwyr) yn teimlo bod ymwelwyr tramor yn fwy tebygol neu'n debygol o fod yn fwy tebygol o ymweld â'r ardal o ganlyniad i waith CUPHAT.
- Ym Mynyddoedd Wicklow, dim ond 13% o'r darparwyr llety a oedd yn ymwybodol o CUPHAT (8% o'r holl ymatebwyr) oedd yn teimlo bod ymwelwyr tramor yn fwy tebygol o ymweld â'r ardal o ganlyniad i'r prosiect.
- Ym Mynydd Preseli a Mynyddoedd Blackstairs, roedd darparwyr llety yn ansicr a fyddai gwaith CUPHAT yn annog mwy o ymwelwyr tramor i ymweld â'r ardal, o bosibl am ei bod yn rhy gynnar i ddweud.



**Ffigur 31. Barn darparwyr llety ynghylch a fyddai gwaith CUPHAT yn annog mwy o ymwelwyr tramor i ymweld â'r ardal.**

Mae Ffigur 32 yn nodi ymatebion darparwyr llety i gwestiwn a oedd yn gofyn a oeddent yn teimlo bod CUPHAT wedi eu helpu i oresgyn unrhyw heriau neu rwystrau, mewn perthynas â chyfran y darparwyr llety a oedd yn ymwybodol o'r prosiect ar adeg cwblhau'r arolwg. Roedd hanner y darparwyr llety a arolygwyd ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd Wicklow a oedd yn ymwybodol o CUPHAT yn teimlo bod y prosiect wedi helpu neu y bydd yn eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau. Fodd bynnag, ym Mynyddoedd Blackstairs a Mynydd Preseli, nid oedd yr un o'r darparwyr hynny (2 i gyd) a oedd yn ymwybodol o'r prosiect i ddechrau yn teimlo ei fod wedi helpu/y byddai'n eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau, er na eglurwyd pam ddim. Dylid nodi hefyd bod yr ymatebwyr hyn o ochr Carlow o Fynyddoedd Blackstairs felly efallai nad ydynt yn adlewyrchu'r rheini yn ardal Wexford.



**Ffigur 32.** Cyfran y darparwyr llety sy'n ymwybodol o CUPHAT mewn perthynas â'r gyfran sy'n teimlo bod y prosiect wedi helpu neu y bydd yn helpu i oresgyn unrhyw heriau neu rwystrau

#### 4.3.2.6 Treftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol leol


Mae'r cymylau geiriau a ddangosir yn Ffigurau 33a-d yn nodi barn darparwyr llety yng Nghymru ac Iwerddon am dreftadaeth naturiol a diwylliannol/hanesyddol yr ucheldiroedd arfordirol ym mhob gwlad. Maent yn dangos yr ystyrir mai nodweddion allweddol treftadaeth naturiol yn ucheldiroedd arfordirol Cymru yw mynyddoedd, coedwigoedd, afonydd a llwybrau'r arfordir, yn ogystal â thawelwch. Yn yr un modd, mae'n dangos mai nodweddion allweddol treftadaeth naturiol yn ucheldir arfordirol Iwerddon oedd llwybrau mynydd, llwybrau cerdded, mynyddoedd, coedwigoedd a harddwch naturiol heb ei ddifetha.

O ran treftadaeth hanesyddol/diwylliannol, mae'r ffigurau'n dangos mai'r Gymraeg neu siarad Cymraeg, mwngloddio a chrefftau yw'r nodweddion a ddyfynnir amlaf gan ddarparwyr llety ym Mynyddoedd Cambria a Mynydd Preseli. Yn ucheldiroedd arfordirol Iwerddon, cyfeiriodd darparwyr llety at hanes a chysylltiad â Chanada fel agweddau allweddol

o dreftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol; fodd bynnag, dywedodd nifer o ddarparwyr hefyd nad oedd eu treftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol wedi'i datblygu'n ddigonol.



**Ffigur 33a. Dealltwriaeth darparwyr llety yng Nghymru o dreftadaeth naturiol Mynyddoedd Cambria a Mynydd Preseli**



**Ffigur 33b. Dealltwriaeth darparwyr llety yng Nghymru o dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol Mynyddoedd Cambria a Mynydd Preseli**



**Ffigur 33c. Dealltwriaeth darparwyr llety Gwyddelig o dreftadaeth naturiol Mynyddoedd Wicklow a Blackstairs**




**Ffigur 33d. Dealltwriaeth darparwyr llety yn Iwerddon o dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol Mynyddoedd Blackstairs a Wicklow**

Mae Ffigur 34 yn amlinellu sut mae darparwyr llety ym mhob ardal ucheldir arfordirol yn ystyried bod ymwybyddiaeth eu gwesteion o dreftadaeth naturiol leol yn well na'u hymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol neu hanesyddol leol). Ym Mynyddoedd Cambria, teimlai darparwyr llety fod gan westeion lefel uwch o ymwybyddiaeth o dreftadaeth naturiol yr ardal, gyda lefel gyfartalog o 4.5 allan o 10, o'i gymharu â 2.5 ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol. Yn yr un modd, ym Mynydd Preseli, teimlai darparwyr llety fod gan westeion, ar gyfartaledd, lefel o ymwybyddiaeth o 5 allan o 10 ar gyfer treftadaeth naturiol, o'i gymharu â 4 allan o 10 ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol.


Yn Iwerddon, roedd darparwyr llety ym Mynyddoedd Blackstairs yn ystyried bod gan westeion lefel uwch o ddealltwriaeth o dreftadaeth naturiol na threftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol, gyda lefel gyfartalog o 7.5 o'i gymharu â 4. Dywedodd darparwyr llety ym Mynyddoedd Wicklow fod gan westeion, ar gyfartaledd, lefel o ymwybyddiaeth o dreftadaeth naturiol o 5.2 allan o 10, o'i gymharu â 4.5 allan o 10 ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol.






**Ffigur 34. Barn darparwyr llety ar lefel ymwybyddiaeth gwesteion o dreftadaeth leol**

Gofynnwyd i ddarparwyr llety hefyd am eu cysylltiadau â darparwyr safleoedd treftadaeth naturiol, diwylliannol neu hanesyddol yn eu hardal leol (Ffigur 35) ac a ydynt yn darparu gwybodaeth am hyn i'w gwesteion (Ffigur 36). Ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd Wicklow, mae gan 40% o ddarparwyr llety gysylltiadau â darparwyr safleoedd treftadaeth, o'i gymharu â 25% ym Mynydd Preseli a 50% ym Mynyddoedd Blackstairs; fodd bynnag, ar gyfer yr olaf, mae hyn yn cyfeirio at un darparwr yn unig.



**Ffigur 35. Cyfran y darparwyr llety sydd â chysylltiadau â darparwyr safleoedd treftadaeth lleol naturiol, diwylliannol neu hanesyddol**

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr llety ym Mynyddoedd Cambria, Mynydd Preseli a Mynyddoedd Wicklow yn darparu gwybodaeth neu ddeunydd hyrwyddo i'w gwesteion am dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol neu hanesyddol eu hardal leol, fel y dangosir yn Ffigur 35, gyda 100% o ddarparwyr llety ym Mynyddoedd Cambria a 95% o ddarparwyr ym Mynyddoedd Wicklow yn cynnig y wybodaeth hon i westeion.



**Ffigur 36. Cyfran y darparwyr llety sy'n darparu gwybodaeth neu ddeunydd hyrwyddo i westeion am dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol neu hanesyddol eu hardal leol.**


Mae Ffigur 37 yn dangos bod darparwyr llety yn cynnig gwybodaeth neu ddeunydd hyrwyddo am dreftadaeth leol i'w gwsteion mewn tair prif ffordd. Mae 50% o ddarparwyr llety yn darparu'r wybodaeth hon drwy gyhoeddiadau wedi'u hargraffu, 30% drwy dafod leferydd ac 20% yn electronig, naill ai drwy e-bost neu drwy wefan breifat.



**Ffigur 37. Y fformat ar gyfer darparu gwybodaeth neu ddeunydd hyrwyddo am dreftadaeth leol i westeion**

Gofynnwyd i ddarparwyr llety a oeddent yn teimlo bod CUPHAT wedi eu helpu i ddarparu rhagor o wybodaeth am dreftadaeth leol i'w gwsteion. Mae Ffigur 38 yn dangos cyfran y darparwyr llety ym mhob ardal ucheldir arfordirol a oedd yn ymwybodol o brosiect CUPHAT o'i gymharu â'r gyfran sydd wedi cael cymorth gan CUPHAT i ddarparu rhagor o wybodaeth am dreftadaeth leol i westeion. Mae hyn yn dangos bod 12.5% o'r darparwyr llety ym Mynyddoedd Cambria wedi cael cymorth gan CUPHAT, sy'n cyfateb i 25% o gyfanswm y darparwyr llety a oedd yn ymwybodol o brosiect CUPHAT. Ym Mynydd Preseli, dim ond 1 darparwr llety (25%) oedd wedi clywed am CUPHAT ond nid oedd y darparwr hwn yn ystyried bod CUPHAT wedi eu helpu i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am dreftadaeth leol i'w gwsteion. Ym Mynyddoedd Wicklow, mae 23% o

ddarparwyr llety wedi cael cymorth gan brosiect CUPHAT, sy'n cyfateb i 37.5% o'r darparwyr a oedd wedi clywed am brosiect CUPHAT. Ym Mynyddoedd Blackstairs roedd y darparwr a oedd wedi clywed am CUPHAT hefyd yn teimlo bod y prosiect wedi eu helpu i ddarparu rhagor o wybodaeth am dreftadaeth leol i'w gwesteion. Gan nad oedd CUPHAT wedi cynhyrchu unrhyw ddeunydd penodol eu hunain pan gynhaliwyd yr arolwg, tybir bod gweithgarwch CUPHAT wedi galluogi'r darparwyr llety hyn i ddarparu naill ai eu gwybodaeth eu hunain am yr ardaloedd neu i ddod o hyd i wybodaeth a gynhyrchwyd gan eraill.



**Ffigur 38. Darparwyr llety sy'n ymwybodol o CUPHAT mewn perthynas â'r gyfran sy'n credu bod CUPHAT wedi helpu i ddarparu gwybodaeth am dreftadaeth leol i'w gwesteion**

#### 4.3.3 Canfyddiadau'r cyfweiliad

Cynhaliwyd cyfanswm o 14 o gyfweiliadau gyda darparwyr llety a busnesau lleol, roedd hyn yn cynnwys 8 yng Nghymru a 6 yn Iwerddon. Y targed oedd cyfweld 24, felly dim ond 58% a gyflawnwyd. Fodd bynnag, roedd hyn yn darparu amrywiaeth dda o safbwyntiau, a oedd yn mynd i'r afael â'r prif faterion.

Mae'r canfyddiadau allweddol sydd naill ai'n cyfrannu at y llinell sylfaen neu'n dangos effaith CUPHAT fel a ganlyn.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – CYFWELIADAU BUSNESAU TWRISTIAETH

### Canfyddiadau allweddol sy'n dangos effaith CUPHAT

**Ymwybyddiaeth** Roedd tua hanner y rhai a gyfwelwyd yn ymwybodol o CUPHAT.

#### Marchnata

- Roedd CUPHAT yn cynnig mwy o gyfleoedd i farchnata'r ardaloedd yn well, yn enwedig ymgyrch broffesiynol gydlynol, wedi'i thargedu, sydd wedi'i hamseru'n dda, a fyddai o fudd mawr i'r busnesau twristiaeth llai a fyddai, gobeithio, yn annog ymwelwyr i aros yn hirach yn yr ucheldiroedd arfordirol.
- Mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo a chadw'r ardaloedd yn unigryw o ran apêl wledig. Y gobaith oedd y gallai gwell marchnata drwy CUPHAT greu cydbwysedd o ran denu mwy o dwristiaeth adfywiol i'r ardaloedd.

#### Rhwystrau sy'n atal denu ymwelwyr tramor

- Y rhwystr mwyaf arwyddocaol oedd trafnidiaeth, yn enwedig y lleoliadau gwledig sy'n ei gwneud yn anodd i bobl nad ydynt yn gallu teithio mewn car preifat, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, prisiau rhentu ceir uchel, a hyder. Rhwystrau cyffredin eraill ar gyfer y pedair ardal oedd mynediad at wybodaeth am yr ardaloedd a diffyg cyfleusterau ac amwynderau.
- Yn Iwerddon, problem benodol oedd bod grwpiau teithio ond yn cynnwys y prif fannau poblogaidd i dwristiaid yn eu teithiau, felly prin yw'r cyfleoedd i ymweld â mwy o leoliadau 'oddi-ar y ffordd'. Efallai y bydd cyfleoedd i archwilio ymhellach yma.

### Canfyddiadau allweddol sy'n cyfrannu at y waelodlin

#### Ymwelwyr â'r ardaloedd

- Yn Iwerddon, mae cyfran yr ymwelwyr tramor â'r ucheldir arfordirol rhwng 10-50%, mae llawer ohonynt yn arosiadau byr ac yn teithio, yn ymweld â'r teulu neu'n olrhain eu gwreiddiau.
- Yng Nghymru, mae cyfran yr ymwelwyr tramor â'r ucheldiroedd arfordirol yn isel ac mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn dod o Dde Cymru, Canolbarth Lloegr a Bryste. Maent yn aml yn dod am wyliau byr, yn enwedig ymwelwyr tramor, yn benodol oherwydd ei fod yn wyliau yng Nghymru, ar gyfer y dreftadaeth leol, heddwch a'r tawelwch, cerdded i ffwrdd o'r prif atyniadau i dwristiaid ac i gael profiad gwirioneddol Gymreig.
- Mae'n ymddangos bod mwy o bobl leol yn chwilio am wyliau byr ac mae llawer o bobl bellach yn chwilio am y ddarpariaeth Eco dwristiaeth.
- Yn syth ar ôl COVID, pan nad oedd pobl yn gallu teithio dramor, roedd yr holl ymatebwyr yn gweld niferoedd uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr yn teithio o du mewn i'r DU. Fodd bynnag, roedd archebion ar gyfer 2023 wedi gostwng, yn enwedig yn ardaloedd Cymru, o bosibl oherwydd ôl-effeithiau pandemig COVID-19, Brexit, y rhyfel yn Wcráin, y cynnydd cyffredinol mewn costau byw, a diffyg marchnata'r ardaloedd hyn gan y prif sefydliadau twristiaeth cenedlaethol a rhanbarthol.

#### Marchnata

- Cafodd busnesau eu hyrwyddo mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy eu gwefannau eu hunain a safleoedd llety trydydd parti (ee, VRBO ac Airbnb) neu drwy farchnata uniongyrchol

i'w cynulleidfa darged.

- Yng Nghymru, mynegodd yr holl fusnesau a gyfwelwyd yng Nghymru bryder ynghylch y ‘rheol 182 diwrnod’ newydd gan Lywodraeth Cymru sy’n ymwneud â busnes a’r dreth gyngor ac effaith hyn ar y stoc llety gyda sgil effeithiau ar fusnesau twristiaeth eraill. Yn ogystal, roedd pryderon ynghylch y ‘treth twristiaeth’ newydd arfaethedig.

**Ymgysylltu â threftadaeth** Gallai’r ardaloedd ddefnyddio’r dreftadaeth a’r diwylliant i annog mwy o bobl i ymweld â’r ucheldiroedd arfordirol ac roedd gwaith CUPHAT ar gasglu gwybodaeth am hanes lleol neu wrthrychau o ddiddordeb yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr.

**Yr effaith y mae CUPHAT wedi’i chael ar dwristiaeth.** Teimlai rhai busnesau ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fyddai CUPHAT yn gwneud gwahaniaeth gan mai dim ond am gyfnod cymharol fyr yr oedd y prosiect wedi bod yn rhedeg ac roedd yr allbynnau’n dal i gael eu cwblhau a’u lledaenu. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau’n gadarnhaol ynghylch potensial CUPHAT i wella twristiaeth yn y pedair ardal. Y prif effeithiau yr oedd CUPHAT wedi’u cael neu y byddai’n eu cael yn y dyfodol oedd gwell marchnata (h.y. gwella gwelededd yr ardaloedd, gwefan ‘siop un stop’ i gael gafael ar wybodaeth yn hawdd), rhwydweithio rhwng busnesau (h.y. annog pawb i weithio gyda’i gilydd gyda manteision eang i dwristiaeth yn gyffredinol, er enghraifft creu ymdeimlad o gymuned, datblygu amwynderau a chyfleusterau sylfaenol mewn pentref ac annog twristiaeth adfywiol) a chefnogi busnesau i fwrw ymlaen â’u syniadau.

Roedd argymhellion ar lafar ac ymwelwyr sy’n ymweld dro ar ôl tro hefyd yn gyffredin.

- Yng Nghymru, mae busnesau twristiaeth yn aml yn dibynnu ar ddarparwyr llety yn hyrwyddo eu gweithgareddau naill ai ar eu gwefannau neu drwy daflenni ac ystyrir hyn yn drefniant defnyddiol.

#### Ymgysylltu â threftadaeth

- Mae treftadaeth Iwerddon yn atyniad mawr i bobl, ac mae llawer o ymwelwyr yn chwilio am brofiad unigryw a dilys. Mae llawer o bobl yn ymweld â Chymru ar gyfer y traethau a gweithgareddau awyr agored fel cerdded.
- Ym mhob ardal nid yw ymwelwyr bob amser yn gwbl ymwybodol neu nid oes ganddynt wybodaeth helaeth am dreftadaeth ddiwylliannol, hanesyddol a naturiol yr ucheldir arfordirol.

Mae’r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg manylach o’r canfyddiadau. Nid yw’r trawsgrifiadau llawn yn cael eu darparu gan fod cyfweiliadau’n cael eu cynnal yn ddiennw fel nad oedd modd priodoli safbwyntiau i unrhyw unigolyn.

#### 4.3.3.1 Ymwelwyr

- **Iwerddon**

Yn Iwerddon, roedd y busnesau a gyfwelwyd yn denu amrywiaeth o ymwelwyr ar hyn o bryd, gyda phobl yn aros rhwng diwrnod ac wythnos, yn aml fel rhan o wyliau hirach yn ymweld â gwahanol lefydd ledled Iwerddon. Roedd agosrwydd porthladd Dulyn a Rosslaire i Fynyddoedd Wicklow a Blackstairs yn golygu bod y ddau leoliad yn aml yn safleoedd cyntaf i bobl sy'n teithio ymhellach i'r gorllewin. Mae rhai o'r darparwyr llety yn awyddus i'w hannog i aros yn hirach yn yr ardal.

*“Rydyn ni’n ceisio eu hannog i beidio â rhuthro i ffwrdd er mwyn iddyn nhw ymuno â darparwyr eco-dwristiaeth eraill yn yr ardal a chefnogi Blackstairs”  
(Darparwr llety yn Iwerddon)*

Daeth ymwelwyr o Iwerddon, y DU, gweddill Ewrop a thu hwnt. Roedd cyfran yr ymwelwyr tramor yn amrywio o 10% i 50% o nifer y gwesteion a oedd yn aros gyda'r darparwyr llety. Dim ond cyfran fach o ymwelwyr oedd ymwelwyr o'r DU.

*“Rwyf wedi cael pobl o UDA, Canada, Singapore, yr Almaen, Israel, Seland Newydd. Byddai'r rhan fwyaf o UDA os ydynt yn rhyngwladol, ond bydd rhai o Ewrop hefyd.” (Darparwyr llety yn Iwerddon)*

Mae llawer o deithwyr rhyngwladol yn ymweld i olrhain eu gwreiddiau neu i ymweld â chartref eu hynafiaid.

Roeddent wedi gweld newid ers COVID, gyda mwy o ymwelwyr lleol yn 2022, ond roedd archebion ar gyfer 2023 wedi bod yn araf ar gyfer llawer o'r darparwyr, ac eithrio darparwr llety ar Ffordd Wicklow yr oedd eu harchebion yn eithriadol o uchel.

*“Mae’n mynd yn brysurach bob blwyddyn. Rydw i’n gwybod bod rhai cerddwyr wedi gorfod rhoi'r gorau i'w taith i gwblhau ffordd Wicklow oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu dod o hyd i lety. Efallai y bydd yn iawn am y tri diwrnod cyntaf. Ond po fwyaf y byddwch chi’n treiddio i Fynyddoedd Wicklow, mae pob man yn llawn”.  
(Darparwr llety yn Iwerddon)*

Teimlwyd ei bod yn ymddangos bod mwy o bobl yn dod o ardaloedd mwy lleol am wyliau byr ac mae llawer o bobl bellach yn chwilio am ddarpariaeth twristiaeth Eco.

*“Mae'r brand cynaliadwyedd yn dechrau ehangu ychydig.”  
(Darparwr llety yn Iwerddon)*

Roedd busnes lleol arall yn Blackstairs yn denu ymwelwyr o UDA yn bennaf i fod yn rhan o'u rhaglen addysg, ond hefyd yn denu artistiaid ar gyfer preswyladau o bob rhan o Iwerddon yn ogystal ag o dramor.

Roedd y darparwyr llety yn denu cyplau yn bennaf, ond hefyd amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys teuluoedd a phobl yn ymweld ar gyfer digwyddiadau fel priodasau. Roedd ganddynt hefyd ganran dda o ymwelwyr a oedd yn dod yno dro ar ôl tro.

- **Cymru**

Yng Nghymru, mae ymwelwyr â Mynydd Preseli a Mynyddoedd Cambria naill ai'n ymweld am y diwrnod o'r ardaloedd cyfagos neu'n aros am hyd at wythnos. Maent yn aml yn dod am wyliau byr a bu symudiad tuag at fwy o bobl yn chwilio am wyliau byr yn hytrach nag aros am wythnos.

Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn teithio o Dde Cymru, Canolbarth Lloegr a Bryste ond hefyd o ardaloedd eraill, ond roedd cyfran yr ymwelwyr o dramor yn isel.

*"A dweud y gwir, dydyn ni ddim yn gweld twristiaid tramor yng Nghymru. Nid yw'n fater o fethu'n canfod ni, dydyn nhw ddim yn canfod Cymru."  
(Darparwr llety yng Nghymru)*

Yn syth ar ôl COVID, pan nad oedd pobl yn gallu teithio dramor, roedd yr holl ddarparwyr llety a busnesau twristiaeth wedi gweld niferoedd uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr yn teithio o du mewn i'r DU. Fodd bynnag, roedd nifer yr archebion ar gyfer 2023 wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer bron pob un a gafodd eu cyfweld, gydag un busnes twristiaeth yn dweud bod y niferoedd wedi gostwng 70%. Credid y gallai hyn fod oherwydd cyfuniad o resymau gan gynnwys ôl-ffeithiau cyfnod clo pandemig COVID-19, Brexit, y rhyfel yn Wcráin, y cynnydd cyffredinol mewn costau byw, a diffyg marchnata.

*"Dydw i ddim wedi gweld adferiad go iawn ar ôl y pandemig, os unrhyw beth, roedd gennym ni fwy o dwristiaeth yn ystod y pandemig na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Oherwydd roedd gennym y cyfnod hwnnw pan oeddem yn llawn gan nad oedd pobl yn gallu mynd i Sbaen."  
(Darparwyr llety yng Nghymru)*

Mae hyn wedi cael effaith benodol ar ymwelwyr tramor.

*"Roedd y farchnad dramor yn datblygu'n dda tan ddechrau 2020. Eleni, mae tua 5% o'r hyn y dylai 2020 fod."  
(Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Eithriad oedd hostel yr oedd ei niferoedd yn dal ar yr un lefel â'r lefelau blaenorol, gan ddenu gwesteion o bosibl oherwydd ei phrisiau is o'i gymharu â sectorau llety eraill, yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw presennol.

Roedd y math o ymwelwyr yn dibynnu ar y llety, y math o fusnes, yr union leoliad a'r amser o'r flwyddyn e.e. roedd llety glampio anghysbell yn denu cyplau'n bennaf, roedd gwyliau'r haf/ysgol yn denu mwy o deuluoedd.



Yn aml, mae pobl yn archebu'r llety gan eu bod yn 'hoffi ei olwg' yn hytrach nag oherwydd ei leoliad. Dywedwyd yn aml nad yw pobl wir yn gwybod i ble maen nhw'n mynd ac

yn aml ddim yn sylweddoli ei fod mewn ardal Gymraeg ei hiaith. Roedd hyn yn broblem benodol yn ystod cyfnod gwyliau gartref COVID lle mae'n bosibl na fyddai ymwelwyr a fyddai fel arfer wedi mynd ar wyliau dramor wedi gwneud eu hymchwil cyn archebu a disgwyl mwy o gyfleusterau fel pyllau nofio ac adloniant.

Dywedodd llawer eu bod yn denu 'math mwy craff o ymwelydd' sy'n chwilio am heddwch a thawelwch, profiad gwirioneddol Gymreig, neu'n cerdded i ffwrdd o'r prif fannau i dwristiaid ar arfordir Cymru.

Hoffai'r rhan fwyaf o ddarparwyr llety ddenu mwy o ymwelwyr tramor, yn enwedig yn ystod y tymor ysgwydd, ond nid ydynt yn siŵr sut i fynd ati.

*"Hoffwn fanteisio ar y farchnad dramor, ond heb edrych ar ddenu ymwelwyr tramor, ddim yn siŵr sut."  
(Darparwr llety yng Nghymru)*

Mae rhai ymwelwyr, ac yn enwedig y rheini o dramor, yn dod gan ei fod yn wyliau yng Nghymru, ac yn arbennig ar gyfer y dreftadaeth leol, ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn gwbl ymwybodol o'r dreftadaeth leol.

#### 4.3.3.2 Marchnata

- **Iwerddon**

Cafodd busnesau eu hyrwyddo mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy eu gwefannau eu hunain a safleoedd llety trydydd parti (e.e. VRBO ac Airbnb) neu drwy farchnata'n fwy uniongyrchol i'w cynulleidfau darged.

Soniodd un busnes llety a theithio am lwyddiant blogwyr a phodledwyr Faite Ireland sy'n postio lluniau a fideos drôn a oedd wedi helpu i roi hwb go iawn i broffil eu busnes. Roedd hyn yn bosibl oherwydd bod y busnes yn cael ei weld fel busnes eco-twristiaeth bach allweddol a oedd wedi ennill gwobrau, felly mae'n annhebygol bod y math hwn o farchnata ar gael i bob busnes, ond mae'n dangos pan fo'n digwydd, y gall helpu i wneud y busnes yn fwy amlwg.

Gallai pawb weld bod CUPHAT yn cynnig mwy o gyfleoedd i farchnata'r ardaloedd yn well. Mae'r llwyddiant a welwyd gan y busnes eco-dwristiaeth yn sgil ei broffilio gan Faite Ireland yn dangos yr effaith y gall marchnata llwyddiannus ei chael ar fusnes.

Credid y byddai ymgyrch farchnata gymwys sy'n cael ei rhedeg gan weithwyr proffesiynol gyda delweddau a fideos proffesiynol ac ati yn fuddiol iawn i'r busnesau twristiaeth llai a allai fod ar eu colled, neu'n fwy anodd dod o hyd iddynt ar gyfer y rhan fwyaf o dwristiaid.

Roedd amseru'n cael ei ystyried yn bwysig; mae angen gwneud unrhyw farchnata cyn mis Chwefror mewn unrhyw flwyddyn gydag unrhyw fewnbwn gan grwpiau cymunedol neu fusnesau twristiaeth bach y tu allan i'w cyfnodau prysur (h.y. yn ystod mis Hydref i fis Ionawr).

Dylai'r marchnata anelu at dargedu ymwelwyr tramor cyn iddynt gyrraedd Iwerddon a mwy o ymwelwyr lleol cyn iddynt gyrraedd yr ardaloedd penodol fel eu bod yn gallu cynllunio i aros am fwy nag un neu ddau ddiwrnod, gan gynnwys ymweld yn ystod y tymhorau ysgwydd ac annog pobl i ymweld â chyrchfannau oddi-ar y ffordd.

Ni fyddai ymgyrch farchnata newydd ar ei phen ei hun yn ddigon a dylid bwrw ymlaen â hi ar y cyd â sefydliadau eraill fel Failte Ireland a Wicklow Tourism.

*“Mae’n debyg y gallem wneud gyda phwynt gwybodaeth Twristiaeth yn Glendalough ei hun i wneud pobl/twristiaid sy’n ymweld yno’n fwy ymwybodol ac anfon pobl i lefydd eraill yn y sir.” (Busnes twristiaeth yn Iwerddon)*

Nodwyd hefyd bod angen cael cydbwysedd rhwng hyrwyddo a chadw’r ardaloedd yn unigryw o ran apêl wledig. Fodd bynnag, dim ond os ydynt yn denu digon o gwsmeriaid y bydd busnesau twristiaeth bach yn hyfyw yn ariannol. Roedd busnesau bach yn Wicklow yn ei chael hi’n anodd denu digon o ymwelwyr ar gyfer tymor 2023 oherwydd eu bod naill ai yn anghysbell, yn anodd cyrraedd atynt, neu oherwydd ei bod yn ymddangos bod llai o alw. Y gobaith oedd y gallai gwell marchnata ddod o hyd i gydbwysedd o ran denu mwy o dwristiaeth adfywiol i’r ardaloedd er mwyn dod o hyd i’r cydbwysedd hwnnw.

*“Yr hyn sy’n eironig am fusnesau / atyniadau twristiaeth adfywiol lleol gwirioneddol fach yw eu bod yn ddeniadol i ymwelwyr oherwydd eu bod allan o’r ffordd, mewn ardaloedd llai prysur.” (Darparwr llety yn Iwerddon)*

Awgrymodd darparwr llety yn Iwerddon y gellid anelu marchnata at lefydd penodol yr oedd pobl wedi ymfudo iddynt yn y gorffennol o Wicklow a Blackstairs. Gallai’r rhain fod yn America, Canada neu Awstralia, a gellid creu cysylltiadau ac annog pobl i ymweld, ac yna gellid eu hannog i ymweld â Chymru.

*“Mae Cymru yr un mor brydferth a gwyrdd. Felly nid wyf yn gwybod pam fod Iwerddon ar y pedestal yma?” (Darparwr llety yn Iwerddon)*

- **Cymru**

Roedd y rheini a gafodd eu cyfweld yn hyrwyddo eu busnes mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys taflenni, eu gwefannau eu hunain, a gwefannau trydydd parti fel VRBO. Roedd argymhellion ar lafar ac ymwelwyr sy’n ymweld dro ar ôl tro hefyd yn gyffredin.

*“Yn yr haf, byddwn yn cael trosiant ardderchog. Na, does gennym ni ddim problem yn hysbysebu’r lle mewn gwirionedd, mae’n cael pobl i ddod yn ystod y gaeaf.” (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Roedd busnesau twristiaeth hefyd yn dibynnu ar ddarparwyr llety yn hyrwyddo eu gweithgareddau naill ai ar eu gwefannau neu drwy daflenni. Er nad yw pob darparwr llety yn fodlon gwneud hyn.

Mae Rheilffordd Cwm Rheidol wedi canfod bod 50% o bobl yn dod i wybod am yr atyniad o daflen, 25% ar lafar, 20% yn ymwelwyr sy'n dychwelyd a 4% drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd rhai busnesau ar wefan Croeso Cymru; fodd bynnag, roedd y gost weithiau'n cael ei hystyried yn afresymol i fusnesau llai.

*“Mae'n ymddangos bod pawb eisiau cymryd eu darn bach  
nhw o'r gacen, gan adael dim digon o arian i ni  
oroesi.”*

*(Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

#### 4.3.3.3 Rhwystrau sy'n atal denu ymwelwyr tramor

Nodwyd rhwystrau tebyg gan fusnesau yn y ddwy wlad.

**Trafnidiaeth** oedd y rhwystr mwyaf arwyddocaol a nodwyd, yn enwedig y lleoliadau gwledig 'diarffordd' sy'n gallu ei gwneud yn anodd i bobl nad oes ganddynt fynediad at gar preifat neu sy'n dymuno teithio mewn car preifat. Roedd diffyg trafndiaeth gyhoeddus yn cael ei ystyried yn broblem a all atal rhai pobl rhag teithio i'r ardaloedd mwy anghysbell hyn. Llwyddodd rhai darparwyr llety i oresgyn y rhwystr hwn drwy gynnig gwasanaeth casglu lleol a oedd yn cyd-fynd â'u cynnig twristiaeth gynaliadwy. Cydnabuwyd na allai prosiect fel CUPHAT o reidrwydd ddatrys 'diffyg trafndiaeth gyhoeddus' yn yr ardaloedd anghysbell hyn, ond roedd llawer yn gobeithio y gallai CUPHAT godi'r mater ymhellach er mwyn gwneud gwelliannau e.e. mwy o fysiau ac arosfannau a mwy o ffocws ar rai lleoliadau gwledig yn hytrach na dim ond y dinasoedd a'r trefi mawr. Nid oedd trafndiaeth yn cael ei gweld fel rhwystr gan bawb gan y byddai llawer o ymwelwyr yn teithio mewn car beth bynnag felly maent yn ymwybodol o hyn ymlaen llaw ac mae eraill yn cael eu denu i'r ardal oherwydd ei natur anghysbell a'i diffyg hygyrchedd.

Gall y pellter oddi wrth feysydd awyr rhyngwladol a diffyg trafndiaeth gyhoeddus atal ymwelwyr tramor os nad ydynt yn bwriadu llogi car. Hyd yn oed wrth deithio mewn car, mae problemau'n ymwneud â phrisiau rhentu ceir uchel, pellter hir i yrru, a fethu gyrru neu ddiffyg hyder i yrru ar y ffyrdd gwledig cul i gyrraedd yr ardaloedd mwy anghysbell sy'n gallu bod yn rhwystrau rhag ymweld.

*“Gellid gwella llwybrau a chysylltiadau trafndiaeth – mae ffordd wael  
yn teimlo fel taith lawer hirach i gyrraedd yma.” (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Rhwyrstr arall yw **gwybodaeth**. Os nad yw pobl yn gwybod am ardal na allan nhw ymweld â hi. Bydd rhai pobl yn gwneud ymdrech i chwilio am wybodaeth ond i eraill mae angen iddi fod yn fwy hygyrch. Mae rhai ymwelwyr eisiau mynd i ardal lle mae amrywiaeth o bethau i'w gwneud, llefydd i fwyta ac ati, felly gallai peidio â gwybod beth arall sydd ar gael mewn ardal atal pobl rhag ymweld, hyd yn oed os oeddent wedi dod o hyd i rywle i aros. Fodd bynnag, i eraill, efallai mai'r llety yw'r prif atyniad ynddo'i hun.

*“Gallwn gael yr holl drafndiaeth gyhoeddus yn y byd. Ond os  
nad yw'n cael ei hyrwyddo, ni fydd pobl yn ymwybodol ohono. Felly,  
rwy'n credu mai'r prif un yw hyrwyddo. Yn amlwg, mae pob lle bach  
yn ceisio gwneud hynny eu hunain. Ond rwy'n meddwl y gellid  
gwneud hyn ar lefel genedlaethol ac ar lefel ryngwladol, byddai  
hynny'n well.” (Darparwyr llety yn Iwerddon)*



*“Mewn gwirionedd, mae’n uno ychydig mwy o ddotiau. Pe gallem ddenu mwy o bobl i Iwerddon o dramor, i brofi’r Blackstairs a threulio dwy neu dair noson yma neu gyda’r darparwyr eraill yr wyf yn eu hadnabod, byddwn i gyd yn eu hennill os ydym i gyd yn gweithio gyda’n gilydd.” (Darparwyr llety yn Iwerddon)*

*“Mae cymaint o wybodaeth ar-lein, ond os nad ydyn nhw’n gwybod beth i chwilio amdano, efallai y byddan nhw’n ei cholli.”  
(Darparwr llety yng Nghymru)*

Mae rhai o’r darparwyr llety yn rhoi gwybodaeth i’w gwesteion am yr ardal, gan gynnwys gweithgareddau i’w gwneud, llefydd i ymweld ac ati, sy’n gallu helpu i annog pobl i aros yn hirach.

*“Rwy’n meddwl bod hynny’n atyniad mawr pan fydd pobl yn dod yma. Mae rhai pobl yn hoffi cael y tawelwch yn y tŷ, ac mae rhai pobl yn hoffi teithio o gwmpas.” (Darparwr llety yn Iwerddon)*

Ystyriwyd bod **diffyg cyfleusterau ac amwynderau** yn rhwystr i bobl ymweld â rhai o’r ardaloedd mwy anghysbell. Yn Iwerddon, roedd hyn yn cynnwys diffyg caffis, meysydd parcio, llety arbenigol/lleol/teuluol a thoiledau cyhoeddus. Yng Nghymru, nodwyd y diffyg canolfannau ymwelwyr ac arwyddion da.

Yn ogystal, codwyd rhai rhwystrau a heriau a oedd yn benodol i bob gwlad.

Yn Iwerddon, un mater a godwyd oedd bod **grwpiau teithiau** ond yn cynnwys y prif fannau poblogaidd i dwristiaid yn eu teithiau ac felly ychydig iawn o gyfleoedd sydd ar gael i’r rheini sydd eisiau teithio fel rhan o daith i ymweld â rhai o’r lleoliadau mwy gwledig diarffordd a gweld ‘gwir’ ddiwylliant ardal. Gellid annog teithiau i ymweld ag un neu ddau o bentrefi gwledig eraill a chymryd rhan yn y diwylliant a’r dreftadaeth leol, a gallai hyn wedyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn yr ardal honno gan arwain at glwstwr o lefydd i’r daith ymweld â hi. Gallai fod cyfleoedd ar gyfer teithiau ar gyfer ymweliadau tramor i gysylltu ardaloedd yng Nghymru ac Iwerddon fel rhan o becyn gyda’r nod o weld yr ucheldiroedd arfordirol mwy anghysbell gyda phrofiad diwylliannol gwirioneddol ddilys o Iwerddon a Chymru.

Yn Iwerddon, ystyriwyd bod **cymorth ariannol** i fusnesau bach a grwpiau cymunedol yn y sector twristiaeth yn rhwystr i wella’r seilwaith twristiaeth lleol sydd ei angen i ddenu ymwelwyr. Mae’n anoddach i fusnesau bach gael gafael ar gyllid sydd ar gael i sefydliadau mwy neu fudiadau sy’n cael eu rhedeg gan y wladwriaeth.

Roedd un darparwr llety yn Iwerddon yn teimlo bod gan eu hardal lawer o **fanteision** yn hytrach na rhwystrau oherwydd eu bod yn agos at Ddilyn, a’u lleoliad canolog, gyda mynediad hawdd at lawer o atyniadau ac amwynderau i ymwelwyr. Gellid manteisio ar hyn ymhellach.

Mynegodd yr holl fusnesau a gyfwelwyd yng Nghymru bryder ynghylch **‘rheol 182 diwrnod’ newydd Llywodraeth Cymru**, lle mae’n rhaid i uned hunanarlwyo gael ei defnyddio am 182

diwrnod y flwyddyn i fod ar dreth cyfradd fusnes is yn hytrach na'r dreth gyngor uwch. Cafodd y rheol ei chyflwyno'n wreiddiol gan fod cynifer o ail gartrefi yn dynodi eu hunain yn 'fusnesau' er mwyn osgoi costau treth cyngor uwch.



Fodd bynnag, mae hyn nid yn unig yn effeithio ar berchnogion ail dai ond mae hefyd yn cael effaith enfawr ar ffermwyr bach sydd wedi cael eu hannog i arallgyfeirio i dwristiaeth drwy droi adeiladau fferm nad ydynt yn cael eu defnyddio yn llety hunanarlwyo. Ni fydd llawer o'r rhain bellach yn gallu cyrraedd y trothwy 182 diwrnod, a bydd y dreth gyngor uwch yn golygu na fydd eu busnes llety hunanddarpar yn hyfyw. Bydd gostyngiad yn y stoc llety yn cael effaith ganlyniadol ar fusnesau twristiaeth eraill sy'n dibynnu ar bobl sy'n aros yn yr ardaloedd.

*"Mae'r rhain yn rhifau nad ydym erioed wedi gallu eu cyflawni yn y rhan hon o Gymru. Ni fydd yn fusnes hyfyw...nid yw hyd yn oed yn adeiladau y gallai unrhyw un fyw ynddo,,, ni all fod yn gartref i neb...mae hynny wedi ei nodi yn benodol yn y caniatâd cynllunio na all neb fyw ynddo" (Darparwr llety yng Nghymru)*

*"Yn fy marn i, mae'r rheol 182 diwrnod yn mynd i ladd tua thraean o stoc ein bythynnod gwyliau. Ac rydw i wedi clywed am lawer sydd wedi cau ac wedi gwerthu. A phan maen nhw wedi gwerthu, dydyn nhw ddim yn gwerthu i gyplau ifanc o Gymru, maen nhw'n gwerthu i bobl sy'n ymddeol o Loegr." (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Bydd hefyd yn golygu y bydd twristiaid yn canolbwyntio yn yr ardaloedd mwyaf poblogaidd megis De Sir Benfro.

*"Bydd yn colli gwir brofiad diwylliannol Cymru a gewch yn yr ucheldiroedd mwy gwledig hyn." (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Soniodd nifer o fusnesau yng Nghymru a gyfwelwyd hefyd am yr effaith y gallai'r **'treth ymwelwyr'** newydd arfaethedig ei chael ar ymwelwyr â Chymru. Os bydd ymwelwyr yn meddwl y bydd yn costio ychydig yn fwy iddyn nhw aros yng Nghymru, efallai y byddan nhw'n penderfynu mynd i rywle arall yn y DU nad oes ganddyn nhw dreth ar dwristiaeth.

*"Pan edrychwch ar hynny o safbwynt unrhyw un yn Lloegr, maent yn edrych i ddod i Gymru, ac maent yn clywed am y dreth dwristiaeth. Mae'n ddiferyn arall i'w hatal rhag dod i Gymru." (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Hefyd, gellir gweld y **Gymraeg** fel rhwystr i ymwelwyr, ond dylid ei defnyddio fel agwedd gadarnhaol i annog ymwelwyr i'r ardal.

*"Mae Ceredigion yn cael ei weld fel un o gadarnleoedd olaf y Gymraeg".*

#### 4.3.3.4 Ymgysylltu â threftadaeth

- **Iwerddon**

Mae gan y rhan fwyaf o bobl sy'n ymweld ag Iwerddon rywfaint o wybodaeth am dreftadaeth Iwerddon ac mae hyn yn atyniad mawr i bobl. Fodd bynnag, efallai nad ydynt bob amser yn gwbl ymwybodol nac yn meddu ar wybodaeth helaeth am dreftadaeth ddiwylliannol, hanesyddol a naturiol yr ucheldir.

Gall lletydwyr roi gwybodaeth i'w gwesteion am ddiwylliant, hanes a syniadau am lefydd i fynd a phethau i'w gwneud, ac mae llawer o bobl yn manteisio ar y wybodaeth leol hon.

*“Rydw i’n dweud wrthyn nhw pa hanes rydw i’n ei wybod am yr ardal, rydw i’n dweud wrthyn nhw am y mynyddoedd. Mae gennym lyfr hyfryd a ysgrifennwyd gan fynyddwyr Gwyddelig yn ystod COVID, sydd gennyf sy’n manylu ar yr holl lwybrau ar y mynyddoedd.”*  
(Darparwr llety yn Iwerddon)

*“Ac rydyn ni’n siarad am bopeth o grefydd, hyd yn oed i’r landlordiaid a’r brwydrau y byddem wedi’u cael gyda Lloegr, ac rwy’n credu bod pobl wrth eu bodd yn clywed yr hanes hwnnw, a sut mae hynny’n cyd-fynd â sut mae teuluoedd yn ffithio i hanes Iwerddon a’r byd.”*  
(Darparwr llety yn Iwerddon)

Ystyriwyd bod gwaith CUPHAT ar gasglu gwybodaeth am hanesion lleol neu wrthrychau o ddiddordeb yn llwyddiannus ac roedd wedi bod yn ddefnyddiol drwy ddarparu llwyfan i dwristiaeth adeiladu arno lle gall pobl gael gafael ar y wybodaeth am y lle.

*“Mae llawer o bethau wedi’u cuddio o dan yr wyneb y gellid eu datgelu a’u cysylltu i bobl eu mwynhau pan fyddant yn ymweld yma. Rwy’n meddwl bod hynny’n adnodd gwerthfawr iawn i’w amlygu i’r gymuned, ond hefyd i’w gasglu a’i wneud yn ddigidol, oherwydd dyna sut rydyn ni’n dod i wybod am bethau nawr”* (Busnes twristiaeth yn Iwerddon)

Mae rhai ymwelwyr yn chwilio am brofiadau unigryw a dyls. Codwyd hyn gan un o’r busnesau yn Iwerddon a oedd wedi mynychu’r cwrs ac roedd wedi dod yn amlwg i’r rhai ar y cwrs eu bod i gyd yn cynnig rhywbeth gwahanol ond bod ganddynt set o werthoedd ar y cyd a’u bod yn gallu cefnogi ei gilydd.

- **Cymru**

Mae llawer o bobl yn ymweld â Chymru ar gyfer y traethau a gweithgareddau awyr agored fel cerdded, eraill oherwydd ei fod yn lle braf i ymweld ag ef neu oherwydd eu bod yn hoffi’r llety yn benodol yn hytrach na bod eisiau ymweld â Chymru’n benodol.

*“Dydy rhai pobl ddim hyd yn oed yn sylweddoli eu bod yn dod i Gymru – efallai eu bod wedi dod o hyd i’r llety gan ei fod yn edrych yn neis.”*  
(Darparwr llety yng Nghymru)

Byddant yn gwybod am rai agweddau ond efallai nad oes ganddynt wybodaeth ddyfnach am y dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol leol.

Mae llawer o ddarparwyr llety a gyfwelwyd yn darparu gwybodaeth am dreftadaeth yr ardal, ac yn aml maent yn canfod nad yw nifer fawr o bobl ymweld oherwydd y dreftadaeth ond mae ganddynt ddiddordeb pan fyddant yn gwybod amdani, ac yn aml eisiau gwybod mwy.

*“Mae pobl yn gadael gan wybod mwy am dreftadaeth yr ardaloedd nag yr oeddent.” (Darparwr llety yng Nghymru)*

*“Pan fyddwch chi’n mynd â nhw allan o’r rhuthr gwallgof i weld y llefydd y mae’n rhaid eu gweld, maen nhw wir yn gwerthfawrogi cymryd hoe fach i fwynhau ychydig o heddwch a thirweddau tawel a gwahanol a’r straeon yn y tirweddau hynny.” (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Credai llawer y gallai’r ardaloedd ddefnyddio’r dreftadaeth a’r diwylliant i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn twristiaeth yn yr ucheldiroedd arfordirol hyn, er enghraifft hanes cloddio Mynyddoedd Cambria neu gerrig glas Mynydd Preseli.

*“Mae’r Cymry yn fwy amharod i arddangos eu hunain - mae angen canu a dawnsio mwy amdano.”*  
*(Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Pe bai pobl yn fwy ymwybodol o’r dreftadaeth leol, yna gellid defnyddio hyn hefyd i annog pobl i aros yn hirach yn yr ardal os ydynt yn ymwybodol o fwy o lefydd i ymweld â nhw a mwy o bethau i’w gwneud.

Mae CUPHAT wedi gweithio gyda busnesau twristiaeth i’w helpu i ddeall treftadaeth leol yr ardaloedd ac mae hyn bellach yn cael ei drosglwyddo i ymwelwyr.

*“Mae CUPHAT wedi rhoi ychydig o hwb i bawb, er mwyn rhoi teimlad ychydig yn fwy cadarnhaol i ddarpar ymwelwyr i ddangos beth sydd gan yr ardaloedd i’w gynnig.” (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

#### **4.3.3.5 Yr effaith y mae CUPHAT wedi’i chael ar dwristiaeth.**

Nid oedd tua hanner y rhai a gyfwelwyd yn ymwybodol o CUPHAT ac felly nid oeddent yn gallu rhoi sylwadau ynghylch a oedd wedi cael effaith ar dwristiaeth yn eu hardal neu a allai gael effaith yn y dyfodol.

Teimlai rhai ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fydd yn gwneud gwahaniaeth gan mai dim ond am gyfnod cymharol fyr yr oedd y prosiect wedi bod yn rhedeg ac roedd yr allbynnau yn dal i gael eu cwblhau ac felly nid ydynt wedi cael cyfle i gael effaith lawn ar dwristiaeth.

*“Yn ddealladwy, mae wedi gwneud gwahaniaeth ond nid ar lawr gwlad eto.”*

*(Darparwr llety yn Iwerddon)*

Fodd bynnag, roedd eraill a oedd wedi clywed am CUPHAT ac a oedd yn ymwybodol o'r gwaith yr oedd wedi'i wneud yn gadarnhaol am ei botensial i wella twristiaeth yn y pedair ardal. Roedd y prif effeithiau yr oedd CUPHAT wedi'u cael neu y byddai'n eu cael yn y dyfodol yn gyffredin i bob un o'r 4 ardal ucheldir yng Nghymru ac Iwerddon.

Bydd gwell marchnata drwy CUPHAT yn gwella gwelededd yr ardaloedd i dwristiaid a, gobeithio, yn annog mwy o bobl i ymweld â'r ardaloedd ac aros yn hirach. Byddai'n fuddiol i ymwelwyr gael 'siop un stop' fel gwefan CUPHAT lle gallant gael gafael ar yr holl wybodaeth am ardal mewn un lleoliad, yn hytrach na gorfod chwilio nifer o wefannau gwahanol.

*“Adnoddau cyfryngau a marchnata, cefnogaeth dda heb fod yn ormodol.”  
(Darparwr llety yn Iwerddon)*

Ar yr un pryd, dylai darparwyr unigol hefyd gael gwybodaeth benodol iawn ar eu gwefannau er mwyn i bobl gael gwybod beth sydd ar garreg eu drws yn ogystal ag yn yr ardal ehangach. Roedd CUPHAT yn galluogi hyn i ddigwydd hefyd drwy godi ymwybyddiaeth busnesau o'r dreftadaeth ledled eu hardal.

Gall marchnata hefyd ganolbwyntio ar leoliad yr ardaloedd hyn sy'n ddigon pell i ffwrdd o'r holl ardaloedd prysur i roi rhywfaint o heddwch a thawelwch ond sy'n dal yn ddigon agos i archwilio'r tirnodau a'r atyniadau hysbys cyfagos.

Dylai marchnata hefyd gysylltu â sefydliadau eraill ac nid ei ddyblygu, gan y byddai hyn yn ychwanegu ymhellach at nifer y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr.

Ystyriwyd bod **rhwydweithio** rhwng busnesau lleol ym mhob ardal a rhwng busnesau ar draws y pedair ardal yn ganlyniad cadarnhaol iawn a fyddai'n helpu pawb i weithio gyda'i gilydd gyda manteision eang i dwristiaeth yn yr ardal.

*“Mae wedi helpu rhai pobl i ryngweithio â'i gilydd a sefydlu rhywfaint o gydweithio. Rwy'n credu ei fod yr un mor bwysig ag unrhyw beth i bobl sy'n gweithio ym maes twristiaeth deimlo'n rhan o'r darlun mawr. Rwy'n meddwl mai dyna sy'n cael ei golli gan lawer o bobl, gallwch deimlo eich bod ar eich pen eich hun” (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Er enghraifft, bydd y rhwydwaith o ddarparwyr llety yn galluogi'r rheini sy'n derbyn ymholiadau pan fyddant eisoes yn llawn i drosglwyddo'r ymholiad i eraill yn y rhwydwaith. Ar ben hynny, gall darparwyr llety awgrymu gweithgareddau lleol, teithiau, tafarndai a chaffis ac ati, yn seiliedig ar gysylltiadau a wneir drwy'r rhwydwaith, gan gadw'r busnes yn yr ardal.

*“Fe wnaeth fy helpu i gysylltu â darparwyr llety sydd wedyn gallu hyrwyddo fy musnes i'w gwestai a vice versa drwy ddangos i bobl ardaloedd ym Mynyddoedd Cambria drwy deithiau, gallwn helpu i annog pobl i ailedrych ar yr ardaloedd eto yn y dyfodol gyda manteision i ddarparwyr llety ac eraill.” (Busnes twristiaeth yng Nghymru)*

Y gobaith yw y bydd busnesau yn y rhwydwaith yn gallu gweithio ar fentrau ar y cyd yn y dyfodol a allai helpu i annog mwy o ymwelwyr i'r ardal, er enghraifft, grŵp o ddarparwyr llety yn gallu cynnig teithiau lleol i'w gwesteion na allent eu gwneud yn unigol.

Mynychodd busnes lleol yn Blackstairs gwrs CUPHAT gyda'r nod o weld sut y gallai helpu'r pentref i **ddatblygu'r cyfleusterau a'r amwynderau sylfaenol** sydd eu hangen er mwyn annog twristiaeth i'r ardal. Roedd y cwrs CUPHAT yn helpu'r grŵp datblygu lleol yn y pentref i dyfu a chynllunio ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gydag agweddau fel datblygu cynlluniau i gael gafael ar gyllid ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy yn y pentref i wella cyfleusterau.

*“Mae gen i ddiddordeb personol mewn datblygu pethau yn y pentref y gall y gymuned eu defnyddio. Ac os ydyn nhw'n hapus ac yn gyffrous am y pethau hynny, yna bydd hynny'n dod â phobl i mewn.”*  
(Busnes twristiaeth yn Iwerddon)

Roedd rhai aelodau o'r gymuned yn disgwyl y byddai CUPHAT yn gallu darparu cyllid ar gyfer gwaith cyfalaf.

*“Roedd y grŵp, yn onest, yn eithaf siomedig na fyddai cyllid i'w wario ar unrhyw brosiectau cyfalaf.”* (Busnes twristiaeth yn Iwerddon)

Fodd bynnag, nod cwrs busnes CUPHAT oedd **hyfforddi pobl** i'w helpu i ddatblygu eu syniadau busnes eu hunain ymhellach. Roedd yr hyfforddiant yn galluogi pobl i ystyried syniadau ehangach mewn perthynas â thwristiaeth adfywiol a helpu i newid meddylfryd pobl.

*“Rwy'n credu y bydd y rhan fwyaf o bobl sydd wedi mynychu gweithdai ac ati wedi dod o hyd i ffyrdd o wella pethau, gan obeithio y bydd hyn yn golygu bod yr hyn yr oedd gan yr ardal i'w gynnig ychydig yn fwy hygyrch.”* (Busnes twristiaeth yng Nghymru)

Roedd y cwrs yn helpu i roi ymdeimlad o gymuned ac yn golygu bod gwahanol bobl yn y gymuned yn gallu rhwydweithio a rhannu syniadau ac ystyried sut y gallent gyflwyno'r syniadau hynny i brosiectau yn y gymuned. Mae hyn yn golygu y gall y gymuned deimlo eu bod i gyd 'yn ymdrechu gyda'i gilydd' sy'n creu teimlad cadarnhaol gwerthfawr.

*“Roedd yn wych cwrdd â darparwyr eraill a dysgu am yr hyn maen nhw'n ei wneud. Ac yna i feithrin ymdeimlad o obaith a chymuned.”* (Darparwr llety yn Iwerddon)

Mae ar dwristiaeth angen pobl sydd am wneud hynny, ac sy'n mynd i gymryd y risg o ran dechrau busnes ac mae angen i'r bobl hyn deimlo eu bod yn cael eu **cefnogi**. Mae CUPHAT wedi helpu gyda'r gefnogaeth honno ac wedi datblygu ymdeimlad o gymuned lle gall aelodau unigol gefnogi ei gilydd. Mae addysgu pobl sydd eisiau dechrau busnes wedi bod yn bwysig er mwyn eu hannog a rhoi'r hyder iddynt gymryd y risg o ddechrau busnes newydd.

#### **4.3.4 Canfyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Roedd gwyliau cymunedol CUPHAT yn dathlu’r gwaith ym mhob un o’r pedair ardal. Roedd busnesau lleol, aelodau o’r gymuned a phlant ysgol lleol a oedd wedi bod yn rhan o’r prosiect yn bresennol yn y digwyddiadau galw heibio. Nid yw’r niferoedd oedd wedi mynychu pob gŵyl yn hysbys.

Roedd nifer y bobl a oedd yn gallu cyfranogi yn y stondin werthuso yn y gwyliau yn isel ym mhob un o’r 4 gŵyl, gyda 18 o bobl yn llenwi’r arolwg a nifer tebyg yn cwblhau’r ymarferion ar y siart troi.

Mae’r canfyddiadau allweddol sydd naill ai’n cyfrannu at y llinell sylfaen neu’n dangos effaith CUPHAT fel a ganlyn.

#### **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID**

##### **Canfyddiadau allweddol sy’n dangos yr effaith**

##### **Deall ac ymgysylltu â threftadaeth leol**

- Mae CUPHAT wedi cefnogi dealltwriaeth ac ymgysylltiad â threftadaeth leol. Roedd mwy o bobl yn ymwybodol o’r dreftadaeth, a’r gobaith yw y bydd yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu’n well â threftadaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen gwaddol gref i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- Mae CUPHAT hefyd wedi gosod treftadaeth leol yn y cyd-destun ehangach, gan greu gwybodaeth gref a theimlad o falchder yn y dreftadaeth. Mae hyn wedi helpu busnesau i ddeall yr adnoddau cadarnhaol sydd ganddynt er mwyn iddynt allu manteisio i’r eithaf ar eu potensial a throsglwyddo hyn i ymwelwyr.

##### **Marchnata a hyrwyddo**

- Mae gan CUPHAT well cyfle i hyrwyddo’r ardaloedd drwy ddatblygu’r wefan, cyfathrebu, a strategaeth farchnata ymarferol.
- Mae busnesau gwledig bellach yn fwy gweladwy i dwristiaid, a dylai hyn helpu i arwain at dwf.

##### **Twristiaeth adfywiol**

- Mae CUPHAT wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ac wedi helpu i ddarparu twristiaeth adfywiol yn yr ardaloedd. Bydd ffocws CUPHAT ar helpu, cefnogi a rhoi hyder i fusnesau twristiaeth lleol yn eu helpu i weithio tuag at ddull twristiaeth adfywiol (yn enwedig mewn perthynas â materion amgylcheddol, gwyddoniaeth dinasyddion, materion hinsawdd, cynnyrch a diwylliant lleol). Ystyriwyd bod CUPHAT yn fan cychwyn cadarnhaol ar gyfer cyflawni newid gan ei fod yn annog busnesau i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynaliadwy.
- Y gobaith yw y bydd CUPHAT yn annog mwy o ymwelwyr yn y dyfodol er bod hyn yn dibynnu ar waddol y prosiect.

- Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, mae angen ystyried beth fydd yn digwydd nesaf a sut i ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth.



**Rhwydweithio.** Rhoddodd CUPHAT gyfle i rwydweithio, gan gysylltu busnesau bach amrywiol lleol â'i gilydd i gydweithio a deall yn well y cyfleoedd i ddatblygu syniadau a chydweithio. Roedd hyn yn cynnwys:

- Creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn.
- Dysgu gan eraill, sut maen nhw'n gwneud pethau.
- Dysgu am bethau eraill sy'n digwydd yn lleol.
- Creu cyfleoedd newydd.
- Rhwydwaith cefnogol o fusnesau newydd.

#### **Gwersi a ddysgwyd**

- Un agwedd allweddol a amlygwyd y gallid bod wedi'i gwneud yn well oedd cyfathrebu'r prosiect, er enghraifft hyrwyddo a hysbysebu'r digwyddiadau, yn ogystal â chyfathrebu o fewn y gymuned ehangach. Mae hyn yn tynnu sylw at yr her i brosiect tymor byr o ran gallu gwreiddio'n llawn yn y gymuned.

#### **Gwaddol**

- Mae angen parhau i gefnogi'r ardaloedd a'u hyrwyddo ar gyfer twristiaeth ar raddfa ehangach nag a ddigwyddodd o'r blaen, naill ai drwy barhau â'r prosiect, neu drwy gyllid / polisi'r llywodraeth.
- Mae angen sicrhau cydweithio ac ymgysylltu parhaus.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau, ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu'n fanylach yn Atodiadau 6 a 7.

#### **4.3.4.1 Canfyddiadau ymarferion siart troi**

- **Pa wahaniaeth mae CUPHAT wedi'i wneud i dwristiaeth yn yr ardal?**

Roedd y sylwadau a wnaed yn gadarnhaol am yr effeithiau a gafodd CUPHAT yn yr ardaloedd. Y prif wahaniaethau a grybwyllwyd oedd mwy o gyfleoedd rhwydweithio a oedd o fudd mawr i'r rhai dan sylw, gwell cyfle i hyrwyddo eu hardaloedd a'r ffocws ar helpu a gwella'r busnesau twristiaeth lleol. Soniodd un a oedd yn bresennol am y cynnydd amlwg yn nifer yr ymwelwyr o Gymru i ardaloedd lwerddon.

*"Cyfle i rwydweithio, gwneud cysylltiadau i helpu i hyrwyddo twristiaeth a busnesau gwledig lleol."*

*(Enghraifft o ymateb post-it gan fusnes lleol yng Nghymru)*

- **A yw CUPHAT wedi cefnogi eich dealltwriaeth a'ch ymgysylltiad â threftadaeth leol?**  
Dywedodd pawb a gwblhaodd yr ymarfer fod CUPHAT wedi cefnogi eu dealltwriaeth a'u hymgysylltiad â threftadaeth leol.
- **A fydd gwaith CUPHAT yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu'n well â threftadaeth leol yr ardal?**

Dywedodd pawb a gwblhaodd yr ymarfer y byddai CUPHAT yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu'n well â threftadaeth leol yr ardal.

#### 4.3.4.2 Canfyddiadau'r arolwg gyda mynychwyr y gwyliau

- **A all amcanion CUPHAT helpu i sicrhau twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal hon?**

Yr ymateb ysgubol gan gyfranogwyr oedd bod CUPHAT yn asiant cadarnhaol dros newid ym mhob un o'r ardaloedd astudiaeth achos gan ei fod yn annog busnesau i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynaliadwy a hefyd yn codi ymwybyddiaeth o fusnesau eraill yn yr ardaloedd lleol. Ystyriwyd bod y rhwydweithio hwn yn allweddol.

*“Mae cysylltu sefydliadau a busnesau â'i gilydd yn ffordd wych o dyfu twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy”.*

Yr unig bryderon a godwyd oedd mewn perthynas â'r prosiect yn dod i ben, fel “beth sy'n digwydd wedyn”? Cydnabuwyd bod cyflawni cynaliadwyedd yn cymryd amser ac mai'r peth gorau fyddai parhau â'r prosiect. Nodwyd hefyd bod allanoli dylanwad y prosiectau ar bolisi'r llywodraeth i gefnogi rhagor o gyllid a mwy o “waith ar lawr gwlad” (ym Mhreseli) yn bwysig er mwyn darparu twristiaeth gynaliadwy ond bod CUPHAT yn fan cychwyn defnyddiol a buddiol ar gyfer cyflawni newid.

- **Enwch un peth cadarnhaol y mae CUPHAT wedi wneud?**

Darparodd CUPHAT gefnogaeth a sylfaen i fusnesau lleol wrth galon twristiaeth adfywiol, gan gwmpasu'r amgylchedd, gwyddoniaeth dinasyddion, materion yn ymwneud â'r hinsawdd, cynnyrch a diwylliant lleol. Wrth wneud hynny, cododd ymwybyddiaeth o'r materion hyn, gan greu cymuned o ymarfer i yrru cynaliadwyedd yn ei flaen. Roedd hyn yn cynnwys dealltwriaeth o gryfderau (a gwendidau) y dull o ymdrin â thwristiaeth ar hyn o bryd a rhywfaint o gyfeiriad o ran sut i ddatblygu wrth symud ymlaen. Roedd hyn yn galluogi un cwmni i gael yr hyder i ddatblygu a sefydlu busnes hamper newydd, gan roi hyder i un arall fynegi ei safbwyntiau ac i eraill roedd yn galluogi llwyfan i hysbysu polisi'r llywodraeth.

*“Rhoddodd yr hyder i mi siarad yn gyhoeddus a chyfrannu fy marn yn y grwpiau”.*

Fodd bynnag, y budd mwyaf cadarnhaol a nodwyd gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr oedd ei fod yn gyfle i rwydweithio, cysylltu busnesau bach lleol, dod â set amrywiol o fusnesau at ei gilydd i gydweithio a deall yn well y cyfleoedd i ddatblygu syniadau a gweithio ar y cyd. Roedd datblygu rhwydwaith cefnogol yn hanfodol i'r ardaloedd astudiaeth achos lleol ond hefyd yn ehangach ar draws holl ardal CUPHAT fel y gallai cyfranogwyr yn y ddwy wlad weld y tebygrwydd rhwng yr ardaloedd ucheldir gwahanol, eu cymunedau, diwylliant cyffredin a heriau. Roedd y rhwydweithio hwn yn cael ei ystyried yn gynhwysol ac yn rhoi arweiniad da ar y cyfeiriad ar gyfer busnesau twristiaeth cynaliadwy.

- **Enwch un peth y gallai CUPHAT fod wedi'i wneud yn well?**

Ar wahân i gael mwy o amser i gyflawni ei nodau, gan gynnwys, er enghraifft, y gwaith ar lwybrau cerdded a datblygu llwybrau ceffylau, yr agwedd allweddol y gellid bod wedi'i gwneud yn well oedd cyfathrebu'r prosiect.

Roedd angen mwy o rybudd i hyrwyddo a hysbysebu digwyddiadau CUPHAT, er enghraifft y gwyliau cymunedol. Ystyriwyd y gallai marchnata, cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a hysbysebu cyrsiau a digwyddiadau fod wedi bod yn gryfach, yn ogystal â chyfathrebu o fewn y gymuned ehangach. Mae hyn yn tynnu sylw at yr her i brosiect tymor byr o ran gallu gwreiddio'n llawn yn y gymuned.

Roedd presenoldeb gwael yn y gwyliau hefyd o bosibl oherwydd ei fod yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos gyda mwy o debygolrwydd o fynychu ar benwythnos oherwydd ymrwymadau gwaith yn ystod yr wythnos.

Roedd y cyfathrebu'n arbennig o araf ar y dechrau. Un awgrym oedd y dylai gwefan fod wedi cael ei datblygu'n gynt er mwyn gallu cyfathrebu'n gynharach ynghylch y prosiect.

*“Doeddwn i ddim wedi clywed amdano nes i mi ddigwydd ei weld ym mis Hydref 2022 ac rydw i wedi cyfranogi llawer iawn ers hynny”.*

Mewn perthynas â'r rhaglenni cymorth micro-fenter, codwyd mater penodol ynghylch galluogi busnesau i gael eu cyflwyno'n well. Er y croesawyd yr amrywiaeth o fusnesau a siaradwyr, gellid bod wedi gwneud mwy i'w cyflwyno i'w gilydd.

*“Byddai wedi bod yn braf cael pawb i gyflwyno eu hunain a'u busnes ar ddechrau digwyddiadau er mwyn i ni gael gwell syniad o bwy oedd yn yr ystafell”.*

*“Byddai mwy o gyflwyniad i'w gilydd ar ddechrau'r rhaglen wedi bod yn wych, i gael gwell dealltwriaeth o gefndir a stori pawb arall o'r sesiwn gyntaf”.*

Cyfeiriwyd at faint y grŵp hefyd gan un cyfranogwr a oedd o'r farn y byddai wedi bod yn well trin grwpiau ar wahân er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar faterion penodol.

Cafwyd rhai sylwadau hefyd am y diffyg cynllunio ar gyfer gadael a gwaddol ac nid oedd yn ymddangos bod y busnes yn gwybod a oedd cynllun i wneud cais am ragor o arian i adeiladu ar y prosiect a chynaliadwyedd yn y dyfodol.

- **Beth gawsoch chi o'ch cyfranogiad â CUPHAT?**

Nododd cyfranogwyr yn bendant fod rhwydweithio yn fantais allweddol yn sgil ymgysylltu â CUPHAT. Roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar fusnesau, ond pwysleisiodd un cyfranogwr hefyd “ymdeimlad o gymuned a pherthyn”. Roedd rhwydweithio cysylltiedig â busnes yn cynnwys creu cysylltiadau newydd, dod i adnabod busnesau eraill a chydweithio â gweithredwyr twristiaeth lleol. Mae'r manteision yn ymestyn i agweddau ymarferol fel cynllunio gweithredu a'r dull clir, cryno ac amrywiol o ystyried strategaeth, nodau a chyflawniadau busnes. Ystyriwyd bod y gweithdai'n ddefnyddiol iawn, a dysgodd y cyfranogwyr lawer o'r ffordd y mae pobl eraill yn gwneud pethau, yn ogystal â dysgu am bethau eraill sy'n digwydd yn lleol. Roedd y cynnwys yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth,

a dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi “gwneud i mi feddwl yn ddyfnach am ein stori”.

Y gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu nifer y busnesau a thwristiaeth drwy agor cyfleoedd newydd a denu mwy o bobl i ymgysylltu.

- **Pa wahaniaeth y mae CUPHAT / a fydd CUPHAT yn ei wneud i dwristiaeth yn yr ardal?**

Fel y trafodwyd, mae CUPHAT wedi dod â busnesau at ei gilydd, o bosibl i weithio'n fwy cydweithredol. Roedd hyn yn angenrheidiol gan fod y rhwydwaith hyd yma wedi bod yn wan. Mae hefyd wedi annog busnesau i feddwl am y dyfodol drwy ddatblygu cynlluniau 5 mlynedd a ddylai helpu gyda'u datblygiad tymor hir. Mae CUPHAT hefyd wedi helpu i roi hunaniaeth i fusnesau gwledig, llai a ddylai eu gwneud yn fwy gweladwy i dwristiaid ac a ddylai helpu i arwain at dwf.

Ar ôl eu cyflwyno i'r rhaglen, gallai hefyd greu rhwydwaith cryfach a chefnogol o fusnesau newydd. Hyd yma, mae cefnogaeth ranbarthol i dwristiaeth wedi canolbwyntio ar gwmnïau mwy, gan gynnig ychydig iawn i rai llai sydd â llai o adnoddau a llai o amser i ymgysylltu.

Er y gobeithir y bydd CUPHAT yn annog mwy o ymwelwyr i'r ucheldiroedd, mae hyn yn dal yn amheus, yn dibynnu ar waddol y prosiect.

- **A yw CUPHAT wedi cefnogi eich dealltwriaeth a'ch ymgysylltiad â threftadaeth leol?**

Yr ymateb ysgubol gan gyfranogwyr oedd bod CUPHAT wedi bod yn rhagorol o ran gosod treftadaeth leol yn y cyd-destun ehangach, gan greu mwy o ddiddordeb mewn treftadaeth a'r amgylchedd. Roedd hefyd yn creu ymdeimlad cryf o dreftadaeth, a mwy o falchder yn yr ardaloedd astudiaeth achos.

Roedd y prosiect yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac yn datblygu dealltwriaeth o feysydd penodol h.y. bioamrywiaeth a gwyddoniaeth dinasyddion.

Gyda lwc, bydd y prosiect yn arwain at fwy o arwyddion ar safleoedd hanesyddol/cynhanes er mwyn denu rhagor o ymwelwyr.

- **Ydy /a fydd CUPHAT yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu â'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol? Roedd y farn ynghylch a fydd CUPHAT yn arwain at fwy o ymwelwyr yn ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn fwy cymysg, gyda llawer yn meddwl y byddai hynny'n digwydd ac eraill yn gobeithio y gallai wneud hynny.**

Credid bod mwy o bobl yn ymwybodol o dreftadaeth yr ardal, ond y byddai angen gwaddol cryf i sicrhau bod sylfeini da yn cael eu gosod cyn diwedd y prosiect. Mae CUPHAT wedi helpu busnesau i ddeall y pethau cadarnhaol sydd ganddynt er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar eu potensial a throsglwyddo hyn i ymwelwyr, ond roedd dealltwriaeth bod angen i fusnesau lleol ddod at ei gilydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar hyn. Dylai hyn gynnwys datblygu gwefan dda, cyfathrebu a strategaeth farchnata ymarferol.

Nodwyd y byddai'n dda pe gallai CUPHAT ddylanwadu ar lywodraeth genedlaethol a llywodraethu twristiaeth er mwyn cydnabod yr ardaloedd astudiaeth achos lleol a thynnu sylw

o atyniadau poblogaidd cenedlaethol, fel arfordir gorllewinol Iwerddon a Bannau Brycheiniog / Eryri yng Nghymru.

- **Beth arall sydd angen ei wneud i gefnogi twristiaeth gynaliadwy / adfywiol?**

Roedd cydnabyddiaeth gref o'r angen i barhau i gefnogi'r ardaloedd a'u hyrwyddo ar gyfer twristiaeth ar raddfa ehangach nag a oedd wedi digwydd o'r blaen. Gellid gwneud hyn naill ai drwy barhau â'r prosiect, os oedd hynny'n bosibl, neu'n fwy tebygol drwy gyllid y llywodraeth i sicrhau bod yr adnoddau a ddefnyddir yn cael eu cynnal / hymestyn i'r dyfodol. Gellid defnyddio rhagor o adnoddau i fynd i'r afael â materion hygrychedd yn yr ardaloedd a datblygu cysylltiadau trafnidiaeth effeithiol a seilwaith cysylltiedig. Ar ben hynny, gellid defnyddio cyllid i ddarparu hyb twristiaeth i sicrhau parhad twristiaeth adfywiol gynaliadwy a darparu cymorth adeiladol i ddarparwyr twristiaeth. Byddai hyn yn gofyn am staff cyflogedig i arwain a magu hyder, ac i weithio gyda busnesau a chymunedau.

Gallai hyn hefyd arwain at ddatblygu strategaeth farchnata ar gyfer busnesau bach, gyda slogan sy'n uno ac yn cynrychioli'r busnesau lleol, gan ei gwneud yn haws hyrwyddo'r ardaloedd ar-lein a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

Cytunodd pawb fod angen sicrhau cydweithio ac ymgysylltu parhaus.

#### **4.3.5 Canfyddiadau Themâu Trawsbynciol**

##### **4.3.5.1 Cyfle Cyfartal a pheidio â gwahaniaethu**

Amlinellodd cynllun busnes CUPHAT ymrwymiad Prifysgolion ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Dyfed i'r egwyddor o gyfle cyfartal a'u polisïau a'u gweithdrefnau sydd ar waith a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â'r amcanion cyfle cyfartal a pheidio â gwahaniaethu.

Ysgrifennwyd Cod Eco a Llesiant ar lefel prosiect ac anogwyd staff y prosiect i ddilyn y cod hwn. Roedd yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i gyfle cyfartal a pheidio â gwahaniaethu gan gynnwys iechyd, cydraddoldeb, gweithle cydlynol, yr iaith Gymraeg a'r Wyddeleg a'u diwylliant.

Mae gan dîm CUPHAT Hyrwyddwr Themâu Trawsbynciol enwebedig (Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth) ac maent wedi asesu'r gwaith yn erbyn yr amcanion ac mae dogfen ar wahân yn amlinellu hyn yn fanwl. Crynhoir y canfyddiadau yma ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau perthnasol eraill drwy'r gwaith gwerthuso.

- **Gweithleoedd cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal**

Roedd cynllun busnes CUPHAT yn amlinellu polisïau, gweithdrefnau, digwyddiadau, ymrwymadau ac ymyriadau eraill Prifysgolion ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Dyfed sydd ar waith i sicrhau gweithle cynhwysol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r canlynol yn gamau gweithredu allweddol a gymerwyd:

- Pob cais am swydd ar gyfer prosiect CUPHAT ym Mhrifysgol Aberystwyth, Coleg Prifysgol Dulyn ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed wedi cynnwys datganiadau ynghylch cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd. Roedd y rheini yng Nghymru hefyd wedi ystyried y Gymraeg.

Mae AU a UCD wedi ymrwymo i ddefnyddio Athena Swan i hyrwyddo/helpu i ddatblygu gyrfaedd menywod ym maes STEM.

- Mae Tabl 14 yn dangos cyfansoddiad rhywedd tîm terfynol CUPHAT sydd, yn gyffredinol, yn gogwyddo tuag at fwy o aelodau staff benywaidd. Nid yw hyn yn ystyried yr aelodau staff hynny sy'n rhan amser neu'n llawn amser. O ran rolau arwain, roedd y rôl rheoli prosiect ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cael ei rheoli ar y cyd gan 2 fenyw ac roedd yr arweinydd gweithgareddau yng Ngholeg Prifysgol Dulyn hefyd yn fenyw. Rhannwyd y prosiect yn saith pecyn gwaith a chafodd pedwar o'r rhain eu harwain gan fenywod.

**Tabl 14 – Rhaniad y rhywiau yn nhîm CUPHAT**

	Benywaidd		Gwrywaidd	
	Nifer yr unigolion	% y cyfanswm	Nifer yr unigolion	% y cyfanswm
<b>Arweinwyr prosiectau</b>	5	42%	7	58%
<b>Staff prosiect</b>	31	69%	14	31%
<b>Cyfanswm</b>	36	63%	21	39%

- Er mwyn hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol, mae'r prosiect wedi darparu trefniadau gweithio hyblyg i ofal plant, gydag amser i ffwrdd yn lle oriau, a darparu amser i ffwrdd yn ystod gwyliau'r ysgol lle bo hynny'n briodol.
- **Mae mynediad at dechnoleg ar gael ac yn hygyrch i bawb**
  - Mae gweithgareddau CUPHAT, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio technoleg, wedi bod ar gael i bawb ac wedi'u hanelu'n benodol at y rheini yn yr ucheldiroedd mwy gwledig.
  - Cynhaliwyd y gweithgareddau yn y cymunedau, felly roedd pobl yn gallu cael mynediad at y prosiect yn rhwydd heb orfod teithio. Cafodd yr hyfforddiant a'r gefnogaeth eu teilwra i'w gwneud mor hygyrch â phosibl i'r cymunedau targed
  - Roedd trafodaethau drwy gydol y prosiect yn ystyried mynediad i'r holl safleoedd twristiaeth a ddewiswyd. Wrth ddewis safleoedd, ystyriwyd safleoedd a oedd yn cynnig llwybrau cerdded hygyrch, yn ogystal â llwybrau mwy heriol. Roedd y prosiect hefyd yn ystyried mynediad i barcio a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y safleoedd a ddewiswyd.
  - Drwy ddigideiddio safleoedd ac arteffactau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, mae'r prosiect wedi gwneud yr ardaloedd prosiect a'r arteffactau hyn yn hygyrch i bawb. Roedd hyn yn cynnwys darparu delweddau digidol o ardaloedd anodd eu cyrraedd.
  - O fewn y prosiect, rhoddwyd cefnogaeth briodol i staff ag anableddau cudd i'w galluogi i gymryd rhan weithredol yn holl weithgareddau perthnasol y prosiect.
- **Cefnogi Ymchwil, Datblygu ac Arloesi sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau cymdeithasol**
  - Datblygwyd cymorth wedi'i deilwra i gymunedau a busnesau ar raglen CUPHAT ochr yn ochr â hyfforddiant sgiliau i fusnesau a chymunedau a oedd yn cydnabod anghenion unigol gwahanol.
  - Roedd hyfforddiant ar gyfer staff y prosiect hefyd ar gael o fewn cyfyngiadau'r prosiect.

- Er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac annog grwpiau amrywiol i ymweld â'r safleoedd treftadaeth yn ardaloedd y prosiect, mae strategaethau marchnata wedi cael eu datblygu a fydd yn gwella cyfranogiad grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a grwpiau economaidd-gymdeithasol is, i ymweld â'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i adrodd a yw effaith y prosiect wedi cynyddu'r niferoedd ar hyn o bryd.
- **Annog mentrau entrepreneuriaeth a dechrau busnes i annog mwy o bobl ifanc, menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl LGBT i fanteisio arnynt**
  - Mae'r rhaglenni hyfforddiant entrepreneuriaidd am ddim, yr hyfforddiant ap gwyddoniaeth i ddinasyddion, yr hyfforddiant LIDAR a'r cyrsiau hyfforddiant hanes llafar wedi bod yn agored i bawb yn y cymunedau, gan annog cyfranogiad gan grŵp mor eang â phosibl.
- **Cefnogi mynediad i bobl anabl a'r rheini o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth, gan gynnwys drwy atebion trafndiaeth gynaliadwy**
  - Mae digwyddiadau prosiect yn ardaloedd y prosiect wedi cael eu cynnal ar wahanol adegau o'r dydd i annog y rheini sy'n gweithio neu sydd wedi ymddeol neu sydd ag ymrwymiad penodol ar adegau o'r diwrnod neu'r wythnos.
  - Cynhaliwyd gweithgareddau'r prosiect mewn gwahanol leoliadau daearyddol o fewn y cymunedau targed, er mwyn cyrraedd cynulleidfia mor eang â phosibl a hefyd mewn gwahanol fathau o leoliadau e.e. neuaddau cymunedol, tafarndai, ysgolion ayb. fel bod y gweithgareddau'n cael eu cynnal ble mae pobl yn hytrach na disgwyl iddynt ddod i'r prosiect.
  - Mae'r prosiect wedi annog cyfranogiad o bob rhan o'r cymunedau a, lle bo hynny'n bosibl, mae wedi annog pobl i rannu ceir i'r digwyddiadau er mwyn galluogi cyfranogwyr heb gludiant i fynychu digwyddiadau.
- **Canfod a chefnogi cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i hyrwyddo**
  - Mae prosiect CUPHAT wedi defnyddio'r Gymraeg, Saesneg a Gaeleg drwy gydol y prosiect, gan gynnwys ar wefan y prosiect, mewn trydariadau prosiect, mewn deunyddiau hyrwyddo, yn holl wahoddiadau a phosteri'r digwyddiad, darparu deunydd mewn digwyddiadau, arolygon.
  - Mae'r staff prosiect yng Nghymru yn cael eu hannog i fynychu gwersi Cymraeg.
  - Ar gyfer y prosiect, roedd arolygon gyda chyfranogwyr yn cael eu cynnig yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cynhaliwyd dau o'r saith cyfweiliad gyda darparwyr llety a busnesau lleol yn Gymraeg a chynhaliwyd 10 o'r 13 cyfweiliad yn y gwyliau dathlu cymunedol yn Gymraeg hefyd.

#### 4.3.5.2 Datblygu cynaliadwy

Roedd cynllun busnes CUPHAT yn amlinellu ymrwymiad Prifysgolion ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Dyfed i gynaliadwyedd a'u polisïau a'u harferion sydd ar waith a fyddai'n helpu i sicrhau'r amcanion datblygu cynaliadwy.



Mae tîm CUPHAT wedi asesu'r gwaith yn erbyn yr amcanion ac mae dogfen ar wahân yn amlinellu hyn yn fanwl. Crynhoir y canfyddiadau yma ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau perthnasol eraill drwy'r gwaith gwerthuso.

- Ysgrifennwyd Cod Eco a Llesiant ar lefel prosiect ac anogwyd staff y prosiect i ddilyn y cod hwn. Roedd yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i gynaliadwyedd gan gynnwys gwastraff, trafndiaeth, amgylchedd swyddfa, prynu, dŵr, ynni, bioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymwybyddiaeth arall.
- Roedd poster yn cynnig awgrymiadau ymarferol a nodiadau atgoffa ar arbed ynni, arbed dŵr ac annog rheoli gwastraff yn well a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol.
- Ar ôl i'r prosiect ddod i ben, bydd unrhyw offer a brynwyd i gyflawni'r prosiect e.e. hen liniaduron yn cael eu hail-bwrpasu mewn adrannau i sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd adnoddau'n cael eu rhoi ar waith.
- Gan fod y prosiect yn cynnwys staff prosiect sy'n byw ac yn gweithio dros ardal eang, cynhaliwyd y rhan fwyaf o gyfarfodydd y prosiect drwy gyfrwng dolenni Teams a Zoom. Roedd hyn yn lleihau'r angen i deithio mor aml ar gyfer pob cyfarfod ac felly'n lleihau'r ôl troed carbon ar gyfer cyfarfodydd prosiect rheolaidd.
- Wrth deithio o fewn ac i ardaloedd y prosiect ar gyfer digwyddiadau, trefnwyd cludiant ar y cyd lle bynnag y bo modd. Cafwyd trafodaethau parhaus hefyd gyda'r cymunedau am drafndiaeth leol a'r angen am well trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer mynediad i'r ucheldiroedd ac am opsiynau fel beiciau trydan, ond llwyddodd y prosiect i fynd â hyn ymhellach oherwydd cyfyngiadau amser a chyllid y prosiect.
- Lle'r oedd cyfarfodydd prosiect yn cynnwys teithio rhwng Cymru ac Iwerddon, trefnwyd cludiant ar y cyd ar gyfer aelodau'r tîm i leihau'r ôl troed carbon. Mae teithiau yn ôl ac ymlaen i Iwerddon wedi bod ar fferi ac mae gan y cwmnïau fferi a ddefnyddir ar gyfer teithio ymrwymiad i gynaliadwyedd.
- Prynwyd yr arlwyyo yn ystod ymweliadau safle a digwyddiadau yn bennaf o gaffis a bwytai cymunedol lleol, a oedd yn defnyddio cynnyrch lleol lle bo hynny'n bosibl ac yn cyflogi staff o'r ardaloedd cyfagos.
- Pan oedd angen llety wrth deithio yn ardaloedd y prosiect, roedd yn cael ei archebu'n bennaf drwy ddarparwyr lleol, ac yn ardaloedd y prosiect. Cafodd hyn ei annog i gefnogi'r busnesau lleol, yn ogystal ag osgoi teithio'n ôl ac ymlaen o ardaloedd y prosiect. Fodd bynnag, mewn rhai achosion pan oedd grwpiau mawr yn cymryd rhan mewn ymweliadau, er enghraifft wrth deithio gyda rhwydwaith y prosiect, roedd llety'n cael ei archebu mewn lleoliadau digon mawr i ddarparu ar gyfer grwpiau mawr. Yn yr amgylchiadau hyn, cymerwyd gofal i archebu lleoliadau a digwyddiadau yn y cymunedau lleol ar gyfer prydau bwyd ac ymweliadau safle.
- Yn fwy eang, nod cyffredinol CUPHAT yw hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a naturiol fel ffordd o ddenu twristiaid, ond i wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy ac adfywiol (e.e. llai o bwyslais ar dwristiaeth dorfol a mwy o bwyslais ar ddenu niferoedd llai o dwristiaid i weithgareddau a phrofiadau pwrpasol, yn ogystal â denu twristiaid yn ystod y tymor allfrig ac 'ysgwydd'). Felly, mae pwyslais drwy gydol y gwerthusiad hwn ar y berthynas â threftadaeth naturiol ucheldiroedd arfordirol ar hyrwyddo mathau amgylcheddol o gynaliadwyedd.
- Cynhaliodd CUPHAT gwrs o'r enw 'Rhaglen Dwristiaeth Adfywiol ar gyfer Microfentrau a Grwpiau Cymunedol'. Roedd hyn wedi'i anelu at fusnesau a chymunedau lleol a'u hannog i feddwl am sut y gallent fod yn fwy gynaliadwy a darparu hyfforddiant a syniadau newydd ynghylch gwelliannau amgylcheddol, cynaliadwyedd, yr economi gylchol, cyfleoedd cyllid

a gwerth cynnyrch lleol. Roedd yr adborth gan y busnesau a fynychodd yr hyfforddiant yn gadarnhaol iawn am yr agwedd hon ar y gwaith a sut y gallai wella eu cynaliadwyedd.

*“Mae gennym ni ddiddordeb mawr mewn arferion adfywio ac economi gylchol... rydyn ni wedi bod yn gwneud pethau ein hunain yn annibynnol ond nawr rydyn ni’n ceisio symud tuag at ynni cwbl wyrdd yn ein busnes.”*

#### 4.3.5.3 Mynd i’r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae tîm CUPHAT wedi asesu’r gwaith yn erbyn yr amcanion ac mae dogfen ar wahân yn amlinellu hyn yn fanwl. Crynhoir y canfyddiadau yma ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau perthnasol eraill drwy’r gwaith gwerthuso.

- Mae prosiect CUPHAT wedi sefydlu a chyflwyno rhaglen datblygu cymunedol ac entrepreneuriaidd ym mhob un o ardaloedd y prosiect. Gwahoddwyd cyfranogwyr o bob un o ardaloedd y prosiect, a oedd yn rhad ac am ddim ac yn agored i bawb. Datblygwyd y rhaglen i feithrin sgiliau o fewn y cymunedau a busnesau lleol i wella datblygiad sgiliau ac fe’i datblygwyd gyda mewnbwn gan y cymunedau a’r busnesau lleol er mwyn mynd i’r afael ag anghenion pob ardal prosiect. Cynhaliwyd y rhaglen am 6 wythnos ym mhob un o ardaloedd y prosiect ac yng Nghymru fe’i cyflwynwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Anogwyd cyfranogwyr i ymgysylltu ag eraill ar y rhaglen gyda gweithgareddau cefnogi cyfoedion a dysgu, yn ogystal ag annog cefnogaeth gan gymheiriaid ar ôl cwblhau’r rhaglen. Gwahoddwyd busnesau a grwpiau cymunedol hefyd i gyflwyno cynllun gweithredu ac i wneud cais am hyfforddiant un i un i gael rhagor o gymorth i ddatblygu eu busnesau a’u syniadau.
- Roedd CUPHAT hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer uwchsgilio, a oedd yn cynnwys gwirfoddoli yn ardal y prosiect, a chymryd rhan mewn arolygon archeolegol a chloddfeydd.
- Gwahoddwyd cymunedau i ddysgu am y defnydd o LIDAR i arolygu safleoedd yn ardal y prosiect. Gwahoddwyd cymunedau i gymryd rhan mewn dysgu sut i ddefnyddio apiau gwyddoniaeth dinasyddion i fonitro’r amgylchedd a chymryd rhan mewn sesiwn hyfforddiant hanes llafar am ddim i ddysgu cymunedau sut i gofnodi hanesion llafar.
- Sefydlodd y prosiect rwydwaith o fewn a rhwng ardaloedd y prosiect i annog cydweithio traws-sirol a thraws-genedl rhwng cymunedau a busnesau, i annog dysgu rhwng y pedair ardal prosiect yng Nghymru ac Iwerddon. Mae cymunedau wedi cael eu hannog i barhau â’r cydweithio hwn ar ôl i’r prosiect ddod i ben.

## 5.0 GWERTHUSIAD

### 5.1 CYFLWYNIAD

Mae'r canfyddiadau a gasglwyd drwy'r arolygon fel yr amlinellir yn adran 4 wedi cael eu dadansoddi ar gyfer y gwerthusiad er mwyn asesu a yw'r prif ofynion a chanlyniadau CUPHAT wedi cael eu cyflawni ac i asesu effaith CUPHAT. Y cwestiynau allweddol yr ymdrinnir â hwy yw:

- Yr effaith ar nifer yr ymwelwyr â phob ardal ucheldir arfordirol a'r gyfran sy'n dod o dramor (h.y. yn preswyllo y tu allan i'r DU fel arfer os ydynt yn ymweld ag ucheldiroedd arfordirol Cymru; fel arfer yn byw y tu allan i Iwerddon os ydynt yn ymweld ag ucheldiroedd arfordirol Iwerddon).
- Yr effaith ar faint o amser y mae unigolion yn ei dreulio yn y pedair ardal ucheldir arfordirol.
- Yr effaith ar faint o arian a werir gan unigolion yn y pedair ardal ucheldir arfordirol a sut y cafodd ei wario.
- Yr effaith ar lefelau ymgysylltu â threftadaeth yn y pedair ardal ucheldir arfordirol.
- Sut mae'r heriau sy'n cyfyngu ar amser aros, gwariant ac ymgysylltu â threftadaeth wedi cael eu goresgyn.
- I ba raddau y mae gwahanol fusnesau yn elwa o dwristiaeth wedi newid o ganlyniad i CUPHAT.
- I ba raddau y mae CUPHAT wedi cynyddu apêl treftadaeth ddiwylliannol a naturiol i ymwelwyr dreulio mwy o amser yn y pedair ardal ucheldir arfordirol.
- I ba raddau y mae CUPHAT wedi galluogi grwpiau cymunedol a mentrau lleol i ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol a'i hyrwyddo.
- I ba raddau y mae CUPHAT wedi galluogi'r cymunedau i gymryd rhan mewn cydweithrediad trawsffiniol ynghylch twristiaeth ddiwylliannol, naturiol a threftadaeth.
- Effaith rhwydwaith twristiaeth newydd sy'n hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol, naturiol a threftadaeth o fewn a rhwng y 12 cymuned a'r pedair ardal ucheldir arfordirol.

Yn ogystal, mae canlyniadau neu faterion allweddol eraill wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r data a gasglwyd a chyflwynir y rhain hefyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn gan gynnwys yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella.

Mae'r gwerthusiad yn cael ei grynhoi yn Nhabl 15 sy'n rhestru llinellau sylfaen ac effaith ddisgwyliedig CUPHAT ar y gofynion data allweddol. Mae Tabl 15 hefyd yn dangos lle mae gwerthusiad diwedd prosiect wedi ychwanegu at y data sylfaenol a gasglwyd yn yr adolygiad interim.

Dylid nodi nad yw'r gwerthusiad hwn wedi cynnwys gwerthusiad o waith yr holl becynnau gwaith gan fod hyn y tu allan i'r contract hwn. Mae wedi edrych yn bennaf ar waith sy'n gysylltiedig â'r effaith ar dwristiaeth adfywiol ac felly nid yw wedi edrych ar y gwaith gydag ysgolion, gwyddoniaeth dinasyddion na thechnolegau digidol ac ati.

Tabl 15 - Crynodeb o effaith CUPHAT

Gofynion Data Allweddol	Ardaloedd CUPHAT Cymru		Ardaloedd CUPHAT Iwerddon	
	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolygon gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolwg gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT
<b>A. Nifer yr ymwelwyr</b>	<p>Ddim ar gael</p> <p><i>Mynyddoedd Cambria (meddiannaeth o 32% yn 2022)</i></p> <p><i>Mynydd Preseli (meddiannaeth o 42% yn 2022)</i></p>	<p>Amcangyfrif o'r newid a ragwelir yn yr arolwg darparwyr llety 2022 i 2023:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mynyddoedd Cambria – mae 75% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, ac mae 61% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.</li> <li>Mynydd Preseli – mae 25% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, ac mae 0% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.</li> </ul> <p>Arolwg ymwelwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai 75% o'r ymwelwyr tramor a holwyd a oedd yn ymweld ag ardaloedd o Gymru wrth ymyl ucheldiroedd CUPHAT yn 'debygol iawn' o ymweld â'r ucheldiroedd arfordirol</li> </ul>	<p>Ddim ar gael</p> <p><i>Mynyddoedd Wicklow (meddiannaeth o 64% yn 2022)</i></p> <p><i>Mynyddoedd Blackstairs (meddiannaeth o 42% yn 2022)</i></p>	<p>Amcangyfrif o'r newid a ragwelir yn yr arolwg darparwyr llety 2022 i 2023:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mynyddoedd Wicklow - Mae 46% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd mewn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, ac mae 48% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.</li> <li>Mynyddoedd Blackstairs - Mae 0% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd mewn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, ac mae 50% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.</li> </ul> <p>Arolwg ymwelwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai 46% o'r twristiaid tramor a holwyd a oedd yn ymweld ag ardaloedd o Iwerddon sy'n agos i ucheldiroedd CUPHAT yn 'debygol iawn' o ymweld â'r ucheldiroedd</li> </ul>

			arfordirol.
--	--	--	-------------

Gofynion Data Allweddol	Ardaloedd CUPHAT Cymru		Ardaloedd CUPHAT Iwerddon	
	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolygon gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolwg gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT
<b>B. Amser a dreuliwyd</b>	3.9 noson (ddim yn benodol i ardal graidd CUPHAT)  <i>Cambria – 3.5 noson Preseli – 4 noson</i>	Arolwg ymwelwyr – hyd yr ymweliad yn y dyfodol ag ardaloedd craidd CUPHAT: <ul style="list-style-type: none"> <li>• 60% - ymweliad diwrnod</li> <li>• 20% cwpl o ddiwrnodau gydag arhosiad dros nos</li> <li>• 10% wythnos neu fwy</li> </ul> Fodd bynnag, pe bai ffactorau amrywiol yn ffafriol, gallai hyn ymestyn hyd eu harhosiad.	3.2 noson (ddim yn benodol i ardal graidd CUPHAT)  <i>Wicklow – 3.5 noson Blackstairs – 2 noson</i>	Arolwg ymwelwyr – hyd yr ymweliad yn y dyfodol ag ardaloedd craidd CUPHAT: <ul style="list-style-type: none"> <li>• 39% - ymweliad diwrnod</li> <li>• 39% cwpl o ddiwrnodau gydag arhosiad dros nos</li> <li>• 4% wythnos neu fwy</li> </ul> Fodd bynnag, pe bai ffactorau amrywiol yn ffafriol, gallai hyn ymestyn hyd eu harhosiad.
<b>C. Gwariant</b>	Ymweliad dros nos £178 Ymweliad Dydd £36 (ddim yn benodol i ardal graidd CUPHAT)	Byddai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a hyd yr arhosiad yn arwain at gynnydd mewn gwariant.	€365 y pen (ddim yn benodol i ardal graidd CUPHAT)	Byddai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a hyd yr arhosiad yn arwain at gynnydd mewn gwariant.

Gofynion Data Allweddol	Ardaloedd CUPHAT Cymru		Ardaloedd CUPHAT Iwerddon	
	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolygon gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolwg gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT
<b>D.</b> <b>Ymgysylltu â threftadaeth</b>	<p>Mae'r dreftadaeth naturiol a hanesyddol yn ysgogwyr allweddol i ymwelwyr, gan gynnwys achau Cymreig, atyniad i fywyd gwyllt, gwyllo bywyd gwyllt, cerdded, ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol arall, ymweld â thraeth, ymweld â pharc gwledig / coedwig.</p> <p><i>Y tri phrif reswm dros ymweld yn yr arolwg llety: y dirwedd /cefn gwlad/traeth, gweithgareddau awyr agored anffurfiol, ymweld â safleoedd hanesyddol/diwylliannol/crefyddol.</i></p>	Mae CUPHAT wedi dangos bod ymwelwyr â'r ardaloedd hyn yn ymwneud â'r dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol.	<p>Mae'r dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol yn ysgogwyr allweddol i ymwelwyr, gan gynnwys heicio ac ymweld â safleoedd treftadaeth fel cestyll neu amgueddfeydd.</p> <p>Mae cyfleoedd i ddefnyddio treftadaeth i ymgysylltu a denu mwy o ymwelwyr.</p> <p><i>Y tri phrif reswm dros ymweld yn yr arolwg llety: y dirwedd /cefn gwlad/traeth, gweithgareddau awyr agored anffurfiol, ymweld â safleoedd hanesyddol/diwylliannol/crefyddol.</i></p>	Mae CUPHAT wedi dangos bod ymwelwyr â'r ardaloedd hyn yn ymwneud â'r dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol.

Gofynion Data Allweddol	Ardaloedd CUPHAT Cymru		Ardaloedd CUPHAT Iwerddon	
	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolygon gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolwg gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT
<b>E. Heriau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Natur anghysbell.</li> <li>Diffyg cysylltedd digidol.</li> <li>Diffyg cyfleusterau (toiledau/caffis), gweithgareddau yn ystod tywydd gwael a hyrwyddo.</li> <li>Materion trafndiaeth.</li> <li>Argyfwng recriwtio.</li> <li>Cynnydd mewn costau byw a rhedeg o ddydd i ddydd.</li> </ul> <p><i>Y tair her fwyaf o ran denu gwesteion yn yr arolwg llety: Marchnata, cyfyngiadau hysbysebu, trafndiaeth wael, ddim yn lleoliad adnabyddus.</i></p> <p><i>Y tair prif her i westeion o ran aros yn hirach yn yr arolwg llety: diffyg amwynderau, diffyg safleoedd twristaidd mawr, mae cerddwyr yn symud ymlaen yn naturiol.</i></p>	<p>Mae CUPHAT wedi codi ymwybyddiaeth o'r heriau ac wedi rhoi cyngor a chymorth i rymuso cymunedau a busnesau lleol i fynd i'r afael â'r rhain lle bo hynny'n bosibl.</p> <p>Dangosodd arolygon darparwyr llety fod y rhai ym Mynyddoedd Cambria yn teimlo bod CUPHAT wedi eu helpu i oresgyn rhwystrau, ond nid oedd y rhai ym Mynydd Preseli wedi gwneud hynny.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Natur anghysbell.</li> <li>Diffyg hyrwyddo.</li> <li>Diffyg cyfleusterau (mae rhai ohonynt ar gau ar ddiwrnodau penodol).</li> <li>Materion trafndiaeth.</li> <li>Cynnydd mewn costau byw a rhedeg o ddydd i ddydd.</li> </ul> <p><i>Y tair her fwyaf o ran denu gwesteion yn yr arolwg llety: Marchnata, cyfyngiadau hysbysebu, trafndiaeth wael, natur anghysbell.</i></p> <p><i>Y tair prif her i westeion o ran aros yn hirach yn yr arolwg llety: diffyg amwynderau, diffyg safleoedd twristaidd mawr, cerddwyr yn symud ymlaen yn naturiol.</i></p>	<p>Mae CUPHAT wedi codi ymwybyddiaeth o'r heriau ac wedi rhoi cyngor a chymorth i rymuso cymunedau a busnesau lleol i fynd i'r afael â'r rhain lle bo hynny'n bosibl.</p> <p>Dangosodd arolygon darparwyr llety fod y rhai ym Mynyddoedd Wicklow yn teimlo bod CUPHAT wedi eu helpu i oresgyn rhwystrau, ond nid oedd y rhai ym Mynyddoedd Blackstairs wedi gwneud hynny.</p>
<b>F. Manteision</b>	Ddim ar gael		Ddim ar gael	



Gofynion Data Allweddol	Ardaloedd CUPHAT Cymru		Ardaloedd CUPHAT Iwerddon	
	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolygon gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT	Gwaelodlinau o adroddiad yr adolygiad interim <i>(Diweddarwyd lle bo'n berthnasol o ddata a gasglwyd yn yr arolwg gwerthuso terfynol)</i>	Newid posibl oherwydd y gwaith drwy CUPHAT
<b>G. Faint mae treftadaeth yn annog ymwelwyr</b>	Mae'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn ysgogwyr allweddol i ymwelwyr â Chymru ac i'r 2 ardal prosiect, felly gellid defnyddio hyn i ddenu mwy o ymwelwyr parchus a helpu i ddylanwadu ar ymddygiad.	Mae CUPHAT wedi defnyddio treftadaeth i ymgysylltu a denu mwy o ymwelwyr e.e. drwy gynhyrchu gwefan ymwelwyr sy'n codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth yr ardal drwy ffotograffiaeth, ail-greu wedi'i ddigideiddio, hanesion llafar ac ati, sefydlu rhwydwaith busnes twristiaeth, cyrsiau hyfforddi ar gyfer busnesau lleol.	Gellid defnyddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardaloedd i annog mwy o bobl i ymweld a threulio amser yn yr ardaloedd.	Mae CUPHAT wedi defnyddio treftadaeth i ymgysylltu a denu mwy o ymwelwyr e.e. drwy gynhyrchu gwefan ymwelwyr sy'n codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth yr ardal drwy ffotograffiaeth, ail-greu wedi'i ddigideiddio, hanesion llafar ac ati, sefydlu rhwydwaith busnes twristiaeth, cyrsiau hyfforddi ar gyfer busnesau lleol.
<b>H. Grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â hyrwyddo</b>	Mae'r rhyngrwyd yn ffynhonnell wybodaeth allweddol i ymwelwyr.	Mae CUPHAT wedi cynnwys y cymunedau lleol a busnesau twristiaeth wrth greu gwefan CUPHAT.  Dangosodd arolwg y darparwyr llety fod 21% o'r darparwyr sydd wedi clywed am brosiect CUPHAT wedi newid eu strategaethau marchnata o ganlyniad i weithgareddau CUPHAT.	Mae'r rhyngrwyd a ffrindiau a theulu yn ffynonellau gwybodaeth allweddol i ymwelwyr.	Mae CUPHAT wedi cynnwys y cymunedau lleol a busnesau twristiaeth wrth greu gwefan CUPHAT.  Dangosodd arolwg y darparwyr llety fod 21% o'r darparwyr sydd wedi clywed am brosiect CUPHAT wedi newid eu strategaethau marchnata o ganlyniad i weithgareddau CUPHAT.

## 5.2 EFFAITH CUPHAT

Mae prif effeithiau CUPHAT sy'n deillio o'r gwerthusiad yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

### 5.2.1 Y potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr, yr amser a dreulir a'r

#### gwariant yn yr ardal

#### EFFAITH ALLWEDDOL

Mae gan CUPHAT y potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr tramor o leiaf 5%, sef y targed, a fyddai hefyd yn arwain at fwy o wariant gan ymwelwyr.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymwelwyr a busnesau a holwyd yn dangos bod potensial i waith CUPHAT gynyddu nifer yr ymwelwyr, yr amser a dreulir a'r gwariant yn y pedair ARDAL ucheldir arfordirol.

Roedd yr arolwg darparwyr llety yn gofyn i'r ymatebwyr rhagweld newidiadau mewn lefelau meddiannaeth rhwng 2022 a 2023 ar gyfer pob ymwelydd ac yn arbennig ar gyfer ymwelwyr tramor. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Mynyddoedd Cambria – roedd 75% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, a 61% yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.
- Mynydd Preseli – roedd 25% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd yn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, er nad oedd yr un ymatebydd yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.
- Mynyddoedd Wicklow - roedd 46% o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd mewn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, a 48% yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.
- Mynyddoedd Blackstairs - Nid oedd unrhyw un o'r rhai a holwyd yn rhagweld cynnydd mewn lefelau meddiannaeth yr holl ymwelwyr, er bod 50% yn rhagweld cynnydd yn lefel meddiannaeth ymwelwyr tramor.

Er bod hyn, yn gyffredinol, yn dangos cynnydd yn y rhagolwg o ran lefelau meddiannaeth ymwelwyr, mae hefyd yn ymddangos ei fod yn dangos rhai canlyniadau anghyson mewn perthynas â Blackstairs. Gellir egluro hyn yn rhannol gan y gyfradd ymateb isel a'r ffaith bod yr ymatebwyr o ochr Carlow o Fynyddoedd Blackstairs, sydd yn ystumio'r canlyniadau, ond gallai hefyd ddangos rhagfynegiad y gallai'r farchnad dwf fod yn dwristiaid tramor yn hytrach na rhai cenedlaethol.

Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd a ragwelir yn y niferoedd yn gyffredinol o reidrwydd yn cydfynd yn dda â'r prif sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfweiliadau (darparwyr llety a busnesau), yn enwedig yng Nghymru lle nododd y rhai a gyfwelwyd niferoedd archebu is yn 2023 ar adeg y cyfweiliadau (gyda'r gobaith y byddai'r rhain yn gwella'n ddiweddarach yn y tymor).

Gofynnwyd i ddarparwyr llety hefyd a oeddent yn teimlo y byddai darpar ymwelwyr tramor yn fwy tebygol o ymweld â'r ardal o ganlyniad i waith CUPHAT. Ym Mynyddoedd Cambria a Wicklow, roedd llawer o'r darparwyr llety a oedd yn ymwybodol o CUPHAT yn teimlo bod ymwelwyr tramor yn fwy tebygol neu'n debygol o fod yn fwy tebygol o ymweld â'r ardal o ganlyniad i waith CUPHAT. Ond ym Mynydd Preseli a Mynyddoedd Blackstairs, roedd darparwyr

llety yn ansicr a fyddai gwaith CUPHAT yn annog mwy o ymwelwyr tramor i ymweld â'r ardal.

O ran yr ymwelwyr, un o'r prif rwystrau a nodwyd mewn perthynas â pheidio ag ymweld â'r ucheldiroedd oedd nad oeddent yn gwybod dim amdanynt. Yn ystod yr arolwg wyneb yn wyneb, rhoddwyd gwybodaeth i ymwelwyr am yr ardaloedd ucheldir perthnasol a dangoswyd ffotograffau a gynhyrchwyd gan brosiect CUPHAT. Roedd y canlyniadau'n dangos bod 43% o'r holl ymatebwyr wedi dweud o ganlyniad y byddent wedi bod yn 'debygol iawn' o ymweld â'r ardaloedd hyn pe baent yn gwybod amdanynt (ac roedd 40% arall wedi rhoi ateb 'eithaf tebygol'). Roedd yr ymatebion gan yr ymwelwyr tramor yn uwch gyda 46% o'r ymwelwyr tramor yn Iwerddon, a 75% o'r ymwelwyr tramor yng Nghymru yn dweud y byddent yn 'debygol iawn' o ymweld â'r ucheldiroedd.

Felly, mae'n ymddangos bod hyn yn dangos bod gan CUPHAT y potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr tramor o leiaf 5%, sef y targed, a fyddai hefyd yn arwain at fwy o wariant gan ymwelwyr.

Mae potensial hefyd i gynyddu hyd yr arhosiad, ond byddai'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr a holwyd o'r tu allan i'r ardal yn gweld hyn fel ymweliad undydd, er bod rhai wedi ymateb y gallent aros ychydig ddyddiau neu fwy yn dibynnu ar nifer o ffactorau anhysbys fel argaeledd llety addas a chyfleusterau eraill fel caffis, meysydd parcio ac ati yn yr ardal, beth sydd i'w wneud, a lleoedd i ymweld. Pe bai'r ffactorau hyn yn ffafriol ac y gallai pobl gael gwybod amdanynt, gallai hyn ymestyn hyd eu harhosiad i fwy na diwrnod.

Yn ôl arolygon y darparwyr llety, roedd pobl yn aros rhwng 2 a 4.5 noson ar gyfartaledd yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn felly'n dangos bod potensial i gynyddu hyd arhosiad ac felly gwariant yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, dylid nodi bod arosiadau byr yn gyffredin ymysg cerddwyr/beicwyr, yn enwedig ym Mynyddoedd Wicklow lle mae'r gwesteion yn heicio ar Ffordd Wicklow.

Soniodd llawer o bobl am yr awydd am brofiad dilys a gellir manteisio ar y cynnydd yn nifer y bobl sy'n chwilio am brofiad o'r fath hefyd. Mae gan CUPHAT y gallu i wneud hyn drwy hyrwyddo'r dreftadaeth drwy fwy o farchnata, targedu'r mathau hyn o ymwelwyr a chefnogi busnesau lleol i wneud yr un peth.

Mae ymwelwyr tramor yn ganran fawr o ymwelwyr ag Iwerddon, ond dim ond canran fach o'r ymwelwyr hyn sy'n dod i Gymru. O'r herwydd, mae potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr tramor â Chymru i raddau mwy drwy well cysylltiadau ag Iwerddon y gellid eu cyflawni drwy hyrwyddo a rhwydweithio'n well. Mae llawer o deithwyr rhyngwladol yn ymweld ag Iwerddon i olrhain eu gwreiddiau neu ymweld â chartref eu hynafiaid yn ogystal â phrofi tirwedd, treftadaeth a diwylliant Iwerddon. Gallai cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon bwysleisio'r hyn sy'n debyg rhwng yr ardaloedd hyn ac annog y teithwyr rhyngwladol hynny i ymweld ag ardaloedd tebyg yng Nghymru hefyd i gael profiad Cymreig dilys.

### **5.2.2 Ymwelwyr yn gallu ymgysylltu'n well â**

#### **threftadaeth**

##### **EFFAITH ALLWEDDOL**

**Mae CUPHAT wedi hyrwyddo treftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol y pedair ardal ucheldir arfordirol.**

**Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi darparu ffordd i ymwelwyr ymgysylltu'n hawdd**

â'r dreftadaeth, naill ai drwy wefan farchnata CUPHAT neu drwy alluogi a chefnogi busnesau lleol i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â threftadaeth.

Mae gan y pedair ardal ucheldir arfordirol dirwedd o harddwch naturiol heb ei difetha gan gynnwys mynyddoedd, coedwigoedd ac afonydd gyda chynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid unigryw sy'n ddeniadol i ymwelwyr, a mwynhau gweithgareddau anffurfiol fel cerdded, mwynhau natur a heddwch a thawelwch. Yn ogystal, mae gan yr ardaloedd hunaniaeth ddiwylliannol gref gyda defnydd tir traddodiadol, adeiladau lleol, iaith, caneuon traddodiadol, dawns, cerddoriaeth a llên gwerin. Mae treftadaeth hanesyddol gyfoethog ac amrywiol hefyd, o'r neolithig hyd heddiw, gan gynnwys safleoedd o'r oes efydd, treftadaeth Gristnogol gynnar, cysylltiadau diwylliannol Celtaidd. Mae llawer o lefydd i ymweld â nhw gan gynnwys safleoedd archeolegol, henebion, amgueddfeydd, tai hanesyddol, safleoedd crefyddol ac ardaloedd sy'n dangos tystiolaeth o weithgarwch pobl yn y gorffennol fel mwyngloddio. Mae gan bob ardal ei hymdeimlad unigryw ei hun o le, y gall ymwelwyr ymgysylltu ag ef. Roedd arolwg y darparwyr llety yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd treftadaeth ddiwylliannol/hanesyddol yr ardaloedd yn cael ei datblygu'n ddigonol yn aml, felly roedd ymwelwyr yn aml ddim yn ymwybodol neu'n ei chael yn anodd ymgysylltu â phob agwedd ar y dreftadaeth.

Mae CUPHAT wedi mynd i'r afael â ac wedi hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a naturiol amrywiol yr ucheldiroedd arfordirol hyn drwy 4 thema treftadaeth naturiol a diwylliannol allweddol: geomorffoleg a thirffurfiau, treftadaeth archeolegol, bioamrywiaeth a bywydau diwylliannol gan eu bod yn gyfle i greu mathau amrywiol o werth (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) y gall busnesau lleol eu hintegreiddio i'w cynnyrch neu wasanaeth. O'r gwaith a wnaed gydag ymwelwyr a busnesau twristiaeth, thema arall fyddai 'mwynhau'r awyr agored'.

Dangosodd yr arolwg ymwelwyr mai'r pedwar prif weithgaredd yr oedd pobl yn eu gwneud ar eu hymweliadau oedd ymweld â safleoedd hanesyddol / safleoedd diwylliannol / safleoedd crefyddol, mwynhau'r dirwedd / cefn gwlad / traeth, cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored anffurfiol (56%) ac ymweld ag atyniadau penodol. Mae hyn felly'n dangos bod yna lefel uchel o ymgysylltu â threftadaeth yn barod gan ymwelwyr. Pan fyddant yn cael rhagor o wybodaeth am y dreftadaeth, boed hynny drwy eu hymchwili eu hunain, o gyngor gan eu darparwr llety, tywyswyr teithiau neu yrwyr tacsis, mae gan bobl ddiddordeb mewn dysgu mwy, sy'n dangos bod awydd cryf i ymgysylltu mwy â'r dreftadaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos, er mwyn ymgysylltu'n well, bod angen i bobl gael yr wybodaeth neu fod angen iddynt allu cael gafael arni mor hawdd â phosibl. Os yw'n anodd dod o hyd iddi, yna mae pobl yn debygol o'i cholli ac yn hytrach byddant yn ymweld â'r ardaloedd hynny sy'n cael eu gwasanaethu'n well ar-lein neu mewn mannau eraill. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn Iwerddon lle mae llawer o ymwelwyr tramor yn dibynnu ar dywyswyr teithiau i gael gwybodaeth yn hytrach nag ymchwilio i ymweliadau eu hunain.

Dangosodd yr arolwg ymwelwyr fod y rhan fwyaf o ymwelwyr yn defnyddio chwiliadau Google i gynllunio eu teithiau ac i ymchwilio ymhellach i'w hymweliad pan fyddant ar wyliau. Byddai gwefan benodol a oedd yn cynnwys gwybodaeth i gyd mewn un lleoliad felly'n helpu i wneud ardaloedd yr ucheldir yn fwy amlwg ac felly'n helpu ymwelwyr i ymgysylltu â'r dreftadaeth leol. Mae gwefan CUPHAT yn bwriadu cynnwys straeon o'r hanesion llafar mewn perthynas â diwylliant lleol, ffotograffau a hediadau dros y dirwedd a digideiddio rhai o'r nodweddion treftadaeth hanesyddol. Bydd y wefan hefyd yn hyrwyddo twristiaeth adfywiol yn yr ardaloedd.

Bydd y rhain i gyd yn helpu i ddod â'r dreftadaeth yn fyw i ymwelwyr ac yn eu hannog i ymweld a phrofi'r dreftadaeth drostynt eu hunain.

### 5.2.3 Rhwystrau a heriau

#### EFFAITH ALLWEDDOL

Mae CUPHAT wedi goresgyn rhai o'r rhwystrau a'r heriau i bobl sy'n ymweld â'r ardaloedd drwy wella gwelededd yr ardaloedd a'u treftadaeth. Mae pobl bellach yn ymwybodol ohonynt fel llefydd i ymweld â hwy. Tynnwyd sylw at rwystrau eraill, fel y rheini sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, gyda'r llunwyr polisi.

Nodwyd rhwystrau a heriau tebyg sy'n effeithio ar allu pobl i ymweld â'r ardaloedd ac ymgysylltu â'r dreftadaeth gan ymwelwyr, darparwyr llety a busnesau lleol.

Fel y trafodwyd, roedd un o'r prif rwystrau a oedd yn atal pobl rhag ymweld â'r ucheldiroedd yn ymwneud â'r ffaith bod yr ardaloedd yn anghysbell, yn anhysbys, ac nad ydynt yn cael eu marchnata, felly nid yw ymwelwyr yn ymwybodol ohonynt fel cyrchfan posibl.

Pan gawsant wybod am yr ardaloedd a gweld lluniau, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr a holwyd yr hoffent ymweld â'r ardaloedd hyn. Felly, mae mynediad at wybodaeth am yr ardaloedd yn rhwystr allweddol y mae prosiect CUPHAT wedi ceisio ei oresgyn. Mae wedi mynd i'r afael â hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Drwy wella gwelededd treftadaeth yr ardal i ymwelwyr drwy gynhyrchu gwefan.
- Digiddeiddio nodweddion hanesyddol i'w gwneud yn fyw i ymwelwyr.
- Recordio hanesion llafar.
- Gweithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o dreftadaeth yr ardal.
- Helpu busnesau lleol i fod yn fwy ymwybodol o'u treftadaeth leol a'u helpu i ddatblygu ffyrdd o'i hyrwyddo'n well i ymwelwyr.
- Datblygu gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion sy'n cofnodi newidiadau mewn tirweddau, ansawdd amgylcheddol, a phlanhigion ac anifeiliaid. Bydd hyn yn darparu data i dwristiaid ond mae hefyd yn caniatáu i dwristiaid ymgysylltu â chasglu'r wybodaeth hon, gan alluogi lefel ddyfnach o ymwybyddiaeth, ymgysylltiad a chyfranogiad, gan greu ymdeimlad o berchnogaeth.

Her arall sy'n wynebu cymunedau'r ucheldir yw argaeledd a hwylustod mynediad at wasanaethau allweddol fel siopau, toiledau cyhoeddus, caffis, parcio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Er mwyn ymweld â'r ardaloedd hyn, mae yna ddibyniaeth ar gael mynediad i gerbyd, sydd felly'n effeithio ar allu rhai i ymweld â'r ardaloedd. Felly, roedd trafndiaeth gyhoeddus yn y pedwar prif reswm a nodwyd gan y darparwyr llety fel her o ran denu gwesteion i'w llety. Soniodd ymwelwyr am hyn yn aml hefyd, er bod rhai yn llai pryderus gan y byddent yn teithio i'r ardaloedd mewn car beth bynnag.

Er nad yw'r rhain yn faterion y gall CUPHAT fynd i'r afael â nhw, mae'r prosiect wedi tynnu sylw at hyn fel mater allweddol sy'n dylanwadu ar dwristiaeth yn yr ardaloedd hyn. Mae hefyd wedi helpu cymunedau i fynd i'r afael â hyn ar lefel leol yn ogystal â darparu ffordd o dynnu sylw'r llunwyr polisi at y mater hwn. Mae yna benbleth yma hefyd wrth geisio hybu mwy o dwristiaeth adfywiol a thrafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd sydd ond yn gallu cael eu defnyddio mewn ceir preifat.



Yn Iwerddon, mae ymwelwyr tramor yn aml yn dibynnu ar deithiau wedi'u trefnu i ymweld â llefydd. Mae'r rhan fwyaf o deithiau'n ymweld â'r prif atyniadau a threfi yn unig, felly mae hyn yn rhwystr rhag denu mwy o ymwelwyr tramor i'r ucheldiroedd hyn. Hefyd, yng Nghymru, mae llawer o longau mordaith yn dod i Abergwaun sydd wrth ymyl ardal Mynydd Preseli, ac mae pobl o'r llongau mordaith yn aml yn mynd ar deithiau wedi'u trefnu i Dyddewi, ond nid oes teithiau i'r ucheldir.

Gofynnwyd i'r darparwyr llety a oeddent yn teimlo bod CUPHAT wedi eu helpu i oresgyn unrhyw heriau neu rwystrau. Roedd hanner y darparwyr llety a arolygwyd ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd Wicklow a oedd yn ymwybodol o CUPHAT yn teimlo bod y prosiect wedi helpu neu y bydd yn eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau. Fodd bynnag, ym Mynyddoedd Blackstairs a Mynydd Preseli, nid oedd yr un o'r darparwyr hynny a oedd yn ymwybodol o'r prosiect i ddechrau yn teimlo ei fod wedi helpu/y byddai'n eu helpu i oresgyn heriau neu rwystrau.

#### **5.2.4 Galluogi twristiaeth adfywiol**

##### **EFFAITH ALLWEDDOL**

**Mae CUPHAT wedi darparu hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth i fusnesau a chymunedau lleol i'w helpu i ddatblygu dull adfywiol o ymdrin â thwristiaeth yn eu hucheldiroedd arfordirol. Roedd hyn hefyd yn rhoi hyder i fusnesau fwrw ymlaen â'u syniadau.**

Roedd y ffocws ar wella twristiaeth gynaliadwy leol drwy ddarparu cymorth a chefnogaeth i fusnesau a chymunedau lleol yn cael ei gydnabod yn dda, gyda'r arolygon a'r cyfweiliadau'n darparu llawer o fyfyrddodau cadarnhaol ar yr effaith yr oedd CUPHAT wedi'i chael yn yr ardaloedd i greu twristiaeth fwy cynaliadwy. Dangosir hyn hefyd yn yr asesiad o thema drawsbynciol cynaliadwyedd. Mae'r ymateb hefyd wedi dangos bod mwy o ymwybyddiaeth ac awydd am nid yn unig twristiaeth gynaliadwy ond hefyd i symud tuag at fodel twristiaeth fwy adfywiol yn yr ardaloedd hyn gan adeiladu ar y dreftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol gyfoethog.

Cynhaliodd CUPHAT gwrs o'r enw 'Rhaglen Dwristiaeth Adfywiol ar gyfer Microfentrau a Grwpiau Cymunedol'. Roedd hyn wedi'i anelu at fusnesau a chymunedau lleol. Roedd y cwrs pum wythnos yn eu hannog i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynaliadwy a darparu hyfforddiant a syniadau newydd ynghylch gwelliannau amgylcheddol, cynaliadwyedd, yr economi gylchol, cyfleoedd cyllido, gwerth cynnyrch lleol, brandio, a sut i farchnata eu treftadaeth a'u diwylliant lleol. Fe wnaeth y cwrs eu helpu i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer eu microfenter neu brosiect cymunedol.

Yn ogystal â chynghor ymarferol, roedd y cyrsiau hefyd yn rhoi'r gefnogaeth a'r hyder oedd eu hangen ar bobl i ddatblygu eu syniadau. Roedd hyn yn creu ymdeimlad o gymuned gynaliadwy leol a allai weithio gyda'i gilydd i ddarparu twristiaeth adfywiol.

O ganlyniad i'r cyrsiau, mae llawer o fusnesau lleol bellach yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu â'r cysyniad twristiaeth adfywiol. Mae hyn wedi cynnwys cysylltu eu darpariaeth twristiaeth ag iechyd a lles, ymwybyddiaeth ofalgar, neu natur, defnyddio cynnyrch neu grefftiau lleol, creu model busnes mwy cynaliadwy a chymunedau a busnesau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu seilwaith lleol, cadw'r diwylliant lleol yn fyw, datblygu syniadau newydd ac arferion gorau.

Un o nodau CUPHAT oedd cynyddu nifer yr ymwelwyr tramor 5%, ond yr hyn sy'n glir o'r adborth yw ei fod hefyd yn ceisio gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n dod neu'r bobl a allai ddod yn gallu cael mwy o'u hymweliadau fel eu bod wedyn yn mynd adref gyda phositifrwydd a allai ddylanwadu ar rywun arall. Drwy dynnu sylw at yr amrywiaeth o dreftadaeth sydd ar gael, mae CUPHAT yn helpu i gyflawni hyn.

#### **5.2.5 Gellir defnyddio treftadaeth yr ardal fel atyniad i ymwelwyr gyda gwell**

##### **hyrwyddo**

###### **EFFAITH ALLWEDDOL**

**Mae CUPHAT wedi helpu busnesau twristiaeth i ddod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd treftadaeth yr ucheldir arfordirol a sut y gellir ei ddefnyddio nid yn unig i hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal yn gyffredinol ond hefyd eu busnesau eu hunain.**

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae gan bob un o'r pedair ardal ucheldir arfordirol amrywiaeth eang o dreftadaeth i ymwelwyr eu harchwilio ac ymgysylltu â hwy. Dangosodd yr arolygon, pan fyddant yn ymwybodol ohoni, fod treftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol ardal yn atyniad mawr i ymwelwyr. Mae CUPHAT wedi darparu mwy o gyfleoedd i hyrwyddo treftadaeth y pedair ardal ucheldir arfordirol yn well. Yn benodol, mae hyn wedi bod yn hynod o fuddiol i'r busnesau twristiaeth llai a allai fod ar eu colled, neu sy'n fwy anodd dod o hyd iddynt yn achos y rhan fwyaf o dwristiaid.

Yn ogystal, gall y busnesau twristiaeth ddefnyddio treftadaeth yr ardal i helpu i hyrwyddo eu busnesau eu hunain. Yn yr arolwg darparwyr llety roedd 21% o'r darparwyr a oedd wedi clywed am brosiect CUPHAT wedi newid eu strategaethau marchnata o ganlyniad i weithgareddau CUPHAT. Roedd hyn yn aml o ganlyniad i fynychu'r cyrsiau a oedd yn edrych ar frandio, egwyddorion adrodd straeon, marchnata a thueddiadau marchnata fel 'twristiaeth araf' a allai eu helpu i werthu treftadaeth yr ardal yn fwy effeithiol.

#### **5.2.6 Cymunedau sy'n gallu cyfranogi mewn cydweithrediad**

##### **trawsffiniol**

###### **EFFAITH ALLWEDDOL**

**Mae CUPHAT wedi galluogi busnesau a chymunedau i gyfranogi mewn cydweithrediad trawsffiniol sydd wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth, dysgu a chyfleoedd i weithio ar y cyd.**

Mae'r cymunedau sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect wedi gallu elwa o gydweithredu trawsffiniol drwy ymweliadau prosiect a chydweithio arall. Mae'r rhwydwaith twristiaeth sy'n cael ei greu a'i gefnogi drwy CUPHAT hefyd wedi cryfhau eu gallu i gyfranogi mewn cydweithrediad trawsffiniol. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth o bob ardal a sut mae eraill yn delio â materion tebyg mewn ardaloedd tebyg.

#### **5.2.7 Busnesau twristiaeth yn rhwydweithio â'i**

##### **gilydd**

###### **EFFAITH ALLWEDDOL**

**Mae rhwydwaith twristiaeth CUPHAT wedi cysylltu pobl leol sy'n gallu gweithio gyda'i gilydd nawr i hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal a hyrwyddo a gwella eu busnesau eu hunain.**

Gall cymunedau gwledig ffynnu drwy gyd-greu a chyd-ddylunio atebion i'r heriau y maent yn eu hwynebu. Felly, mae cydweithio rhwng busnesau twristiaeth, llunwyr polisi a'r gymuned

yn gallu helpu i greu cyfleoedd drwy ddiffinio problemau a goresgyn rhwystrau gyda'i gilydd. Mae'r cyfleoedd rhwydweithio a ddarperir drwy CUPHAT wedi creu'r amodau i gyflawni hyn. Mae wedi cydnabod y gall y cymunedau gysylltu nid yn unig oherwydd eu lleoliad daearyddol a'u treftadaeth a rennir ond hefyd oherwydd eu gwerthoedd cyffredin, eu rhwydweithiau cymdeithasol a'u cysylltiadau.

Mae CUPHAT wedi codi ymwybyddiaeth o fusnesau eraill yn eu hardal leol a hefyd yn yr ardaloedd prosiect eraill. Roedd hyn yn cael ei weld fel canlyniad allweddol gan ei fod yn cysylltu cymunedau, sefydliadau a busnesau â'i gilydd er mwyn iddynt allu tyfu twristiaeth ar y cyd mewn ffordd gynaliadwy. Roedd datblygu rhwydwaith cefnogol ar draws ardal CUPHAT yn golygu y gallai'r busnes a chymunedau yn y ddwy wlad weld y tebygrwydd rhwng y gwahanol ucheldiroedd, eu cymunedau, diwylliant cyffredin, heriau a chyfleoedd ar gyfer twristiaeth adfywiol.

### **5.2.8 Dangosyddion Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Gydweithredu**

#### **Iwerddon-Cymru**

##### **EFFAITH ALLWEDDOL**

**Mae prosiect CUPHAT wedi cyfrannu at y dangosyddion mewn perthynas â blaenoriaethau Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon.**

Mae prosiect CUPHAT wedi cyflawni blaenoriaethau allweddol Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon, yn enwedig y dangosyddion mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 h.y. "Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol" sydd â'r amcan penodol o wireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol mewn modd cynaliadwy wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol.

Oherwydd amseriad y gwerthusiad mewn perthynas â chwblhau gweithgarwch CUPHAT, mae'n rhy gynnar i fesur cynnydd gwirioneddol yn nifer yr ymwelwyr â'r cymunedau arfordirol. Fodd bynnag, mae'r arolygon wedi dangos y potensial ar gyfer cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar sail asedau naturiol a diwylliannol yr ardal ac roedd yr arolygon hefyd yn dangos bod y potensial hwn yn uchel cyn belled bod y bobl yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn a bod seilwaith priodol i gefnogi eu hymweliadau. Roedd treftadaeth hanesyddol, naturiol a diwylliannol yr ardaloedd yn atyniad allweddol ac felly gallai fod yn sbardun i dwf economaidd yn y 12 cymuned.

Mae Tabl 16 yn dangos sut mae allbynnau / canlyniadau prosiect CUPHAT yn helpu i gyflawni dangosyddion Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon mewn perthynas ag Echel Blaenoriaeth 3. Mae'n debygol bod y rhain i gyd wedi cael eu cwblhau, a bydd llwyddiant parhaus rhai yn dibynnu ar weithredu ar waddol ar ôl i'r prosiect a ariennir ddod i ben yn mis Awst 2023.

**Tabl 16 – Gwerthuso yn erbyn Dangosyddion Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon**

Dangosydd	Uned Fesur	Targed	Allbynnau / canlyniadau gweithgareddau CUPHAT
Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir	Cyferwerth ag amser llawn	4 FTE	2 mewn lle a 2 wedi'u cynllunio / ar waith.
Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	Prosiectau peilot wedi'u cwblhau	4	4
Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol, naturiol neu dreftadaeth	Rhwydweithiau trawsffiniol	4	5 (Pedair rhwydwaith twristiaeth newydd ym mhob un o bedair ardal arfordirol yr ucheldir a rhwydwaith trawsffiniol)
Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn cydweithrediad trawsffiniol ynghylch twristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth	Cymunedau	12	12

### 5.3 Cyfyngiadau

Er bod swm da ac, yn gyffredinol, ansawdd da o ddata ar gael i hysbysu'r gwerthusiad hwn o'r prosiect, cydnabyddir y bu cyfyngiadau penodol, a amlinellir fel a ganlyn:

- Effeithiodd pandemig COVID-19 ar dwristiaeth yng Nghymru ac Iwerddon fel y gwnaeth mewn mannau eraill. Roedd hyn yn effeithio ar y gallu i gymharu data a thueddiadau diweddar gyda data'n debygol o gael eu heffeithio gan fwy o wyliau gartref. Felly, mae'n anodd darparu asesiad meintiol o effaith CUPHAT ar nifer yr ymwelwyr.
- Arweiniodd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i gyflawni prosiect CUPHAT at brosiect tair blynedd yn cael ei gyflwyno mewn 18 mis. Mae'n cymryd amser hir i ddatblygu ymgysylltu â'r gymuned h.y. symud y gymuned o ymwybyddiaeth - cyfranogi - ymgysylltu - cydweithio. Roedd cyfnod byr y prosiect hwn wedi golygu nad oedd wedi cael digon o amser i'w wreiddio'n ddwfn yn y cymunedau.
- Mae'r gwerthusiad hwn wedi cael ei gynhyrchu cyn diwedd y prosiect ac yn benodol cyn i'r gweithgareddau a gynhaliwyd gael cyfle i gael effaith ar lawr gwlad. O'r herwydd, mae wedi bod yn anodd casglu tystiolaeth am yr effeithiau y gallai'r prosiect eu cael dros y tymor hwy, fel cynyddu nifer yr ymwelwyr tramor a mwy o ymgysylltu â threftadaeth yr ucheldiroedd arfordirol. Mae'r cyfyngiad hwn wedi cael ei liniaru drwy archwilio'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg a manteision parhaus a gwaddol gweithgarwch y prosiect ar gyfer y busnes twristiaeth allweddol yn yr ardaloedd yn ogystal â'u heffaith bosibl ar ymwelwyr.
- Mae yna ddiffyg data sylfaenol ar gyfer y pedair ardal ucheldir arfordirol benodol h.y. nifer yr ymwelwyr, hyd yr arhosiad, gwariant. Oherwydd amserlen y prosiect ac amseriad y gwerthusiad, roedd casglu data gwaelodlin pellach yn her.

- Roedd nifer o gyfyngiadau yn yr arolygon ymwelwyr:
  - Oherwydd amseriad y gwerthusiad, roedd yn rhaid cynnal yr arolygon ymwelwyr ar-lein ac wyneb yn wyneb rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, felly y tu allan i'r prif dymor twristiaeth.

- Petai hyn wedi cael ei gynnal yn ystod misoedd yr haf, yna gellid bod wedi disgwyl mwy o ymatebion.
- Er bod nifer o wahanol ddulliau wedi cael eu defnyddio i estyn allan at ymwelwyr, roedd nifer y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein yn siomedig iawn, a arweiniodd at ddim ond 2 ymateb ar-lein.
  - Efallai nad yw'r cymhelliant i gymryd rhan mewn raffl i ennill nwyddau CUPHAT wedi annog mwy i gymryd rhan, ac efallai y byddai wedi bod yn ddefnyddiol ystyried cymhelliant mwy deniadol
  - Cynhaliwyd yr arolygon wyneb yn wyneb yn ystod yr wythnos yn ystod mis Mehefin. Er bod y dull hwn yn llwyddiannus ac y siaradwyd â nifer o ymwelwyr, roedd ond yn targedu'r math hwnnw o ymwelwyr sy'n ymweld ar yr adeg honno o'r flwyddyn, felly roedd yn colli teuluoedd a fyddai'n fwy tebygol o ymweld yn ystod gwyliau'r ysgol.
  - Roedd nifer o gyfyngiadau o ran yr arolygon darparwyr llety a busnes:
    - Er i ni gysylltu â dros 400 o ddarparwyr llety, gyda nifer o negeseuon atgoffa a hysbysebu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo gan rai sefydliadau twristiaeth eraill, dim ond nifer fach a gwblhaodd yr arolwg. Gallai'r rhesymau dros y gyfradd ymateb arbennig o isel hon (6.8%) fod oherwydd nad oeddent wedi clywed am y prosiect, felly nid oeddent yn gallu gweld gwerth mewn ymateb, amseriad yr arolwg ar ddechrau tymor y gwanwyn/haf, amharodrwydd pobl i gwblhau arolygon ar-lein, pwysau amser, natur y cwestiynau. Defnyddiwyd cymhelliant ar ffurf cynnyrch CUPHAT i annog mwy o bobl i gymryd rhan, ond efallai y byddai wedi bod yn fwy llwyddiannus pe defnyddiwyd cymhelliant a allai fod wedi cael apêl ehangach, ond oherwydd rheolau cyllido nid oedd hyn yn bosibl.
    - Doedd dim modd cysylltu â llety Airbnb.
    - Roedd yna nifer cyfyngedig o ddarparwyr llety a busnesau twristiaeth y gellid cysylltu â nhw yn ardal Blackstairs.
    - Er gwaethaf cysylltu â 35 o fusnesau, gyda nifer o negeseuon atgoffa a hysbysebu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol, dim ond nifer fach oedd yn fodlon cael eu cyfweld. Roedd y gyfradd ymateb yn 20%, sy'n rhesymol ar gyfer arolwg, ond credir bod y rhesymau pam nad oedd yn uwch yr un fath â'r rhai a restrir uchod ar gyfer y darparwyr llety.
    - Efallai nad yw'r cymhelliant i gymryd rhan mewn raffl i ennill nwyddau CUPHAT wedi annog mwy i gymryd rhan, ac efallai y byddai wedi bod yn ddefnyddiol ystyried cymhelliant mwy deniadol
    - Roedd nifer y bobl a fynychodd y gwyliau dathlu cymunedol tua diwedd y prosiect yn isel. Roedd y stondin werthuso yn yr ŵyl wedi gobeithio casglu barn a safbwyntiau amrywiaeth eang o aelodau busnes a chymunedol a oedd wedi bod yn rhan o CUPHAT, felly roedd y niferoedd isel yn effeithio ar y maes casglu data hwn.
  - Roedd y contract gwerthuso wedi'i gyfyngu i gasglu safbwyntiau gan ymwelwyr, darparwyr llety a busnesau twristiaeth lleol. Nid oedd yn casglu barn benodol y rhai sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r prosiect h.y. rheolwyr prosiect a thîm CUPHAT neu gan y gwahanol sefydliadau twristiaeth.
  - Roedd y cyfraddau ymateb cyfyngedig i'r arolygon (ar-lein ac wyneb yn wyneb) yn golygu na fu'n bosibl cofnodi'r amrywiaeth ehangaf o safbwyntiau, ond mae'r rheini sydd wedi cael eu casglu yn rhoi darlun da o'r prosiect, ei daith a'r canlyniadau a'r effeithiau terfynol.

## 5.4 Gwersi a ddysgwyd

Yn ogystal â'r cyfyngiadau a amlinellwyd yn adran 4.3, nodwyd nifer o faterion gan gyfranogwyr yn yr arolygon mewn perthynas â'r hyn y gallai CUPHAT fod wedi'i wneud yn well a gwersi a ddysgwyd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn siomedig nad oedd cyllid ar gyfer gwelliannau cyfalaf, ond nodir bod hyn y tu allan i gwmpas CUPHAT oherwydd y cyfyngiadau cyllido. Fodd bynnag, roedd hyfforddiant y prosiect yn cynnwys edrych ar gyllid a chyfleoedd partneriaeth, ffrydiau ariannu, sut i gysylltu â chyllidwyr a sut i fodloni'r meini prawf penodol. Y nod oedd cefnogi'r microfentrau neu brosiectau cymunedol gyda chyllid, yn hytrach na darparu cyllid drwy'r prosiect. Efallai y gellid bod wedi rheoli disgwyliadau pobl yn fwy effeithiol.

Yr agwedd allweddol a amlygwyd y gellid bod wedi'i gwneud yn well oedd mewn perthynas â chyfathrebu prosiectau, a nodwyd y materion canlynol:

- Roedd y cyfathrebu'n arbennig o araf ar ddechrau'r prosiect a dim ond drwy hap a damwain y daeth llawer o'r bobl a holwyd i wybod amdano ac yn aml yn hwyr yn y dydd. Un awgrym oedd y dylai gwefan fod wedi cael ei datblygu'n gynt i alluogi cyfathrebu'n gynharach yn y cylch prosiect neu fwy o hysbysebu lleol, er enghraifft yn y Cambria News, posterï yn y dref lleol neu allgymorth i grwpiau fel Sefydliad y Merched, corau a chapelï.
- Ystyriwyd y gallai marchnata, cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a hysbysebu cyrsiau a digwyddiadau fod wedi bod yn gryfach, yn ogystal â chyfathrebu o fewn y gymuned ehangach. Er enghraifft, roedd angen mwy o rybudd i hyrwyddo a hysbysebu digwyddiadau a gwylïau CUPHAT yn lleol i annog mwy o fynychwyr.
- Roedd presenoldeb gwael yn y gwylïau hefyd o bosibl oherwydd ei fod yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos gyda mwy o debygolrwydd o fynychu ar benwythnos oherwydd ymrwymïadau gwaith yn ystod yr wythnos.

Thema debyg i gyfathrebu oedd yr angen i allu cyflwyno busnesau'n well. Er y croesawyd yr amrywiaeth o fusnesau a siaradwyr, soniwyd y byddai wedi bod yn well i bawb gyflwyno eu hunain a'u busnes ar ddechrau digwyddiadau fel bod gan bawb well syniad o bwy oedd yn yr ystafell a gwell dealltwriaeth o gefndir ei gilydd.

Cyfeiriwyd at faint y grŵp hefyd gan un cyfranogwr a oedd o'r farn y byddai wedi bod yn well trin grwpiau ar wahân er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar faterion penodol.



## 6.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

### 6.1 CASGLIADAU

Mae'r gwerthusiad hwn wedi dangos, yn gyffredinol, bod prosiect CUPHAT wedi bodloni'r amcan "cynyddu a gwella twristiaeth yn yr ucheldiroedd arfordirol mewn pedwar rhanbarth yn Iwerddon a Chymru drwy ddatblygu amrywiaeth o fentrau a gynlluniwyd i ysgogi diddordeb yn y pedair ardal ac ychwanegu gwerth at brofiad ymwelwyr." Mae CUPHAT hefyd wedi cyfrannu at ddangosyddion Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Gydweithredu Cymru Iwerddon.

Mae'r gwerthusiad hwn nid yn unig wedi edrych ar effaith CUPHAT ond hefyd wedi arwain at wybodaeth ychwanegol i hysbysu'r llinell sylfaen o wybodaeth yn y pedair ardal ucheldir arfordirol.

Mae ymgysylltu effeithiol â'r gymuned yn cymryd amser i'w wreiddio ac nid yw CUPHAT ond wedi cael amser byr i ddatblygu, gyda'r prosiect tair blynedd hwn yn cael ei gyflawni o fewn dim ond 18 mis. Mae hyn wedi bod yn her. Fodd bynnag, mae'r prosiect wedi cyflawni ei amcanion ac wedi cychwyn cyfres o weithgareddau a allai gael effaith sylweddol a pharhaol. Mae yna nifer o straeon am lwyddiant allweddol sy'n adlewyrchu effaith CUPHAT, a chrynoir y rhain fel a ganlyn:

- Mae CUPHAT wedi **codi ymwybyddiaeth o'r ucheldiroedd arfordirol** fel lleoedd i ymweld â nhw a'r rôl y gall treftadaeth naturiol, ddiwylliannol a hanesyddol ei chwarae i annog mwy o ymwelwyr, gan gynnwys rhai o dramor. Mae CUPHAT wedi helpu busnesau i ddeall mwy am eu treftadaeth leol ac i ymfalchïo ynddi er mwyn iddynt allu trosglwyddo hyn i ymwelwyr.
- Er ei bod yn rhy gynnar i ddweud a yw CUPHAT wedi cael **effaith gadarnhaol ar dwristiaeth adfywiol** yn yr ardaloedd, mae'n sicr bod llawer o agweddau cadarnhaol ar waith CUPHAT a fydd yn debygol iawn o gyflwyno dull mwy adfywiol o ymdrin â thwristiaeth yn y pedair ardal.
- Mae CUPHAT yn canolbwyntio ar **weithio gyda microfentrau<sup>1</sup>**, gan gynnwys y rhaglen hyfforddi a'r canllawiau a ddarparodd, sydd wedi rhoi hyder i fusnesau twristiaeth lleol ac wedi eu herio i feddwl am sut y gallent fod yn fwy cynaliadwy ac annog mwy o ymwelwyr.
- Bydd gwefan a strategaeth **farchnata** CUPHAT yn rhoi mwy o gyfleoedd i hyrwyddo'r ardaloedd yn well, gan wella gwelededd yr ardaloedd i ymwelwyr a'u helpu i gael gafael ar wybodaeth yn haws. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i fusnesau twristiaeth llai ac yn cefnogi dull adfywiol.
- Mae CUPHAT wedi darparu cyfle ar gyfer **rhwydweithio** busnes i fusnes (b2b) nad yw wedi digwydd o'r blaen. Mae sawl mantais i hyn, gan gynnwys cysylltu busnesau bach amrywiol lleol, cydweithio, creu ymdeimlad o gymuned, datblygu cynlluniau ar y cyd ar gyfer cyfleusterau lleol a datblygu cyfleoedd newydd i annog twristiaeth adfywiol.

Bydd y llwyddiant parhaus ar gyfer twristiaeth adfywiol yn dibynnu ar waddol o gynnal camau

gweithredu yn y dyfodol, y tu hwnt i gyfnod cyllido'r prosiect sy'n dod i ben ym mis Awst 2023.

Mae camau gweithredu o'r fath yn gofyn am gefnogaeth barhaus i ardaloedd y prosiect i hyrwyddo twristiaeth, naill ai drwy barhad penodol gweithgareddau'r prosiect, neu drwy gefnogaeth ychwanegol gan y llywodraeth, boed hynny drwy ddarparu cyllid ychwanegol neu drwy ddatblygu fframwaith polisi cefnogol.

## 6.2 ARGYMHELLION AR GYFER GWADDOL

Mae CUPHAT wedi dangos bod angen parhaus i hyrwyddo'r pedair ardal ucheldir arfordirol ar gyfer twristiaeth ar raddfa ehangach nag a ddigwyddodd o'r blaen. Mae cydnabyddiaeth gref hefyd o'r angen i barhau i gefnogi'r busnesau a'r cymunedau er mwyn cyflawni twristiaeth adfywiol yn llawn. Mae hefyd yn bwysig bod y wefan newydd ar gyfer yr ardaloedd yn cael ei hyrwyddo a'i chadw'n berthnasol a'i diweddarau er mwyn hybu twristiaeth. Mae angen hwyluso hyn.

Cytunodd pawb a oedd yn rhan o'r arolygon fod angen sicrhau cydweithio ac ymgysylltu parhaus a'r pryder yw sut bydd hyn yn digwydd wrth i'r prosiect ddod i ben a "beth sy'n digwydd nesaf?", a'r gwir brawf fydd cynaliadwyedd y prosiect yn y dyfodol.

Cydnabuwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn bod cyflawni cynaliadwyedd ac ymgysylltu â'r gymuned yn cymryd amser, mai dim ond ychydig o amser y mae CUPHAT wedi'i gael i fwrw ymlaen â hyn ac, o'r herwydd, er mwyn peidio â cholli momentwm, byddai'n well pe gellid parhau â rhai elfennau o'r prosiect.

Nod CUPHAT yw ymgorffori cynaliadwyedd drwy ddefnyddio technolegau digidol. Mae grŵp Facebook ar gyfer y rhwydwaith twristiaeth a fydd yn parhau ar ôl y prosiect a phedwar grŵp Facebook cymunedol 'Byw fel rhywun lleol' ar wahân – un ar gyfer pob ardal. Gall busnesau lleol a threfnwyr digwyddiadau ddefnyddio'r rhain i ddiweddarau'r hyn sy'n digwydd yn lleol i dwristiaid a byddant yn goroesi y tu hwnt i'r prosiect.

Mae CUPHAT wedi bod yn gatalydd sydd wedi dod â chymunedau a busnesau at ei gilydd. Felly, i ryw raddau, mater i'r cymunedau hynny yn awr yw cynnal y cysylltiadau hynny a sicrhau bod y rhain yn mynd y tu hwnt i ddiwedd y prosiect. Fodd bynnag, mae'n debygol, heb y gefnogaeth barhaus, na fydd hyn yn digwydd, felly gellid gwneud hyn naill ai drwy barhau â'r prosiect, petai hynny'n bosibl, neu'n fwy tebygol drwy gyllid arall, gan y Llywodraeth o bosibl, i sicrhau bod yr adnoddau a gynhyrchir gan CUPHAT, y cyngor a'r gefnogaeth a roddir, a'r rhwydweithiau sy'n cael eu creu yn cael eu cynnal a'u hymestyn i'r dyfodol. Dylai gwaith yn y dyfodol hefyd ystyried gweithio'n agos gyda'r sefydliad twristiaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu yn yr ardaloedd fel Wicklow Tourism, Pentir Pumlumon a Menter Mynyddoedd Cambria a allai helpu i ddatblygu'r ymgysylltu.

Mae'r dyfyniad canlynol yn crynhoi hyn.

*"Mae'r prosiectau hyn yn mynd a dod – mae angen rhywbeth parhaus i gynnal y momentwm a pharhau â'r gefnogaeth – does gan lawer o fusnesau twristiaeth bach ddim y gallu i fynd â rhai o'r pethau hyn rhagddynt eu hunain yn ogystal â rhedeg eu busnesau bach."*

Ar ben hynny, gellid defnyddio cyllid i ddarparu hyb twristiaeth i sicrhau parhad twristiaeth adfywiol gynaliadwy a darparu cymorth adeiladol i ddarparwyr twristiaeth. Byddai hyn yn gofyn am staff cyflogedig i arwain a magu hyder, ac i weithio gyda busnesau a chymunedau.

Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth farchnata ar gyfer busnesau bach yn mynd rhagddo, gyda'r brand 'Adfywio ac Archwilio' ar gyfer yr ucheldiroedd arfordirol sy'n uno ac yn cynrychioli'r busnesau lleol, gan ei gwneud yn haws hyrwyddo'r ardaloedd ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd ond mae angen cyllid pellach i gefnogi'r gwaith o gyflwyno hyn dros gyfnod hwy. Dylai'r marchnata anelu at dargedu ymwelwyr tramor cyn iddynt gyrraedd Iwerddon neu Gymru a mwy o ymwelwyr lleol cyn iddynt gyrraedd yr ardaloedd penodol fel eu bod yn gallu cynllunio i aros am fwy nag un neu ddau ddiwrnod, gan gynnwys ymweld yn ystod y tymhorau ysgwydd ac annog pobl i ymweld â chyrchfannau oddi-ar y ffordd.

Gellid bwrw ymlaen â rhagor o waith gyda chwmnïau teithio a llongau mordeithio, gan sefydlu cysylltiadau i'w hannog i deithio i'r ucheldiroedd hyn fel rhan o'u pecyn, gan fanteisio i'r eithaf ar y wybodaeth leol sy'n bodoli yn y rhwydweithiau.

Ar ben hynny, nododd CUPHAT nifer o faterion a oedd y tu allan i gwmpas y prosiect fel y gellid canfod rhagor o adnoddau i fynd i'r afael â materion hygyrchedd yn yr ardaloedd, er enghraifft datblygu cysylltiadau trafnidiaeth effeithiol a seilwaith cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer twristiaeth fwy cynaliadwy fel arwyddion, meysydd parcio ceir a thoiledau cyhoeddus.

Nodwyd hefyd bod allanoli dylanwad y prosiectau ar bolisi'r llywodraeth i gefnogi rhagor o gyllid a mwy o "waith ar lawr gwlad" (ym Mhreseli) yn bwysig er mwyn darparu twristiaeth gynaliadwy ond bod CUPHAT yn fan cychwyn defnyddiol a buddiol ar gyfer cyflawni newid.

Tua diwedd prosiect CUPHAT roedd Prifysgol Aberystwyth yn datblygu cyllid i ymestyn y gwaith peilot gan CUPHAT i ardaloedd eraill drwy gyllid Cymru Ystwyth i gefnogi rhwydweithiau twristiaeth gymunedol ar hyd arfordir Celtaidd yr Iwerydd. Bydd hyn yn datblygu gwaith CUPHAT yng nghymunedau'r ucheldir arfordirol.

I grynhoi, gellir dosbarthu argymhellion sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r gwerthusiad hwn fel rhai sy'n adlewyrchu naill ai'r broses o gwmpasu'r prosiect a'i waddol uniongyrchol neu'r potensial ar gyfer ei ehangu'n ddaearyddol, ac fe'u hamlinellir fel a ganlyn.

#### **ARGYMHELLION GWADDOL CUPHAT**

**Argymhelliad 1** – Sicrhau bod gwefan a strategaeth farchnata CUPHAT yn cael eu lledaenu a'u hyrwyddo'n effeithiol.

**Argymhelliad 2** – Archwilio cyfleoedd ar gyfer sicrhau gwaddol lwyddiannus a chynaliadwy, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol y gall y gymuned eu rhedeg ar gyfer y gymuned.

**Argymhelliad 3** - Ceisio rhagor o gyllid i barhau ac adeiladu ar y gwaith gyda chymunedau lleol, gan barhau â'r gefnogaeth a datblygu'r dull adfywiol o ymdrin â thwristiaeth.

Gallai hyn gynnwys cyllid i ddarparu cefnogaeth barhaus i'r rhwydweithiau twristiaeth lleol sydd wedi'u sefydlu yn y pedair ardal ucheldir arfordirol a chyllid i gefnogi a hyrwyddo'r wefan.

#### **ARGYMHELLION EHANGU**

**Argymhelliad 4** – Ceisio cyllid i ehangu'r gwaith peilot gan CUPHAT i feysydd eraill, er enghraifft cais am gyllid ar hyn o bryd i Cymru Ystwyth i gefnogi rhwydweithiau twristiaeth gymunedol ar hyd arfordir Celtaidd yr Iwerydd.

#### **ARGYMHELLION Y FFRAMWAITH POLISI**

**Argymhelliad 5** – Adolygu'r fframwaith polisi presennol sy'n ymwneud â thwristiaeth adfywiol mewn ardaloedd ucheldir arfordirol gyda'r bwriad o dargedu ymyriadau penodol a datblygu polisi.

**Argymhelliad 6** – Lledaenu canfyddiadau CUPHAT i godi ymwybyddiaeth o'r potensial ar gyfer twristiaeth adfywiol a'r angen am strategaethau a chynlluniau datblygu newydd mewn ardaloedd ucheldir arfordirol gwledig.